S

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
30/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
10/07/2019

# Gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd i bobl ifanc yn yr ystad ddiogeledd

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83876-641-2

Gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd i bobl ifanc yn yr ystad ddiogeledd: adroddiad o'r prif ganfyddiadau

Harriet Pierpoint a Jenny Hoolachan

Gyda chymorth Peter Mackie, Mike Maguire, Kate Williams, Rebecca Jackson, Shelter Cymru a Helen Taylor.

Nid barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw'r farn hon o reidrwydd yn cyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Enw: Rhian Davies
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 250090
E-bost: Rhian.davies45@llyw.cymru

## Cynnwys


Diolchiadau ..... 2

1. Cyflwyniad ..... 3

2. Adolygiad o Dystiolaeth ..... 5

3. Cwestiynau a Methodoleg yr Ymchwil ..... 29

4. Canfyddiadau ..... 41

5. Casgliadau ac Argymhellion ..... 89

Cyfeirnodau ..... 95

Atodiad 1: Cefnogaeth Llety (Pobl Ifanc) (Llywodraeth Cymru, 2015a) ..... 102

Atodiad 2: Offerynnau Ymchwil ..... 107

## Diolchiadau

Hoffai dîm y gwerthusiad ddiolch i bawb a gymerodd ran neu a gyfrannodd at y gwerthusiad. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r bobl ifanc a rannodd eu profiadau ac i'r budd-ddeiliaid a gynorthwyodd i gynnal y cyfweliadau hyn. Mawr yw ein diolch hefyd i'r budd-ddeiliaid a roddodd eu hamser i gael eu cyfweld neu i gymryd rhan yn yr arolwg, ac i'r sawl a gynorthwyodd i ddosbarthu'r arolwg. Yn olaf, hoffem ddiolch i Lucie Griffiths a Ian Jones, rheolwr cytundeb y gwerthusiad yn Llywodraeth Cymru, ac i aelodau grŵp llywio'r gwerthusiad: Carl Spiller, Tracey Kinsey, Sue Thomas ac Iolo Madoc-Jones.

# 1. Cyflwyniad

Mae nifer o bobl ifanc ddigartref yn troseddu ac yn ddigartref pan maen nhw'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, ac mae nifer o bobl ifanc yn y ddalfa yn ddigartref pan maen nhw'n cael eu rhyddhau (Maguire a Nolan, 2007; Howard League for Penal Reform, 2009). Er mwyn helpu i fynd i'r afael â digartrefedd ac aildroseddu, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn yr Ystad Ddiogeledd (cyfeirir ato fel 'y Llwybr'). Crëwyd dau linyn o'r Llwybr - un ar gyfer oedolion ac un ar gyfer plant/pobl ifanc. Dyfeisiwyd y Llwybr er mwyn sicrhau bod gan bobl a oedd yn gadael y ddalfa a oedd yn wynebu digartrefedd mynediad cyfartal at y mesurau ataliol a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ac i bontio'r ddeddfwriaeth hon gyda Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 2014 a'r diwygiadau i Drawsnewid Ailsefydliad, sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer yr oedolion sy'n gadael y carchar sy'n destun goruchwyliaeth ar drwydded ar ôl eu rhyddhau.

Mae'r asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r Llwybr bellach wedi cael dros dair blynedd i'w roi ar waith yn ymarferol, yn dilyn ei lansiad swyddogol ym mis Rhagfyr 2015[1]. Cyhoeddwyd gwerthusiad o sut mae'r Llwybr i oedolion yn gweithio'n ymarferol ym mis Mehefin 2018 (Madoc-Jones et al, 2018). Felly, mae gwerthusiad o'r Llwybr ar gyfer plant/pobl ifanc yn amserol. Tra bod ystadegau Llywodraeth Cymru'n nodi natur y 'camau rhesymol' a gymerwyd gan awdurdodau lleol i atal a lleddfu digartrefedd ymhlith y sawl 16-17 mlwydd oed (Stats Cymru, 2017), mae'r canlyniadau yn benodol o ran pobl ifanc sy'n gadael yr ystad ddiogeledd yn parhau i fod yn aneglur. Mae'r gwerthusiad hwn, felly, yn eistedd ochr yn ochr â'r gwerthusiad cyfatebol yn ymwneud ag oedolion (Madoc-Jones et al, 2018) gan archwilio profiadau pobl ifanc sy'n gadael yr ystad ddiogeledd, yn ogystal â'r effaith ar asiantaethau budd-ddeiliaid. Yn wir, mae'r gwerthusiad hwn yn croes-gyfeirio ei ganfyddiadau â rhai o ganfyddiadau'r gwerthusiad ar y Llwybr i oedolion i bennu a oes unrhyw faterion yn gyffredin ar draws y ddau Lwybr.

[1] Er ei bod wedi bod yn gweithredu ar ffurf gysgodol ers mis Mai 2015 (Madoc-Jones et al, 2018).

Mae Pennod 2, yr adolygiad o dystiolaeth, yn gosod y Llwybr o fewn ei gyd-destun deddfwriaethol ehangach ac yn archwilio manylion penodol y Llwybr ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r bennod hefyd yn adolygu'r dystiolaeth yn ymwneud â digartrefedd ieuenctid a'i gysylltiadau â throsedd, yn amlinellu problemau ailsefydlu ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael y carchar ac yn adolygu llenyddiaeth ailsefydlu ieuenctid ryngwladol. Mae Pennod 3 yn disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ateb cwestiynau'r ymchwil. Mae Pennod 4 yn cyflwyno canfyddiadau'r holl ddulliau ochr yn ochr â'i gilydd a, lle bo'n berthnasol, yn eu trafod mewn perthynas â'r materion a godwyd yn y llenyddiaeth ailsefydlu a gyflwynwyd yn yr adolygiad o dystiolaeth ym Mhennod 2. Mae Pennod 5 yn crynhoi'r prif ganfyddiadau ac yn amlinellu ein hargymhellion.

# 2. Adolygiad o Dystiolaeth

## 2.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn adolygu'r dystiolaeth ganlynol yn y maes hwn:

- llenyddiaeth academaidd o fynegai academaidd ac offer crynodebau (e.e. crynodebau cyfiawnder troseddol a mynegai a chrynodebau gwyddoniaeth gymdeithasol gymhwysol) a chyfnodolion penodol (e.e. Astudiaethau Tai, Cyfnodolyn Digartrefedd Ewrop, Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddeg a Chyfiawnder Ieuenctid) gan ddefnyddio allweddeiriau
- deddfwriaeth
- dadansoddiad o ddata a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac ar wefannau adrannau eraill Llywodraeth y DU.

Dangosir y prif allweddeiriau yn y tabl isod. Defnyddiwyd geiriau ychwanegol wrth chwilio mewn meysydd o ddiddordeb mwy penodol.

**Tabl 2.1: Allweddeiriau**

| Allweddair 1 | Allweddair 2 | Allweddair 3 | Allweddair 4 | Allweddair 5 | Allweddair 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| Digartrefedd | Carchar | Person/Pobl ifanc | Ailsefydlu | Trosedd | Beth sy'n gweithio |
| Tai | Ystad ddiogeledd | Ieuenctid | Trwy ofal | Troseddu | Effeithiol |
| Llety | Y ddalfa | Ifanc | Ar ôl gofal | Aildroseddu | Llwyddiannus |
| | | | | | Arfer da |

Fe edrychom hefyd am gyhoeddiadau gan unigolion allweddol gan gynnwys holl aelodau tîm y prosiect (Peter Mackie a Mike Maguire yn benodol), yn ogystal â Kathy Hampson, Suzanne Fitzpatrick, Neal Hazel, David Clapham, Peter Raynor a Tim Bateman.

Mae'r adolygiad o dystiolaeth yn cychwyn trwy osod y Llwybr o fewn ei gyd-destun deddfwriaethol ehangach ac yn archwilio manylion penodol y Llwybr ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn dilyn hynny, dangosir yr angen am y Llwybr a'i deddfwriaeth gyfatebol trwy adolygiad o'r dystiolaeth yn ymwneud â digartrefedd ieuenctid a'i gysylltiadau â throsedd. Gellir dadlau bod pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd ac sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol yn cynrychioli grŵp

hynod fregus gydag amrediad o anghenion cymhleth. Yna, mae'r adolygiad yn trafod ailsefydlu ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael y carchar cyn gorffen trwy amlinellu problemau ailsefydlu sy'n benodol i Gymru.

## 2.2 Deddf Tai (Cymru) 2014

Roedd Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd i Gymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009) a'r Strategaeth Dai Genedlaethol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) yn nodi angen i ail-archwilio deddfwriaeth ddigartrefedd a oedd, er gwaethaf deddfwriaeth dai dros dro[2], heb newid ryw lawer yn ei fframwaith strwythurol ers i Ddeddf Tai (Pobl Ddigartref) 1977 ddod i rym. Roedd y fframwaith cyfredol yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety sefydlog i aelwydydd a oedd yn bodloni pedwar o'r prif feini prawf hyn: (1) cymhwyster i dderbyn arian o gronfeydd cyhoeddus; (2) yn anfwriadol ddigartref; (3) ag angen blaenoriaethol; (4) gyda chyswllt lleol â'r ardal. Bu Adolygiad Mackie feirniadu'r strwythur hwn am ddau reswm (Mackie, 2014). Yn gyntaf, roedd yn eithrio aelwydydd nad oedd yn flaenoriaeth o ran angen (pobl sengl gan fwyaf) rhag derbyn unrhyw gymorth ystyrlon. Yn ail, roedd y ddeddfwriaeth yn anghydnaws gyda gwasanaethau atal digartrefedd a oedd wedi cychwyn yn 2004/2005; mynegwyd angen i flaenoriaethu ac integreiddio gwasanaethau o'r fath yn y ddeddfwriaeth gan nifer o fudd-ddeiliaid (Mackie, 2014; 2015; Mackie, Thomas a Bibbings, 2017).

Mae atal, felly, yn ganolog i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a ddaeth i rym yn ddiweddarach; mae wedi cael ei ddisgrifio fel 'arloesol' gan mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ymgorffori 'dyletswydd atal' statudol (Mackie, Thomas a Bibbings, 2017). Mae pob aelwyd bellach yn gallu derbyn cymorth o ryw fath os ydynt yn bodloni'r meini prawf a nodir uchod neu beidio (sydd wedi cael eu cadw, am nawr[3]). Isod fe welir nodweddion allweddol y Ddeddf (Llywodraeth Cymru, 2016) sy'n ei wahaniaethu o ddeddfwriaeth flaenorol:

---

[2] Deddf Tai (1996) a Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001

[3] Ar gychwyn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o'r defnydd o'r prawf angen blaenoriaethol yng Nghymru yn dilyn galwadau i gael gwared arno (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Ar yr adeg o gyhoeddi, roedd y gwaith hwn ar waith gyda'r prif ganfyddiadau heb eu pennu. Am nawr, mae'r pedwar maen prawf (cymhwyster, bwriadoldeb, angen blaenoriaethol a chyswllt lleol) wedi cael eu cadw mewn rhyw ffurf ond cânt eu defnyddio'n wahanol gan wahanol awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae rhai wedi hepgor bwriadoldeb a chyswllt lleol, tra bod eraill heb.

- dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i gymryd 'camau rhesymol' i atal/lleddfu digartrefedd
- mae'r cyfnod y gellir pennu bod person 'dan fygythiad o ddigartrefedd' wedi cael ei ymestyn o 28 diwrnod i 56
- mae'r prawf bwriadoldeb bellach yn 'bŵer' yn hytrach nag yn 'ddyletswydd'
- mwy o bwerau i awdurdodau lleol gyflawni dyletswydd ddigartrefedd yn y sector rhent preifat
- dyletswyddau cryfach ar sefydliadau tai i gydweithredu ag awdurdodau lleol wrth letya pobl ddigartref
- tynnu'r statws 'angen blaenoriaethol' awtomatig ar gyfer y sawl sy'n gadael y carchar.

Mae tynnu'r statws 'angen blaenoriaethol' ar gyfer y sawl sy'n gadael y carchar wedi effeithio ar oedolion yn fwy na phobl ifanc, gan fod pob person ifanc yn gymwys am angen blaenoriaethol dan ddwy ddarpariaeth bellach a amlinellir yn Adran 70 Deddf Tai (Cymru) 2014:

- person sy'n 16 neu 17 oed os yw'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu am gymorth i sicrhau neu gadw llety
- person sydd wedi cyrraedd 18 oed, os yw'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu am gymorth i sicrhau neu gadw llety, ond nid person sydd wedi cyrraedd 21 oed a oedd yn derbyn gofal, mewn llety neu wedi cael ei faethu ar unrhyw adeg dan 18 oed.

Yn wir, mae nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n torri ar draws deddfwriaeth tai ar gyfer plant a phobl ifanc; caiff y rhain eu hamlinellu yn yr adran ganlynol.

Pan fod awdurdod lleol yn derbyn cais digartrefedd, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd pa 'ddyletswydd' mae ganddynt yr hawl iddi'n gyfreithiol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys:

- Adran 66 - dyletswydd i atal digartrefedd: yn berthnasol pan fo aelwyd dan fygythiad o ddigartrefedd yn y 56 diwrnod nesaf
- Adran 68 - dyletswydd i ddarparu llety dros dro: yn berthnasol pan fod yna reswm i gredu y gallai aelwyd fod yn gymwys am gymorth, yn ddigartref neu mewn angen blaenoriaethol. Mae hyn yn digwydd yn dilyn ymchwiliad i bennu a oes dyletswydd tuag at yr aelwyd dan Adran 73

- Adran 73 - dyletswydd i helpu sicrhau llety addas: yn berthnasol pan fo dyletswydd Adran 66 wedi methu neu pan fo aelwyd eisoes yn ddigartref pan fo'r cais yn cael ei wneud
- Adran 75 - dyletswydd derfynol i ddarparu llety sefydlog: yn berthnasol pan fo aelwyd yn gymwys ac mewn angen blaenoriaethol a lle bo'r 'camau rhesymol' a gymerwyd dan Adran 66 a 73 heb fod yn llwyddiannus.

Nid yw'r 'ddyletswydd derfynol' (Adran 75) felly'n ddyledus oni bai bod aelwyd wedi symud trwy'r 'camau rhesymol' i atal (Adran 66) neu leddfu (Adran 73) eu digartrefedd, a bod y camau hynny wedi methu a'u bod felly yn y categori angen blaenoriaethol. Mae'r 'camau rhesymol' yn cynnwys amrediad o offer i awdurdodau lleol eu defnyddio. Gall y rhain gynnwys:

- cyfryngu
- taliadau ar ffurf grant neu fenthyciad
- gwarantau i landlordiaid/benthycwyr y bydd y taliadau'n cael eu gwneud
- cefnogaeth i reoli dyled, ôl-daliadau morgais neu ôl-daliadau rhent
- mesurau diogelwch ar gyfer ymgeiswyr mewn perygl o gam-driniaeth
- eiriolaeth neu gynrychiolaeth arall
- llety
- gwybodaeth a chyngor
- gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill.

## 2.3 Deddfwriaeth Allweddol Arall

Gan ystyried y tynnwyd yr angen blaenoriaethol ar gyfer y sawl sy'n gadael y carchar, mae'r Llwybr (a ddisgrifir yn fwy manwl yn adran 2.4) yn anelu at sicrhau bod gan y sawl sy'n gadael y carchar fynediad cyfartal at ddyletswyddau atal a lleddfu, a'r 'camau rhesymol' sy'n cyd-fynd â'r rhain. Ar ben hynny, mae'n tynnu darpariaethau Deddf Tai (Cymru) 2014 a darnau allweddol eraill o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r sawl sy'n gadael yr ystad ddiogeledd at ei gilydd. Isod fe geir trosolwg cryno o'r ddeddfwriaeth hon a sut mae'n ymwneud â'r Llwybr.

<u>Deddf Troseddu ac Ailsefydlu 2014:</u> Mae'r Ddeddf hon yn darparu'r sail gyfreithiol i ymestyn goruchwyliaeth i droseddwyr sy'n oedolion a gafodd ddedfryd o lai na 12 mis. Mae'n rhan o gyfres ehangach o newidiadau 'Gweddnewid Adsefydlu' a

roddwyd ar waith ar lefel genedlaethol o fis Chwefror 2015. Mae rhaglen 'Gweddnewid Adsefydlu' yn anelu at leihau cyfraddau aildroseddu trwy gyfres o ddiwygiadau gan gynnwys aildrefnu carchardai i ail-setlo troseddwyr 'trwy'r gât', gyda chefnogaeth barhaus o'r ddalfa i'r gymuned a gan gyflwyno mentoriaid ar gyfer carcharorion tymor byr sy'n cael eu rhyddhau yn y gymuned.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Mae'r ddeddfwriaeth hon yn sicrhau bod gan oedolion a phobl ifanc fynediad at ofal a chefnogaeth tra yn yr ystad ddiogeledd. Ar gyfer pobl ifanc, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi, lle'r oedd person ifanc yn breswylydd arferol cyn mynd i mewn i'r ystad ddiogeledd, bod yr awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarparu gofal a chefnogaeth i'r person ifanc hwnnw lle bynnag mae'n cael ei dal yng Nghymru neu Loegr. Caiff yr awdurdod lleol hwn ei adnabod fel 'Awdurdod Lleol Cartref yng Nghymru'. Ar ben hynny, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol o ran plant sy'n derbyn gofal i hyrwyddo eu llesiant ac i greu/cynnal cynllun gofal a chefnogaeth.

Ategir Rhan 11 o'r Ddeddf hon gan y Llwybr Gofal Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn yr Ystad Ddiogeledd (Llywodraeth Cymru, 2015b). Mae'r 'Llwybr Cefnogol' yn ymdebygu ac yn torri ar draws y Llwybr digartrefedd wrth amlinellu'r camau gofynnol i'w cymryd gan weithwyr proffesiynol allweddol ar wahanol gamau o gyfnod plentyn/person ifanc yn yr ystad ddiogeledd. Yn gryno, mae gofyn bod timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn adnabod ac yn cynnwys anghenion gofal a chefnogaeth mewn adroddiad cyn-dedfrydu unigolyn. Yn ystod y cam derbyn i'r ddalfa, os oes angen gofal/cefnogaeth yn bodoli, mae staff iechyd yn cynnal asesiad a bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at yr awdurdod lleol cartref i asesu cymhwyster yr unigolyn am atgyfeiriad at asiantaethau cefnogaeth allweddol. Mae'r ystyriaeth o anghenion gofal a chefnogaeth yn digwydd ar y cyd ag ystyriaethau tai ac ar bob cam o'r ddalfa; dylid mynd i'r afael â'r ddau fath o anghenion gyda'i gilydd.

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Mae hwn yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol i'r sawl yn y ddalfa. Ar ben hynny, dan y mesur hwn, dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod gan unigolyn yn y ddalfa fynediad at wasanaethau iechyd meddwl priodol ar ôl cael ei ryddhau. Mewn perthynas â'r Llwybr, yn ogystal ag adnabod a chefnogi problemau iechyd meddwl tra yn y ddalfa, dylid hefyd cofnodi

anghenion iechyd meddwl yn yr atgyfeiriad tai a wneir i awdurdod lleol er mwyn sicrhau'r canlyniad tai mwyaf priodol ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998: Cyflwynwyd YOTs trwy'r Ddeddf hon ac mae ganddynt rôl allweddol yn y Llwybr trwy gydlynu gwasanaethau plant a thimau opsiynau tai i gefnogi pobl ifanc yn yr ystad ddiogeledd ac wedi'u rhyddhau.

Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012: Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae unigolyn yn derbyn statws angen blaenoriaethol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 os ydynt rhwng 18 a 21 mlwydd oed ac wedi derbyn gofal ar unrhyw adeg cyn 18 oed. Mae Adran 104 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 yn nodi y bydd unrhyw blentyn/person ifanc a gedwir mewn llety cadw ieuenctid yn cael eu trin fel eu bod yn derbyn gofal gan yr awdurdod penodedig, sy'n golygu y byddant yn cael eu cyfri fel rhai ag angen blaenoriaethol.

Dyfarniad Southwark: Yn yr un modd, mae statws angen blaenoriaethol ar gyfer y sawl 16-17 oed yn cael ei ailadrodd gan Ddyfarniad Southwark, sydd, wrth egluro Adran 20 Deddf Plant 1989, yn ei gwneud yn ofynnol bod gwasanaethau plant yn darparu llety a chefnogaeth ar gyfer unigolion digartref o'r oedran hwn. Mewn geiriau eraill, tra bod timau opsiynau tai'n rhan o ddarparu cymorth digartrefedd a llety i blant/pobl ifanc dan 18 mlwydd oed sy'n gadael yr ystad ddiogeledd, mae'r cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer hyn yn gorwedd gyda gwasanaethau plant (Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, 2016).

Cyd-strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2014): Yn olaf, yn ychwanegol at y darpariaethau a amlinellwyd hyd yn hyn, mae cyd-strategaeth cyfiawnder ieuenctid Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2014) - *Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf* - yn cynnwys ailsefydlu ac ailintegreiddiad fel un o'i blaenoriaethau. Sefydlwyd Byrddau Partneriaeth Ailintegreiddiad ac Adsefydlu (RRPBs) i gymryd ymagwedd aml-asiantaeth at leihau'r risg o aildroseddu ymhlith pobl ifanc sy'n gadael y ddalfa trwy ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr (sy'n cynnwys llety) sy'n benodol i anghenion unigol (Hampson a Kinsey, 2016). Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu rhoi statws

statudol i RRPBs trwy gyflwyno dyletswydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Llywodraeth Cymru, 2015a).

## 2.4 Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel

Roedd y Llwybr digartrefedd (Llywodraeth Cymru, 2015a) yn gynnyrch y Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion, a sefydlwyd i sicrhau bod gan garcharorion fynediad at ddyletswydd atal newydd Deddf Tai (Cymru) 2014. Er bod plant/pobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd ar ôl cael eu rhyddhau o'r ystad ddiogeledd yn debygol o gael eu pennu fel rhai ag angen blaenoriaethol, ac felly'n gymwys i dderbyn y 'ddyletswydd' derfynol i letya (Adran 75), bydd hyn ond yn digwydd os yw'r dyletswyddau 'atal' (Adran 66) a 'lleddfu' (Adran 73) wedi methu.

Mae'r Llwybr ei hun wedi'i rannu yn bedair rhan, gan fapio pedwar cyfnod cronolegol mae plant/pobl ifanc yn eu hwynebu wrth iddynt symud trwy'r system cyfiawnder ieuenctid[4]. Sef: cyn y ddalfa; derbyn; ailsefydlu; a rhyddhau. YOTs sy'n gyfrifol am oruchwylio mwyafrif y prosesau yn y Llwybr plant/pobl ifanc. Fodd bynnag, mae RRPBs yn gysylltiedig o gam cynnar ac mae awdurdodau lleol yn cychwyn chwarae rhan fwy ar ôl i atgyfeiriad tai gael ei wneud. Mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu'r hyn dylai ddigwydd ar bob un o'r camau hyn. Dangosir y camau yn y diagramau yn Atodiad 1: Cefnogaeth Llety (Pobl Ifanc) (Llywodraeth Cymru, 2015a) hefyd.

Yn ystod y cyfnod cyn y ddalfa, mae'r YOTs yn cynhyrchu adroddiad cyn-dedfrydu sy'n nodi'r canlynol am y plentyn/person ifanc: sefyllfa byw; angen am lety; ac a ydynt yn derbyn gofal. Anfonir yr adroddiad hwn at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Os yw plentyn/person ifanc yn derbyn dedfryd o garchar o lai na 66 diwrnod (sy'n debygol o ddigwydd gyda Gorchmynion Cadw a Hyfforddi - DTOs[5]), a bod yna angen am lety, mae'r YOT yn gwneud atgyfeiriad i'r awdurdod lleol ystyried a oes dyletswydd arno i letya'r person ifanc. Wrth ei derbyn yn y ddalfa, bydd Cynllun

[4] Mae'n werth nodi Adran 117 o'r Llwybr sy'n nodi y dylid ei darllen ochr yn ochr ag Erthygl 3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n nodi bod rhaid i fudd pennaf y plentyn fod yn ganolog i unrhyw weithrediadau a gymerir sy'n effeithio arnynt.

[5] Dedfrydau o garchar diffiniedig a all bara am bedwar mis hyd at 24 mis yw Gorchmynion Cadw a Hyfforddi. Mae plentyn yn treulio hanner cyntaf y gorchymyn yn y ddalfa a'r ail hanner yn y gymuned ar drwydded (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2019a

Dedfrydu'n cael ei baratoi (o fewn 10 diwrnod ac yn cael ei adolygu'n fisol), a fydd yn nodi unrhyw angen am lety. Chwe deg chwe diwrnod cyn rhyddhau, maen nhw'n cychwyn y cyfnod ailsefydlu ac os oes angen am lety yn dal i fodoli, caiff atgyfeiriad ei wneud i'r awdurdod lleol priodol. Os yw'r awdurdod lleol yn derbyn bod dyletswydd arnynt dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, yna mae dyletswydd ar yr awdurdod i atal neu leddfu digartrefedd y person ifanc.

Os yw'r ymdrechion lleddfu yn methu, yna mae gan y plentyn/person ifanc hawl at lety â chymorth oherwydd bod pob plentyn/person ifanc sy'n gadael y ddalfa yn cael eu pennu fel rhai ag angen blaenoriaethol. Caiff y cyfnod olaf - rhyddhau - ei siapio gan ganlyniad yr atgyfeiriad at yr awdurdod lleol. Os oes dyletswydd lleddfu tuag at y plentyn/person ifanc, mae ganddynt hawl pellach at lety addas dros dro (Adran 68) tan fod modd dod o hyd i lety mwy parhaol. Dylid nodi bod llety gwely a brecwast yn cael ei bennu'n anaddas i blant/pobl ifanc oni bai mai dyna'r dewis olaf (Llywodraeth Cymru, 2015a; 2016). Mae hyn oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig â phlant/pobl ifanc yn byw yn yr un lleoliad ag oedolion, heb lawer o breifatrwydd a goruchwyliaeth (Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, 2016).

## 2.5 Digartrefedd ieuenctid

Er mai Cymru yw'r wlad gyntaf i wneud atal digartrefedd yn ddyletswydd statudol, roedd gweithgareddau ataliol wedi bod yn digwydd bob yn dipyn ledled y DU cyn hyn (Fitzpatrick et al, 2009). Mae atal digartrefedd ieuenctid yn y DU fel rheol wedi golygu bod yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth cyfryngu rhwng pobl ifanc a'u rhieni, yn ogystal â chynorthwyo i ddod o hyd i lety pan mae tenantiaeth yn dod i ben (Pawson et al., 2007).

Mae ystent digartrefedd ieuenctid yn y DU, fodd bynnag, yn ansicr. Mae ystadegau'r Llywodraeth ond yn categoreiddio ychydig o'r data digartrefedd yn ôl oedran, nid y data i gyd. Yng Nghymru, mae ychydig ddata ar gael ar ganlyniadau ceisiadau digartrefedd a wneir i awdurdodau lleol yn ôl oedran. Mae'r ffigurau diweddaraf, ar gyfer y cyfnod 2016-17, yn dangos y gwnaethpwyd 810 cais digartrefedd gan bobl ifanc 16-17 mlwydd oed yng Nghymru: Bu 168 o'r rheini dderbyn canlyniad 'atal' (Adran 66), 282 canlyniad 'help i sicrhau' (lleddfu) (Adran 73) a 81 canlyniad 'dyletswydd derfynol' (Adran 75). Penderfynwyd fod y gweddill naill ai ddim yn gymwys, yn ddigartref/dan fygythiad o ddigartrefedd neu'n ddigartref yn fwriadol

(Stats Cymru, 2017). Tra bod y ffigurau hyn yn darparu rhyw syniad o ystent digartrefedd ieuenctid yng Nghymru, gall un unigolyn wneud sawl cais a/neu dderbyn sawl canlyniad sy'n golygu bod hi'n amhosib arwahanu nifer y bobl sy'n ddigartref a rhwng 16 - 17 mlwydd oed yn ystod unrhyw gyfnod amser penodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod cyfran sylweddol o ddigartrefedd pobl ifanc yn 'gudd' oherwydd diffyg ymgysylltiad â gwasanaethau, mynd o soffa i soffa a chysgu ar y stryd (Clarke, 2016). Roedd Clarke (2016) yn amcangyfrif, ar unrhyw noson, bod o leiaf 216,000 person ifanc yn y DU yn mynd o soffa i soffa a bod 40,000 person ifanc yn cysgu ar y stryd. Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol uwch nag yr awgrymir gan ffigurau swyddogol, gan arwain Clarke (2016) i ddod i'r casgliad bod mwyafrif y bobl ifanc ddigartref ddim yn ymgysylltu â gwasanaethau. Yn ddiddorol, roedd proffil y bobl ifanc a gymerodd ran yn ein harolwg yn llai bregus nag un y bobl ifanc mewn ymchwil arall yn seiliedig ar y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau. Felly, mae hi'n awgrymu mai'r bobl ifanc ddigartref fwyaf bregus yw'r rhai sy'n ymgysylltu â gwasanaethau.

## 2.6 Digartrefedd ieuenctid, troseddu a'r ddalfa

Caiff bregusrwydd ymhlith pobl ifanc sy'n ddigartref ei gipio gan ymchwil sydd wedi ceisio adnabod rhesymau cyffredin dros ddigartrefedd ieuenctid, gan gynnwys chwaliad/gwrthdaro teuluol; trais a/neu anawsterau ariannol yn y teulu; wedi bod dan ofal yr awdurdod lleol ac wedi bod ynghlwm â throsedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol (Johnsen a Quilgars, 2009; Pleace, 2008; Neale, 2001). Ar gyfer rhai pobl ifanc, mae eu derbyniadau (mynych) ac ymadawiadau o ddigartrefedd yn mynd llaw yn llaw ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu, erledigaeth a chamddefnyddio sylweddau (Clapham et al, 2014; Mayock et al, 2013; Pain a Francis, 2004; Wardaugh, 2000). Bu un adroddiad a gasglodd data ar bron i 5,000 o bobl ifanc a oedd yn defnyddio gwasanaethau digartrefedd yn Lloegr ganfod bod gan 15 y cant o'r sampl hanes o droseddu (Homeless Link, 2018). Er hyn, roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gan nifer o bobl ifanc ddigartref amryw broblemau, gyda digartrefedd a throseddu yn ddwy ohonynt yn unig (Homeless Link, 2018). Ar ben hynny, mae rhai grwpiau o bobl ifanc mewn mwy o risg o ddigartrefedd, gan gynnwys: y sawl gyda chefndiroedd BAME; y sawl sydd wedi bod mewn gofal; y sawl sy'n LGBTQ; plant digwmni sy'n ceisio lloches neu'r sawl gyda statws ffoadur; dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd; a'r sawl 16 i 17 mlwydd oed o'i gymharu â phobl ifanc o oedrannau eraill (Homeless Link, 2018).

Mae Fitzpatrick et al (2013) yn defnyddio fframwaith 'digartrefedd allgau lluosog) i gysyniadu'r gorgyffwrdd sylweddol rhwng digartrefedd, treulio amser mewn sefydliadau megis y carchar, ac amrediad o anghenion cymhleth sy'n rhoi'r unigolion mewn sefyllfaoedd o allgau cymdeithasol difrifol.

Mae llenyddiaeth troseddau ieuenctid hefyd yn cydnabod cefndiroedd cymhleth nifer o bobl ifanc. Mae cysyniad 'profiadau niweidiol yn ystod plentyndod' wedi denu sylw troseddegwyr, gweithwyr tai proffesiynol ac ymarferwyr cyfiawnder ieuenctid yn ystod blynyddoedd diweddar oherwydd y dystiolaeth sy'n dangos cyswllt rhwng trawma, cam-driniaeth ac esgeulustod yn ystod plentyndod ag ymglymiad mewn troseddau yn bobl ifanc ac yn oedolion (Beckley et al, 2018; Pflugardt et al, 2018; Baglivio ac Epps, 2016; Fox et al, 2015). Mae tystiolaeth bellach wedi tynnu sylw at y berthynas rhwng troseddu ieuenctid a bod dan ofal yr awdurdod lleol (Day, 2017; Darker et al, 2008), cael problemau iechyd meddwl a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau yn ystod plentyndod (Mallett et al, 2011), a ffactorau risg teuluol (Haines a Case, 2005). Yn ddiweddar, fe dreialodd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Llywodraeth Cymru ymagwedd 'Uwch Reolaeth Achos' lle roedd rhai YOTs yn mabwysiadu model wedi'i hysbysu gan seicoleg i'w galluogi i deilwra ymyraethau yn fwy gofalus i gefnogi unigolion. Er ni thrafodwyd digartrefedd yn benodol, roedd nifer o'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r treial wedi derbyn gofal a nododd y gwerthusiad o'r treial amryw broblemau'r bobl gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, profiad o gam-driniaeth ddomestig, a bod yn ddioddefwr trais corfforol (Llywodraeth Cymru, 2017). Mewn geiriau eraill, mae proffiliau pobl ifanc gyda hanes o droseddu'n aml yn gorgyffwrdd yn fawr â'r sawl sy'n wynebu digartrefedd.

Yn aml mae gan bobl ifanc sy'n cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol ac sy'n derbyn dedfryd o garchar lefelau arbennig o uchel o broblemau cymhleth, a all gael eu gwaethygu gyda'r profiad o fod yn y carchar (Cesaroni a Peterson-Badali, 2010). Mae nifer y bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn cwympo dros y degawd diwethaf. Mae ffigurau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2017-18 yn nodi gostyngiad o 70% mewn dedfrydau o garchar dros y deng mlynedd diwethaf, er roedd yna gynnydd o 3% mewn dedfrydau o garchar yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; y cynnydd cyntaf o'i fath ers 2008 (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder,

2019). Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018, y boblogaeth fisol o blant a phobl ifanc yn y ddalfa ar unrhyw adeg ar gyfartaledd, yng Nghymru a Lloegr, oedd ychydig dan 900[6] (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019, tud 36). Roedd yr un adroddiad yn nodi bod cyfran y plant a phobl ifanc yn y ddalfa am droseddau mwy difrifol (trais yn erbyn person, dwyn a throseddau rhywiol) wedi cynyddu'n gyson dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod y troseddwyr llai difrifol ddim yn cael eu hanfon i'r ddalfa. Bu'r adroddiad ddarganfod hefyd na fod cyfran yr unigolion o gefndiroedd BAME yn y ddalfa yn gymesur i'r boblogaeth gyffredinol. Mae aildroseddu hefyd yn ddigwyddiad sylweddol ymysg plant a phobl ifanc. Ers 2014, mae aildroseddu ymysg plant a phobl ifanc wedi bod yn gostwng, ond mae dal yn uwch nag yr oedd deng mlynedd yn ôl. Ar ben hynny, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017, roedd y plant a phobl ifanc a oedd yn aildroseddu yn cyflawni 3.92 trosedd yr un ar gyfartaledd, gan gynrychioli'r gyfradd amlder aildroseddu uchaf yn y deng mlynedd ddiwethaf (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019).

Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli plant a phobl ifanc yng Nghymru a Lloegr. Mae data ar ddemograffeg ar gael yn gyhoeddus ar bobl ifanc sy'n gysylltiedig â YOT yng Nghymru yn benodol (er mae'n bosib bod y bobl ifanc hyn yn gwneud eu dedfrydau o garchar mewn sefydliad yn Lloegr). Mae Tabl 2.2 isod yn dynodi rhyw, oedran ac ethnigrwydd yr unigolion hyn dros gyfnod o saith mlynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018. Mae hefyd yn cynnwys y sail gyfreithiol dros gyhoeddi'r ddedfryd o garchar. Mae'r tabl yn adlewyrchu'r tueddiad bod dedfrydau o garchar wedi bod yn gostwng yn barhaol dros amser. Mae nifer y bobl ifanc sy'n gysylltiedig â YOT yng Nghymru, sy'n gwneud dedfryd o garchar, bellach ychydig dros draean y nifer yn 2012 (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2019a). Roedd 32 person ifanc yn y ddalfa yn 2018 o gymharu â 90 yn 2012. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod mwyafrif y bobl ifanc sy'n gysylltiedig â YOT yng Nghymru ac sy'n derbyn dedfryd o garchar yn wrywaidd, yn 17 mlwydd oed ac yn wyn, a bod mwyafrif y dedfrydau o garchar yn seiliedig ar DTOs.

[6] Mae'n bwysig cadw mewn cof bod yna bosibilrwydd bod rhai plant/pobl ifanc yn gwneud mwy nag un ddedfryd o garchar yn ystod cyfnod penodol, sy'n golygu bod ystadegau cyfiawnder ieuenctid yn adrodd ar y 'gyfran' yn hytrach na 'nifer' yr unigolion yn y ddalfa.

**Tabl 2.2: Data ar y ddemograffeg a'r sail gyfreithiol ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â YOT yng Nghymru, a oedd yn gwneud dedfryd o garchar rhwng y blynyddoedd yn gorffen Mawrth 2012 i'r flwyddyn yn gorffen Mawrth 2018**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | | | | | |
| Benywaidd | 4 | 2 | 3 | 3 | 2 | 1 | 1 |
| Gwrywaidd | 86 | 65 | 47 | 43 | 40 | 37 | 31 |
| **Oedran** | | | | | | | |
| 10-14 mlwydd oed | 5 | 2 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| 15 mlwydd oed | 8 | 8 | 6 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| 16 mlwydd oed | 24 | 20 | 12 | 15 | 12 | 8 | 9 |
| 17 mlwydd oed | 54 | 38 | 30 | 26 | 25 | 27 | 19 |
| **Ethnigrwydd** | | | | | | | |
| Asiaidd ac Eraill | 4 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 2 |
| Du | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Cymysg | 1 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 5 |
| Pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | 6 | 6 | 5 | 5 | 3 | 5 | 7 |
| Gwyn | 76 | 61 | 45 | 41 | 39 | 33 | 25 |
| **Sail gyfreithiol** | | | | | | | |
| Remand | 18 | 11 | 8 | 8 | 5 | 5 | 9 |
| Gorchymyn Cadw a Hyfforddi | 61 | 47 | 32 | 30 | 28 | 25 | 18 |
| Adran 91[7] | 7 | 10 | 10 | 8 | 8 | 8 | 5 |
| Arall | 4 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |

Ffynhonnell: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2019a)

Nodwch: Nodwn fod cyfanswm y celloedd ethnigrwydd yn uwch na chyfanswm y celloedd eraill (rhyw er enghraifft). Fodd bynnag, mae'r data a gyflwynir yma yn adlewyrchiad cywir o'r data a gyflwynwyd yn y ffynhonnell.

Gan gymryd yr holl ddata ar ddigartrefedd a throseddu ieuenctid, ac ar bobl ifanc yn y ddalfa, mae tystiolaeth yn dynodi bod y niferoedd yn isel, ond bod yna grŵp o bobl ifanc sy'n profi'r gwaethaf o fregusrwydd ac allgau cymdeithasol, a allai arwain at gylch o ddigartrefedd a/neu droseddu/aildroseddu rheolaidd, yn enwedig os ydynt wedi derbyn dedfryd o garchar.

## 2.7 Cyfiawnder Ieuenctid ac Ailsefydlu yng Nghymru

Mae pobl ifanc yng Nghymru a Lloegr sy'n derbyn dedfryd o garchar yn gwneud y ddedfryd hon naill ai mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI, un yn unig yng Nghymru), Canolfan Hyfforddi Ddiogel (STC, dim un yng Nghymru) neu Gartref Diogel i Blant (SCH, un yn unig yng Nghymru). Mae YOIs yn cael eu rhedeg gan

[7] Mae Adran 91 yn caniatáu i Lys y Goron ddedfrydu plant (y sawl dan 18) wedi'u cyhuddo o 'droseddau difrifol' (y sawl a restrir yn Adran 91) - troseddau difrifol penodol ar wahân i lofruddiaeth lle gallai oedolyn dderbyn o leiaf 14 mlynedd yn y ddalfa) i'r ddalfa. Mae fel arfer yn cael ei defnyddio i roi dedfryd hirach na'r ddwy flynedd sydd ar gael dan DTO (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2019a).

wasanaeth y carchardai ac maen nhw fel arfer yn lletya dynion 15-20 mlwydd oed; caiff STCs eu rhedeg gan gwmnïau preifat ac maen nhw fel arfer yn lletya dynion a menywod 12-17 mlwydd oed; tra bod SCHs yn cael eu rhedeg gan yr awdurdodau lleol ac yn lletya plant ifancach, mwy bregus (Cavadino et al, 2013). Ym mis Chwefror 2019, roedd 834 person dan 18 yn y ddalfa ieuenctid yng Nghymru a Lloegr[8] (cynnydd o 22 person ifanc o'i gymharu â'r mis blaenorol), gyda 694 ohonynt yn 16 neu 17 mlwydd oed (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2019b). Roedd dau ddeg saith o'r 834 person dan 18 yn gysylltiedig â YOT yng Nghymru ac roedd 33 mewn sefydliad diogel yng Nghymru (roedd nifer o reini'n dod o ardaloedd YOT y tu allan i Gymru). Mae Tabl 2.3 yn amlinellu math y sefydliad a'r sail gyfreithiol ar gyfer pawb dan 18 yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr ym mis Chwefror 2019; nid yw'r data misol hwn yn arwahanu'r ffigurau ar gyfer Cymru na chwaith ar gyfer y sawl 16 ac 17 mlwydd oed.

**Tabl 2.3: Y sawl dan 18 sy'n gwneud dedfrydau o garchar yng Nghymru a Lloegr ym mis Chwefror 2019**

| | **Nifer y bobl ifanc** |
|---|---|
| **Math o sefydliad** | |
| Sefydliad Troseddwyr Ifanc | 616 |
| Canolfan Hyfforddiant Ddiogel | 143 |
| Cartref Diogel i Blant | 75 |
| Cyfanswm | 834 |
| **Sail gyfreithiol** | |
| Gorchymyn Cadw a Hyfforddi | 289 |
| Remand | 242 |
| Adran 91[7] | 242 |
| Arall | 61 |
| Cyfanswm | 834 |

Ffynhonnell: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2019b)

Tra bod polisïau cyfiawnder ieuenctid heb gael eu datganoli i Gymru, bu'r datganoliad o wasanaethau a fyddai fel rheol yn cyd-fynd â chyfiawnder ieuenctid (gwasanaethau plant, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a thai) arwain at gyfleoedd i ddatblygu *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004) a gymerodd ymagwedd fwy llesolaidd gyda phwyslais ar 'plant yn gyntaf, troseddwyr yn ail' (Case a Haines, 2015; Drakeford, 2010). Mae'r Llwybr yn rhan amlwg o'r ymagwedd gwbl Gymreig hon wrth fynd i'r afael ag ailsefydlu.

[8] Mae'r ffigur hwn yn codi i 915 pan mae'r sawl sy'n 18 oed yn cael eu cynnwys

Mae 15 YOT yng Nghymru; mae pump o'r rhain yn gweithio ar draws dau awdurdod lleol, gydag un yn gweithio ar draws tri. Mae YOTs yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf ac mae dyletswydd statudol arnynt i reoli plant/pobl ifanc sy'n destun gorchmynion llys ac i weithio'n agos gyda'r ystad ddiogeledd i wneud trefniadau ar gyfer unrhyw blentyn/person ifanc sy'n gadael y ddalfa. Mae'r ystad ddiogeledd yng Nghymru'n cynnwys dau sefydliad: YOI Parc (ym Mhen-y-bont, De Cymru) a SCH Hillside (yng Nghastell Nedd, De Cymru). Ar ben hynny, mae nifer fechan o bobl ifanc gyda YOT yng Nghymru wedi'u carcharu mewn sefydliadau yn Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, Rainsbrook STC (yn Willoughby), Vinney Green SCH (ym Mryste), Wetherby YOI (yn Wetherby) a Werrington YOI (yn Stoke-on-Trent) (Jones, 2018). Mae Tabl 2.4 yn dynodi nifer y bobl ifanc yn y ddalfa ym mis Mawrth 2018 gyda YOT yn seiliedig yng Nghymru, fesul lleoliad.

**Tabl 2.4: Pobl ifanc sy'n gysylltiedig â YOT yng Nghymru a oedd yn y ddalfa ym mis Mawrth 2018 yn ôl sefydliad**

| Enw'r sefydliad | Nifer y bobl ifanc |
|---|---:|
| Parc (YOI) | 13 |
| Werrington (YOI) | 6 |
| Rainsbrook (STC) | 4 |
| Vinney Green (SCH) | 3 |
| Hillside (SCH) | 3 |
| Wetherby (YOI) | 1 |

Ffynhonnell: Addaswyd o Jones (2018)

Mae lletya pobl o Gymru mewn sefydliadau yn Lloegr yn gallu achosi problemau o ran ailsefydlu. Mae cynyddu'r pellter o adref yn ei gwneud yn anodd i deuluoedd a gweithwyr cefnogaeth ymweld ac mae'n cyfyngu ar y potensial i Ryddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL)[9] (Hampson, 2016). Mae ROTL yn caniatáu i bobl adael y ddalfa am gyfnod byr at ddibenion ailsefydlu; un o'r rheini yw ymweld â'r llety lle byddant yn byw ar ôl eu rhyddhau (Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2015). Mae nifer o blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi troseddu wedi'u heithrio o ROTL oherwydd eu bod wedi'u carcharu yn rhy bell o adref. Tra bod y broblem hon yn hanesyddol wedi bod yn fwy perthnasol i bobl ifanc o ogledd Cymru sydd wedi'u

[9] Mae rhyddhau ar drwydded dros dro yn golygu gallu gadael y carchar am gyfnod byr o amser gyda chaniatâd y llywodraethwr.

carcharu mewn sefydliadau yn Lloegr, mae'r gostyngiad yn nifer safleoedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru yn golygu bod y broblem hon bellach yn effeithio ar bobl ifanc sydd wedi'u carcharu yn ne Cymru (Hampson, 2016). Mae yna ail broblem sy'n effeithio gan fwyaf ar y sawl o ogledd Cymru mewn sefydliadau yn Lloegr yn ymwneud ag iaith. Mae Tabl 2.5 yn dangos, mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol, bod cyfran helaeth o'r boblogaeth yn siarad Cymru iaith gyntaf (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 2015), er roedd carchariad yn Lloegr yn golygu bod mwyafrif y cyfathrebu yn ymwneud â'u hanghenion cefnogaeth yn cael ei wneud yn Saesneg (Jones, 2018; Hampson, 2016).

**Tabl 2.5: Yr iaith a siaradir adref amlaf, yn ôl awdurdod lleol**

| | **Cymraeg trwy'r amser/bron trwy'r amser** | **Cymraeg yn bennaf** | **Defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg tua'r un faint** | **Saesneg yn bennaf** | **Saesneg trwy'r amser/bron trwy'r amser** |
|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % |
| Ynys Môn | 45 | 6 | 11 | 15 | 22 |
| Gwynedd | 56 | 7 | 8 | 13 | 16 |
| Conwy | 28 | 5 | 9 | 24 | 35 |
| Sir Ddinbych | 15 | 4 | 10 | 24 | 47 |
| Sir y Fflint | 6 | - | 7 | 25 | 60 |
| Wrecsam | 4 | - | 8 | 30 | 56 |
| Powys | 13 | 6 | 12 | 23 | 45 |
| Ceredigion | 37 | 6 | 14 | 19 | 24 |
| Sir Benfro | 18 | - | 11 | 22 | 47 |
| Sir Gâr | 29 | 10 | 17 | 22 | 22 |
| Abertawe | - | - | 16 | 25 | 51 |
| Castell Nedd Port Talbot | 9 | - | 17 | 32 | 38 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | - | - | 8 | 36 | 52 |
| Bro Morgannwg | 9 | - | 8 | 25 | 53 |
| Caerdydd | 12 | 4 | 8 | 29 | 48 |
| Rhondda Cynon Taf | - | - | 9 | 45 | 43 |
| Merthyr Tudful | - | - | - | 33 | 59 |
| Caerffili | - | - | 10 | 24 | 63 |
| Blaenau Gwent | - | - | - | 36 | 58 |
| Torfaen | - | - | - | 37 | 57 |
| Sir Fynwy | - | - | - | 28 | 69 |
| Casnewydd | - | - | - | 25 | 65 |

Maint y sampl: 7,100
Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith, 2013-15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 2015)
Nodwch: Holwyd y cwestiwn hwn i bob oedolyn a phlentyn.

Mae rhwystrau iaith o'r fath yn gallu cynyddu teimladau o unigedd a gall olygu bod manylion pwysig yn ymwneud ag anghenion cefnogaeth person ifanc yn cael eu colli (Jones, 2018; Hampson, 2016). Mae'r dystiolaeth hon yn dynodi angen i fod yn sensitif at ddaearyddiaeth Cymru ac yn gofyn am ddealltwriaeth o'r awdurdodau lleol mae pobl ifanc yn symud iddynt wedi eu rhyddhau. Fodd bynnag, nid yw'r data hwn ar gael yn gyhoeddus, er mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn adrodd ar y YOT roedd person ifanc yn gysylltiedig ag ef pan gafodd ei rybuddio neu ei dedfrydu. Mae Tabl 2.6 yn dynodi nifer y dedfrydau o garchar a roddwyd i'r sawl 10-17 mlwydd oed yn 2017-2018 lle mae YOT yng Nghymru sy'n rheoli eu hachosion. Rhaid rhybuddio am ddau beth: (1) ni fydd y sawl gyda dedfrydau o garchar o reidrwydd yn cael eu hailsefydlu yn yr un ardal YOT roeddent yn gysylltiedig ag ef yn wreiddiol; (2) yn Nhabl 2.6, nifer y dedfrydau o garchar yw'r rhif yn y golofn dde, nid nifer y bobl; mae'n bosib bod un person wedi derbyn mwy nag un ddedfryd o garchar.

**Tabl 2.6: Nifer y dedfrydau o garchar a dderbyniwyd yn 2017-2018 gan y sawl 10-17 mlwydd oed gan YOT yng Nghymru**

| Enw'r YOT | Nifer y dedfrydau o garchar |
|---|---:|
| Blaenau Gwent a Chaerffili | 1 |
| Caerdydd | 13 |
| Sir Gâr | 2 |
| Ceredigion | 0 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 7 |
| Cwm Taf | 11 |
| Sir y Fflint | 3 |
| Gwynedd a Môn | 0 |
| Sir Fynwy a Thorfaen | 4 |
| Casnewydd | 9 |
| Sir Benfro | 1 |
| Powys | 1 |
| Bro Morgannwg | 4 |
| Bae'r Gorllewin | 9 |
| Wrecsam | 13 |

Ffynhonnell: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2019c)

Mae ailsefydlu llwyddiannus ar ôl rhyddhau'n heriol, ond yn hanfodol er mwyn lleihau aildroseddu (Maguire a Nolan, 2007), a dyma oedd un o flaenoriaethau Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a YOTs yng Nghymru. Mae Hampson (2016) yn amlinellu'r saith 'llwybr at ailsefydlu' a nodwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sy'n llunio ffocws y YOTs wrth weithio i leihau aildroseddu. Mae'r llwybrau hyn yn ymdrin â'r canlynol: llety; addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; camddefnyddio sylweddau; iechyd; teuluoedd; cyllid, budd-daliadau a dyled; a rheoli achosion a thrawsnewidiadau. Mae sicrhau bod pobl ifanc yn gadael y ddalfa ac yn symud i mewn i lety diogel a sefydlog nid yn unig yn hanfodol o ran mynd i'r afael â digartrefedd, mae hefyd yn hanfodol o ran ailsefydlu a lleihau aildroseddu. Yr hyn sy'n gweithio o ran ailsefydlu yw ffocws yr adran nesaf.

## 2.8 Ymchwil Ryngwladol ar Gefnogaeth Ailsefydlu

Gan ystyried bregusrwydd pobl ifanc sy'n derbyn dedfrydau o garchar, mae ailsefydlu ac ailintegreiddiad yn y gymuned ar ôl bod yn y ddalfa yn holl bwysig er mwyn lleddfu risgiau a lleihau aildroseddu (Bateman et al, 2013). Mae adran hon y bennod yn darparu adolygiad cryno o ymchwil ryngwladol ar gefnogaeth ailsefydlu effeithiol ac yn tynnu sylw at arferion arloesol ym maes ailsefydlu ieuenctid.

### 2.8.1 Diffinio a gwerthuso cefnogaeth ailsefydlu

'Ailsefydlu' yw 'integreiddiad effeithiol troseddwyr a garcharwyd yn ôl yn y gymuned y tu hwnt i gyfnod unrhyw drwydded y gallant fod yn destun iddo' (Arolygiaeth Carchardai  Ei Mawrhydi, 2001, tud.3). Mae'r term hwn wedi disodli'r termau a ddefnyddiwyd yn flaenorol, sef 'ôl-ofal' a 'gofal drwy'r broses', ond mae'n dal i gael ei feirniadu gan ei bod yn awgrymu bod yr unigolion 'wedi setlo' ac 'wedi integreiddio' yn eu cymunedau cyn mynd i'r carchar, sydd ddim o reidrwydd yn wir (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, 2001). Mae'r feirniadaeth hon yn arbennig o berthnasol i bobl ifanc sy'n troseddu/aildroseddu, oherwydd bod eu cefndiroedd anodd yn ymdebygu ac yn gorgyffwrdd gyda phobl ifanc sydd wedi bod yn ddigartref (Burke, 2016). Caiff y berthynas rhwng cael cefndir cymhleth, derbyn dedfryd o garchar a'r risg uchel o aildroseddu ymysg pobl ifanc gan Johns et al (2017, tud.3): "Mae mwyafrif helaeth y bobl ifanc sy'n gallu cael eu dargyfeirio o droseddu pellach yn cael eu dargyfeirio, ac mae'r grŵp sy'n cael eu 'gadael ar ôl' yn cynnwys y sawl gyda'r anghenion mwyaf cymhleth, gan ddangos yr ymddygiadau mwyaf heriol".

O ran beth sy'n gwneud ailsefydlu'n effeithiol, mae mwyafrif yr ymchwil yn mesur aildroseddu. Fodd bynnag, mae sylwebwyr wedi awgrymu mwy a mwy y gallai ffocysu ar aildroseddu fel un canlyniad fod yn anaddas. Mae llawer o dystiolaeth o'r feirniadaeth bod aildroseddu, neu gyfraddau aildroseddu profedig, yn fesuriad rhy syml o ddiffinio llwyddiant (gweler Pierpoint, 2017: Copas a Marshall, 1998). Yn gryno, mae ail-gollfarn yn fesuriad o'r broses o unigolyn yn cael ei (ail)ganfod a'i (ail)farnu yn euog o drosedd o fewn cyfnod penodol o amser. Wrth gwrs, gallai tanamcangyfrif aildroseddu trwy, er enghraifft, peidio â chipio troseddau heb eu cofnodi neu ffocysu ar gyfnod byr o amser. Fodd bynnag, y pryderon yma yw, yn gyntaf, bod cyfraddau ail-gollfarnau'n adlewyrchu'r arfer o dargedu'r 'bobl ddrwgdybiedig arferol' sy'n nodweddiadol oherwydd eu hanallu, sy'n cyflawni troseddau lefel isel/llai difrifol yn gyffredinol (gweler Clarke, 2014). Yr ail bryder yw ei bod ddim yn adlewyrchu taith hir dymor, igam ogam o bosib, ymatal. Yn drydydd, nid yw cyfrannau aildroseddu'n cofnodi llwyddiannau neu gynnydd mwy tymor byr (megis mewn llety neu gyflogaeth), a allai fod yn bwysig iawn o ran gweithio tuag at leihau aildroseddu neu leihau amlder neu ddifrifoldeb ymddygiad troseddol o leiaf.

Adlewyrchodd Beyond Youth Custody, adroddiad diwedd tymor a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, ar y gwersi a ddysgwyd o 16 prosiect gyda phobl ifanc a ariannwyd am 5 mlynedd. Mae'r adroddiad yn rhybuddio yn erbyn un ffocws ar aildroseddu ac yn hyrwyddo dealltwriaeth fwy hir dymor o ailsefydlu fel proses sy'n hyrwyddo ymatal, llesiant a chynhwysiant cymunedol. Mae cydnabyddiaeth hefyd, ar hyn o bryd, bod diffyg tystiolaeth gadarn i lunio casgliadau cadarn ar effaith gwahanol elfennau ailsefydlu, gan gynnwys rhaglenni llety, ar aildroseddu (Malloch et al, 2013). Ar ben hynny, nid yw'r llenyddiaeth yn aml yn gwahaniaethu rhwng oedolion a phobl ifanc na chwaith grwpiau bregus eraill. Wedi dweud hynny, mae gweddill yr adran hon yn crynhoi canlyniadau adolygiad o'r llenyddiaeth ryngwladol ar elfennau ailsefydlu llwyddiannus ac yn trafod y ffactorau y credir, yn gyffredinol, sy'n cynyddu llwyddiant cefnogaeth ailsefydlu.

### 2.8.2 Dilyniant cyswllt

Mae ymchwil wedi dangos pwysigrwydd 'dilyniant' rhwng gwaith yn y ddalfa ac ar ôl rhyddhau, gan gynnwys ymdrechion gan staff neu fentoriaid proffesiynol i ddatblygu perthnasoedd gyda charcharorion a fydd yn parhau 'trwy'r gât' (Maguire a Raynor,

2017; Hudson et al, 2007; Clancy et al, 2006; Lewis et al, 2003). Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei darparu ar unwaith ar ôl rhyddhau (Bateman et al, 2013). Roedd rhaglen ailsefydlu Pathfinders ar gyfer carcharorion ar ddedfrydau tymor byr, yn y DU, yn esiampl o ymyrraeth lwyddiannus yn seiliedig ar ddilyniant a chefnogaeth trwy'r gât. Daeth y gwerthusiad o'r rhaglen i'r casgliad bod gan y troseddwyr a oedd yn cynnal cyswllt gyda mentor a oedd yn darparu cefnogaeth emosiynol a help gyda phroblemau ymarferol ar ôl eu rhyddhau gyfraddau aildroseddu is a'u bod yn fwy tebygol o fod yn gweithio ar ôl eu rhyddhau na'r sawl nad oedd yn gwneud hynny (Lewis et al, 2007). Ar ben hynny, yn ail gyfnod y gwerthusiad, dywedodd 80 y cant (n=51) o droseddwyr bod y rhaglen wedi eu helpu i reoli eu problem camddefnyddio sylweddau i ryw raddau (Raynor, 2004).

### 2.8.3 Cefnogi'r trosglwyddiad

Mae trosglwyddo o'r ddalfa yn ôl i'r gymuned yn gallu arwain at bobl ifanc yn teimlo wedi'u llethu, yn bryderus ac ar eu pennau eu hunain (Hampson, 2016; Visher, 2007), oherwydd bod rhaid iddynt addasu i awyrgylch llai disgybledig, ail-greu perthnasoedd ac adeiladu eu bywydau blaenorol (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2006). Felly, nid yw'n syndod bod ymchwil wedi canfod yn gyson bod aildroseddu, neu doriad, yn fwy tebygol yn y cyfnod yn syth ar ôl rhyddhau (Hazel et al, 2010a; Hazel et al, 2002; Hagell et al, 2000). Am y rheswm hwn, mae wedi cael ei awgrymu y dylid paratoi cynllun ailsefydlu a chreu perthnasoedd gyda darparwyr gwasanaeth cyn rhyddhau gan esbonio'r rhain yn glir i'r person ifanc, ac y dylid rhoi'r cynllun ar waith cyn gynted â bod y person ifanc yn dychwelyd i'r gymuned (Hazel, 2004).

### 2.8.4 Ymgysylltiad a chydweithio gyda defnyddwyr

Mae cysondeb cyswllt hefyd yn gallu helpu adeiladu ymddiriedaeth rhwng defnyddwyr a darparwyr. Fodd bynnag, gall fod yn ddefnyddiol gwahanu swyddogaethau monitro a chefnogi gofal trwy'r broses, oherwydd bod monitro'n gallu lleihau didwylledd rhwng defnyddwyr a darparwyr gwasanaeth (Malloch et al, 2013). Mae Mason a Prior (2008) yn dadlau bod llunio perthnasoedd llwyddiannus yn gofyn bod ymarferwyr yn gallu: dangos empathi; dangos parch; dangos ymrwymiad at gyfiawnder cymdeithasol sy'n cydnabod y caledi cymdeithasol a materol y gallai'r person ifanc fod wedi'i dioddef; hyrwyddo cyfrifoldebau unigol dros weithrediadau ac ymddygiad; a chynnwys y person ifanc wrth gynllunio at y dyfodol.

Dylai defnyddwyr weld datblygu cynllun fel tasg ar y cyd a chyfle i roi mewnbwn ar y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a'r canlyniadau maen nhw'n anelu atynt (Malloch et al, 2013; Hart a Thompson, 2009). Ar ben hynny, mae troseddwyr sy'n cynnal mwy o gyswllt gyda staff cefnogi yn fwy tebygol o gael cyfraddau aildroseddu is (Clancy et al., 2006). Awgrymwyd y byddai un elfen bosib o weithio'n llwyddiannus gyda phobl ifanc sy'n gadael y ddalfa yn cynnwys rhoi hawliau tebyg iddynt i'r rhai a roddir i'r sawl sy'n gadael gofal (Hollingsworth, 2012).

### 2.8.5 Cydnabyddiaeth gyhoeddus o ymatal

Gallai cydnabod yn gyhoeddus bod troseddwyr wedi ymateb rhag troseddu helpu i leihau'r tebygolrwydd o droseddu yn y dyfodol, ond mae angen mwy o brofion empirig ar hyn (Llywodraeth yr Alban, 2015; Maruna, 2014). Mae yna astudiaethau sydd wedi canfod bod cydnabyddiaeth gyhoeddus o gynnydd pobl ifanc yn gallu eu helpu i ddatblygu hunaniaeth nad sy'n gysylltiedig â throsedd ac arwain at gynnydd mewn hunan-barch (The big step, 2008). Ymhlith yr esiamplau o adnabod marcwyr ymatal mae: selio cofnodion cyfiawnder troseddol yn gynt na'r arfer yng ngyrfa droseddol y troseddwr; adfer hawliau sifil; dyfarnu tystysgrifau; a gwahodd cyn-droseddwyr i roi sgyrsiau i eraill (Calverley a Farrall, 2011). Fodd bynnag, byddai rhaid ystyried yn ofalus addasrwydd defnyddio mentrau o'r fath gyda phobl ifanc, a gellir dadlau y dylid eu hystyried fel arfer unwaith bod y person ifanc wedi cyrraedd 19 mlwydd oed.

### 2.8.6 Rhaglenni cyfannol

Credir bod ailsefydlu'n gweithio orau pan fod yna ffocws ar feddwl ac ysgogi yn ogystal â lles (Raynor, 2004). Mae pwysigrwydd unigol (1) meddwl am ddyfodol yr unigolyn ac ysgogiad a (2) chefnogaeth trwy'r gât wedi cael ei nodi uchod. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth bod rhaglenni ailsefydlu cyfannol, sy'n cyfuno'r materion hyn, yn gallu helpu lleihau aildroseddu (gweler, er enghraifft, Maguire a Raynor 2017).

### 2.8.7 Llety

Er bod dim tystiolaeth o effaith uniongyrchol, yn rhannol oherwydd ei bod yn anodd gwahanu effaith benodol, mae llety'n cael ei ystyried yn elfen bwysig o ailsefydlu ac ymatal (Llywodraeth yr Alban, 2015). Tra bod cael cartref sy'n ddiogel yn bwysig o

ran llesiant (Clapham, 2011), mae'n arbennig o drawiadol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael y ddalfa oherwydd bod llety'n croesi ar draws yr anghenion cefnogaeth ychwanegol a nodwyd yn y saith 'llwybr at ailsefydlu' (Hampson, 2016) a nodwyd yn adran 2.7 uchod. Er enghraifft, mae yna dystiolaeth bod diffyg llety addas yn cyfyngu'n fawr ar gyfleoedd i ymgysylltu'n llawn ag addysg a chyflogaeth (Ofsted, 2010). Yn yr un modd, mae cael mynediad at wasanaethau i helpu gyda dyled, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd yn heriol iawn yn absenoldeb llety sefydlog, yn rhannol oherwydd bod meddygfeydd, banciau a chyflogwyr fel arfer angen cyfeiriad (Bowpitt, 2015;  Baldry et al, 2006; Galea a Vlahov, 2002). Ar ben hynny, oni bai bod pobl yn y carchar yn derbyn cymorth i roi terfyn ar denantiaeth neu forgais cyfredol, mae'n bosib y byddant yn crynhoi ôl-ddyledion sylweddol, gan ychwanegu at y profiadau anodd maen nhw'n debygol o'u hwynebu ar ôl eu rhyddhau (Bowpitt, 2015).

Mae yna ddadl yn y llenyddiaeth am y math mwyaf addas o lety ar gyfer pobl ifanc. Er enghraifft, mae yna dystiolaeth gymysg ar effeithiolrwydd llety hostel o leihau aildroseddu. Mae rhai gwerthusiadau wedi sôn am achosion lle roedd yr hostel yn meithrin datblygu rhwydweithiau rhwng troseddwyr, gan leihau'r tebygolrwydd o ymatal. Felly, mae sylwebwyr yn Ewrop a Gogledd America wedi dadlau ei bod yn well ail-letya troseddwyr mewn llety prif ffrwd gyda diogelwch daliadaeth, yn hytrach na mewn llety hostel (Lutze et al, 2014). Codwyd pryderon tebyg pan fod pobl ifanc ddigartref yn cael eu rhoi mewn llety dros dro a rennir  (Quilgars et al, 2008; Humphreys et al, 2007). Bu ymchwil a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, 2016, yn seiliedig ar ddata a gasglwyd cyn rhoi'r Llwybr ar waith, ddarganfod bod un person ifanc 16-17 mlwydd oed ym mhob tri yn y sampl yn byw mewn llety anaddas ar ôl eu rhyddhau, gan gynnwys rhai a oedd wedi'u rhoi mewn llety gwely a brecwast ar y cyd ag oedolion anhysbys/peryglus. Roedd hyn nid yn unig yn cynyddu'r risg o aildroseddu, roedd hefyd yn cynyddu bregusrwydd pobl ifanc gydag anghenion cymhleth. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod rhaid rhoi pobl ifanc 16-17 mlwydd oed mewn llety diogel ar ôl eu rhyddhau a bod rhaid cychwyn asesu anghenion llety a chefnogaeth ar ôl cael dedfryd; Mewn egwyddor, dylai'r Llwybr sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu bodloni. Nid yw o'r farn bod llety gwely a brecwast yn addas ar gyfer plant/pobl ifanc oni bai mai dyna'r unig ddewis (Llywodraeth Cymru, 2015a; 2016).

Yn absenoldeb dewis arall, mae'n bosib y byddai pobl ifanc yn gadael y ddalfa ac yn dychwelyd i'r cartref teuluol heb sicrwydd mai dyna'r awyrgylch gorau iddyn nhw (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, 2011). Gan ystyried bod trosglwyddo o'r ddalfa yn ôl i mewn o'r gymuned yn gallu arwain at deimlo wedi'ch llethu, yn bryderus ac yn unig (Hampson, 2016; Visher, 2007), os daw hyn gyda'r posibilrwydd o ddigartrefedd neu lety anaddas, o ganlyniad felly, mae'r risg o aildroseddu'n uchel:

'Mae'r cyfnod o drosglwyddo o'r ddalfa i'r gymuned yn darparu ffenestr o gyfle pan mae pobl ifanc yn awyddus i newid, er bod hyn yn cael ei rwystro gan ddiffyg cefnogaeth ddigonol, berthnasol ac amserol, gan arwain at ddadrithiad a dychweliad at droseddu' (Bateman et al, 2013, tud.2).

Felly, mae'n bwysig darparu'r llety mwyaf addas, yn ogystal â sicrhau bod pobl ifanc yn glir ac yn hapus am eu cyrchfan yn y dyfodol. Yn gryno, mae llety wedi cael ei disgrifio fel cynhwysyn 'angenrheidiol ond annigonol' o ran ailsefydliad llwyddiannus (Humphreys a Stirling 2008; Maguire, 2007).

### 2.8.8 Gweithio mewn partneriaeth a chydlynu

Nid yw'n ymddangos bod effaith gweithio mewn partneriaeth a chydlynu wedi cael eu profi'n empirig yn y llenyddiaeth ac, yn wir, byddai'n anodd gwneud hynny. Wedi dweud hynny, gellir dadlau bod hynny'n allweddol o ran sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt tra yn y ddalfa ac wedi'u rhyddhau (Hazel et al, 2010b; Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2006; 2010; Carney a Buttell, 2003). Mae'r ddadl yn seiliedig ar y ffaith y bydd partneriaid unigol yn methu darparu ar gyfer amrediad eang o anghenion pobl ifanc ar eu pennau eu hunain. Gellir dadlau hefyd y dylai partneriaid gynnwys y teulu, cynrychiolwyr i'r gymuned a chyflogwyr o'r ardal lle bydd y person ifanc yn byw er mwyn sicrhau bod yna rwydwaith o gefnogaeth yn parhau unwaith bod cefnogaeth statudol a gwirfoddol wedi cael ei dynnu'n ôl (Bateman et al, 2013). Yn ogystal â chael y partneriaid priodol yn eu lle, mae'r llenyddiaeth hefyd yn trafod eu cydlyniad. Awgryma Bateman et al (2013), yn seiliedig ar y llenyddiaeth, bod model cydlyniad ar ffurf partneriaeth (neu 'broceriaeth') yn effeithiol. Mewn geiriau eraill, dylai pob YOT benodi rheolwr i eirioli dros ailsefydlu ac i weithredu fel cyswllt allweddol ar gyfer partneriaid.

### 2.8.9 Bylchau yn y llenyddiaeth

Tra bod y dystiolaeth yn pwyntio at amrediad o ffactorau sy'n berthnasol i ailsefydlu oedolion, a phobl ifanc yn benodol ar adegau, mae hefyd, fel yr arsylwyd gan Beyond Youth Custody (2017), yn gadael nifer o gwestiynau heb eu hateb. Mae awduron Beyond Youth Custody (2017) yn nodi'r rhain fel problemau:

- trosglwyddo i fod yn oedolyn
- cynnal ymgysylltiad
- cefnogaeth heb risg gynyddol o doriad
- materion amrywiaeth
- gorffen cefnogaeth ailsefydlu
- cynnwys y boblogaeth remand.

### 2.8.10 Arferion da/arloesedd

Mae nifer o gyhoeddiadau'n tynnu sylw at amryw brosiectau fel modelau o arfer da, ond nid yw bob tro'n glir sut cawson nhw eu dewis (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2011; Allender et al, 2005). Mae Beyond Youth Custody (2017) hefyd yn tynnu sylw at yr arloesi canlynol ym maes ailsefydlu ieuenctid:

- ymgorffori gweithwyr ailsefydlu allweddol mewn carchardai
- ymyraethau sy'n para y tu hwnt i gyfnod y drwydded
- cyflogi gweithwyr ailsefydlu fel cydlynwyr partneriaeth yn hytrach na gweithwyr achos
- rhannu gwasanaethau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol
- adolygiadau achosion aml-asiantaeth
- cynlluniau cyflogwyr sy'n cychwyn tra bod y person ifanc yn y ddalfa.

## 2.9 Casgliad

Mae'r Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant a Phobl Ifanc yn yr Ystad Ddiogeledd (Llywodraeth Cymru, 2015a) yn cynrychioli ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghenion tai yn gynnar, gyda'r nod o leihau digartrefedd wedi rhyddhau. Mae'r adolygiad hwn o dystiolaeth wedi amlinellu'r amryw ddeddfwriaeth gyd-gysylltiedig y mae'r Llwybr yn eu hymgorffori, gan ddangos yr amrediad o gyfrifoldebau a roddir ar awdurdodau lleol, YOTs a gwasanaethau plant wrth gefnogi pobl ifanc yn yr ystad ddiogeledd.

Mae'r adolygiad hwn o dystiolaeth hefyd wedi cyflwyno llenyddiaeth yn ymwneud â'r cefndiroedd anodd a'r bregusrwydd cymhleth sy'n nodweddiadol o bobl ifanc ddigartref a throseddwyr ifanc, gan ddadlau bod y problemau hyn yn gorgyffwrdd. Mae lefelau mor uchel o fregusrwydd yn dynodi arwyddocâd ychwanegol sicrhau proses ailsefydlu cyfannol, gyda llety diogel yn ganolog i hyn. Mae yna gorff o dystiolaeth am y pethau sydd eu hangen o ran cefnogaeth ailsefydlu, a adolygwyd yn y bennod hon hefyd, ond mae angen ymchwil fanwl i ddweud wrthynt beth sy'n digwydd ar lawr gwlad mewn gwirionedd a'r elfennau o gyflwyno sydd angen eu gwella - sef ffocws y gwerthusiad hwn. Mae'n hanfodol archwilio sut mae'r Llwybr yn gweithredu yn ymarferol ac a yw'n cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yn yr ystad ddiogeledd.

# 3. Cwestiynau a Methodoleg yr Ymchwil

Mae'r bennod hon yn amlinellu cwestiynau'r ymchwil ac yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd i'w hateb.

## 3.1 Cwestiynau'r Ymchwil

Prif gwestiynau'r ymchwil oedd:

**C1.** Sut mae'r Llwybr (i'r graddau y mae'n berthnasol i bobl ifanc yn yr achos hwn) wedi cael ei roi ar waith gan y canlynol:

- awdurdodau lleol (digartrefedd a gwasanaethau plant)
- YOTs
- sefydliadau diogel
- budd-ddeiliaid perthnasol eraill (gan gynnwys o'r trydydd sector).

**C2.** Beth oedd effeithiau cychwynnol y newidiadau hyn ar y canlynol:

- awdurdodau lleol (digartrefedd a gwasanaethau plant)
- YOTs
- sefydliadau diogel
- budd-ddeiliaid perthnasol eraill (gan gynnwys o'r trydydd sector).

**C3.** Pa effeithiau cychwynnol sydd wedi bod ar bobl ifanc sy'n gadael yr ystad ddiogeledd?

Yn ei hanfod, mae'r prosiect yn ymwneud â phennu:

- sut mae awdurdodau lleol, YOTs, sefydliadau diogel a budd-ddeiliaid eraill wedi mynd ati i roi'r prosesau a amlinellir yn y Llwybr ar waith a pha heriau maen nhw wedi'u hwynebu (gan gynnwys i ba raddau mae'r asiantaethau uchod yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth 'gyfannol' neu 'gydlynol' i unigolion)
- sut mae hyn yn wahanol i drefniadau blaenorol a pha effaith mae wedi'i chael ar fudd-ddeiliaid
- profiadau pobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r prosesau newydd
- effeithiau canfyddedig ar lety pobl ifanc, aildroseddu ag agweddau eraill ar eu bywydau, gan gynnwys addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- esiamplau o arferion da ac ardaloedd o welliant.

Er mwyn ateb y cwestiynau hyn, fe ddefnyddiom y dulliau canlynol:

- cyfweliadau rhannol-strwythuredig gyda budd-ddeiliaid cenedlaethol a lleol (n=65)
- arolwg ar-lein o fudd-ddeiliaid (n=41)
- cyfweliadau rhannol-strwythuredig gyda phobl ifanc (n=8)
- astudiaethau achos dau berson ifanc gan gynnwys cyfweld â chwe budd-ddeiliad a oedd yn berthnasol i'w achos
- grŵp ffocws gyda budd-ddeiliaid hŷn (n=9).

Bydd yr adrannau canlynol yn esbonio'r dulliau hyn mewn mwy o fanylder. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng Awst 2018 ac Ebrill 2019. Cymeradwyodd y Pwyllgor Ymchwil Cenedlaethol a Phwyllgor Moeseg y Cyfadrannau Prifysgol De Cymru y prosiect ymchwil cyn i'r gwaith maes gychwyn.

## 3.2 Cyfweliadau â Budd-ddeiliaid Cenedlaethol a Lleol

Gofynnom i fudd-ddeiliaid am gyfweliad wyneb-yn-wyneb. Fodd bynnag, roedd yn well gan rai cyfranogwyr gael eu cyfweld dros y ffôn, ac fe gytunom i hynny er mwyn cynyddu nifer yr ymatebion ac i optimeiddio'r defnydd o adnoddau'r ymchwil. Gofynnom hefyd i fudd-ddeiliaid gael eu cyfweld yn unigol, er gofynnodd rhai sefydliadau gael dau gyfweledig yn bresennol ym mhob cyfweliad, gan esbonio y dylai hyn arwain at atebion llawnach, yn hytrach nag i wirio'r atebion a roddir gan staff iau.

Bu bob cyfweliad bara tua 45 munud. Gyda chaniatâd y budd-ddeiliad, cafodd y cyfweliadau eu recordio ar ffurf sain a'u trawsgrifio. Datblygwyd llawlyfr codio i ddadansoddi'r trawsgrifiadau.

### 3.2.1 Dethol a recriwtio

Roedd manyleb yr ymchwil yn rhestru amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid unigol a sefydliadol fel darpar gyfweledigon. Fe ymgynghorom â Llywodraeth Cymru i adnabod y cyfweledigon mwyaf addas ym mhob sefydliad, gyda'r nod cyffredinol o ddewis uwch reolwyr gyda lefel uchel o wybodaeth, profiad a/neu bwerau gwneud penderfyniadau yn y maes.  Dangosir y sampl derfynol yn Nhabl 3.1.

**Tabl 3.1: Y sampl ar gyfer cyfweliadau â budd-ddeiliaid cenedlaethol**

| Y sawl y cyfwelwyd â hwy | Sampl darged yn y cais | Sampl derfynol |
|---|---|---|
| Swyddogion polisi Llywodraeth Cymru | 2 | 1 |
| Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru[10] | 2 | |
| G4S[10] | 2 | |
| Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru | 3 | 3 |
| Gwasanaeth y Ddalfa Ieuenctid | 3 | 2 |
| Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi | | 1 |
| Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi | | 1 |
| Cwmni Adsefydlu Cymunedol | | 1 |
| Rhwydwaith Digartrefedd a Chefnogi Pobl | | 1 |
| Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan | | 1 |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | | 1 |
| Budd-ddeiliaid strategol y trydydd sector | 10 | 7 |
| Cyfanswm y sawl y cyfwelwyd â hwy yn genedlaethol | 22 | 19 |

Yn achos y cyfweliadau â budd-ddeiliad lleol, dewisom bum YOT ar bwrpasol (ynghyd â'r pum awdurdod lleol cyfatebol lle mae'r YOTs wedi'u lleoli). Gwnaethpwyd y dewisiadau yn seiliedig ar amrediad o nodweddion, gan gynnwys:

- lleoliad mewn amrywiaeth o ranbarthau,
  ardaloedd sy'n drefol neu wledig gan fwyaf,
- ardaloedd gyda niferoedd uchel neu isel o bobl ifanc sy'n gwneud dedfrydau o garchar,
- ardaloedd gyda phobl ifanc sy'n gwneud dedfrydau o garchar yn YOI Parc, YOI Werrington a STC Hillside ac
- ardaloedd gyda niferoedd uchel neu isel o bobl ifanc mewn llety anaddas ar ôl eu rhyddhau/ar ddiwedd eu dedfryd (dyma oedd yr agosaf roeddem yn gallu cyrraedd o ran cadarnhau digartrefedd neu mewn perygl o ddigartrefedd wedi eu rhyddhau).

Dewiswyd YOI Parc a SCH Hillside gan Lywodraeth Cymru oherwydd mai dyma'r unig ddau sefydliad diogel yng Nghymru. Dewiswyd YOI Werrington (yn Stoke-on-Trent) hefyd gan Lywodraeth Cymru oherwydd, ar ôl YOI Parc, dyma le mae'r nifer uchaf o bobl ifanc yn y ddalfa gyda YOT yn seiliedig yng Nghymru, fel y dangosir yn

[10] Cyfwelwyd ag uwch reolwyr o YOI Parc a Werrington a SCH Hillside fel rhan o'r cyfweliadau â budd-ddeiliad lleol.

Nhabl 2.4 yn y bennod flaenorol. Wedi ystyried yr amrediad o nodweddion uchod, dewiswyd yr ardaloedd hyn:

1. YOT Caerdydd/Cyngor Caerdydd
2. YOT Cwm Taf / Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
3. YOT Conwy Sir Ddinbych/Cyngor Sir Ddinbych
4. YOT Bae'r Gorllewin/Cyngor Abertawe
5. YOT Casnewydd/Cyngor Dinas Casnewydd

Ym mhob un o'r ardaloedd hyn, fe geisiom gyfweld â saith person:

1. Rheolwr neu reolwr gweithredol y YOT
2. Gweithiwr achos y YOT
3. Pennaeth opsiynau tai'r awdurdod lleol
4. Swyddog opsiynau tai'r awdurdod lleol
5. Pennaeth gwasanaethau plant yr awdurdod lleol
6. Aelod o staff gwasanaethau plant yr awdurdod lleol
7. Cynrychiolydd o'r trydydd sector

Yn achos y categori olaf, fe ofynnom i'r awdurdod lleol adnabod y sefydliad mwyaf addas yn y trydydd sector i ofyn iddynt. Roedd hyn yn cynnwys ystyried pa sefydliad oedd yn gwneud mwyafrif y gwaith gyda throseddwyr ifanc â phroblemau tai. E-bostiwyd cais am gyfweliad at fudd-ddeiliaid ynghyd â thaflen wybodaeth.

Er mwyn cadw anhysbysrwydd y budd-ddeiliaid cenedlaethol wrth eu dyfynnu yn yr adroddiad hwn, defnyddir rhifau i gyfeirio at ddyfyniadau, megis NS1 (Budd-ddeiliad Cenedlaethol 1) hyd at NS19 (Budd-ddeiliad Cenedlaethol 19). Roedd y nifer uchel o fudd-ddeiliaid lleol yn golygu ein bod yn gallu darparu manylion pellach wrth gyfeirio at y dyfyniadau i ddynodi eu proffesiwn tra hefyd yn cynnal anhysbysrwydd. Felly, defnyddir y dynodwyr canlynol ar gyfer budd-ddeiliaid lleol:

- LSH: Budd-ddeiliaid lleol o adrannau tai awdurdodau lleol (n=9)
- LSCS: Budd-ddeiliaid lleol o wasanaethau plant (n=11)
- LSYOT: Budd-ddeiliaid lleol o'r YOTs (n=9)
- LSSE: Budd-ddeiliaid lleol o'r ystad ddiogeledd (n=8)
- LSTS: Budd-ddeiliaid lleol o fudiadau trydydd sector (n=6).

### 3.2.2 Amserlen y cyfweliadau

Roedd y cyfweliadau'n rhannol-strwythuredig. Roedd y pynciau a drafodwyd yn dod yn bennaf o fanyleb yr ymchwil, yr adolygiad o dystiolaeth a meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Roedd amserlen y cyfweliadau'n cynnwys adrannau craidd, lle gofynnwyd y cwestiynau i bob person y cyfwelwyd â hwy, yn ogystal ag adrannau ychwanegol a oedd yn amrywio gan ddibynnu ar sector/rôl y person a oedd yn gwneud y cyfweliad. Un o'r nodau allweddol oedd ennill dealltwriaeth o brofiadau ac asesiadau'r sawl yr oeddem yn cyfweld â hwy o effaith gyffredinol y newidiadau deddfwriaethol, ar eu sefydliad eu hunain ac ar y canlyniadau i bobl ifanc, er mwyn ennill dealltwriaeth fanwl o'r heriau maen nhw wedi'u hwynebu a sut aethon nhw ati i'w goresgyn. Gellir dod o i amserlen y cyfweliadau yn

## 3.3 Cyfweliadau â Phobl Ifanc

Mae cael barn pobl ifanc yn allweddol o ran deall y gefnogaeth a ddarparwyd ynghyd ag addasrwydd a chynaladwyedd y llety a drefnwyd yn sgil hyn. Ni chynigom astudiaeth ail-droseddu gan fod Justice Data Lab yn gofyn bod rhaid cael sampl gydag o leiaf 60 person i wneud hynny. Cyfwelwyd wyneb-yn-wyneb â mwyafrif y bobl ifanc er mwyn caniatáu i'r tîm ymchwil ennill dealltwriaeth fanwl o effaith ymarferol y newidiadau deddfwriaethol ar y sawl sydd angen cefnogaeth gyda thai. Cyfwelwyd â dau dros y ffôn. Gyda'r cyfweliadau wyneb-yn-wyneb, aeth ymchwilydd cymheiriaid gydag ymchwilydd proffesiynol o Shelter Cymru, fel y trafodir yn adran 3.3.1.

Cytunom hefyd gyda'r sefydliadau diogel y byddai aelod o staff yn eistedd y tu allan i'r ystafell gyfweld neu rywle agos wrth law rhag ofn bod problemau'n codi neu os oedd y person ifanc eisiau cefnogaeth gan rywun roedden nhw'n ei adnabod. Cynhaliwyd y cyfweliad yn y gymuned mewn llety lleol â chymorth. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi defnyddio cymhelliannau ariannol i annog presenoldeb mewn cyfweliadau.

Bu'r cyfweliadau bara tua 45 munud a chawsant eu recordio ar ffurf sain a'u trawsgrifio gyda chaniatâd y cyfweledigon. Rhoddwyd ffugenwau i'r bobl ifanc yn y trawsgrifiadau ac yn yr adroddiad hwn ac fe ddilëwyd y recordiadau unwaith iddynt gael eu trawsgrifio, er mwyn amddiffyn eu hunaniaeth.

### 3.3.1 Defnyddio ymchwilwyr cymheiriaid

Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn gan ymchwilydd proffesiynol o Shelter Cymru ac ymchwilydd cymheiriaid (person gyda phrofiad personol o ddigartrefedd, heb gofnod troseddol). Mae cynnwys ymchwilwyr cymheiriaid nid yn unig yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd darpar gyfranogwyr yn cytuno i gael eu cyfweld ond mae hefyd yn grymuso'r ymchwilwyr cymheiriaid trwy roi cyfle iddynt leisio eu barn ac i gefnogi eraill gyda phrofiadau tebyg. Gellir dadlau bod yr ymagwedd hefyd yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn pŵer rhwng yr ymchwilydd a'r cyfranogwr sydd, yn ei dro, yn gallu lleihau bias a gwella ansawdd y data a gesglir. Mae hwn yn arbennig o berthnasol wrth gyfweld â phobl sy'n fregus ac a allai fod wedi cael profiadau negyddol gyda phobl neu sefydliadau sydd mewn sefyllfa ganfyddedig o awdurdod. Mae cymheiriaid yn gallu defnyddio'u profiadau ac arbenigedd, sydd wedi cael eu hysbysu gan y profiadau bywyd hyn, i wella prosiectau ymchwil ac i wella ansawdd y data (Aldridge 2012). Roedd yr holl bobl ifanc yn yr astudiaeth hon yn hapus i'r ymchwilydd cymheiriaid fod yn bresennol.

### 3.3.2 Dethol, recriwtio a chydsyniad ar sail penderfyniad cytbwys

Mae'r Llwybr yn darparu cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion tai ar bedwar pwynt allweddol: (a) cyn y ddalfa, (b) derbyn, (c) ailsefydlu a (ch) rhyddhau. Felly, fe geisiom gyfweld â phobl ifanc yn y ddalfa er mwyn cael eu barn ar adegau cefnogaeth cynharach y Llwybr, ac yna ar ôl eu rhyddhau.

Roedd gofyn arnom i gyfweld â phobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed[11], a oedd: (1) yn y ddalfa ac yn cael eu diffinio fel rhai â phroblem llety yn y cyfnod cyn eu rhyddhau; neu (2) a oedd o fewn deufis o gael eu rhyddhau o STC Hillside, YOI Parc neu YOI Werrington[12] ac a oedd yn ailsefydlu mewn ardal a oedd dan oruchwyliaeth YOT yng Nghymru (gan gynnwys pobl a oedd yn byw rhywle arall yn flaenorol, ond a oedd yn bwriadu symud i Gymru). Roedd 32 person ifanc yn gysylltiedig â YOT yng Nghymru yn y ddalfa yn 2018 (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2019a). Roeddem yn ymwybodol bod gan nifer fechan o'r bobl ifanc hyn broblemau tai ac, o bosib, y

[11] Mae'n bosib bod y samplau'n cynnwys rhai dros 18 a oedd dal dan ofal gwasanaethau plant (fel arfer mewn achosion lle maen nhw'n cyrraedd 18 heb lawer o amser yn weddill ar eu dedfryd neu drwydded, er mwyn osgoi tarfu ar eu cefnogaeth trwy eu trosglwyddo i wasanaethau oedolion am gyfnod byr).

[12] Er bod Werrington yn Lloegr, mae'n delio gyda mwyafrif y troseddwyr ifanc o Ogledd Cymru.

byddai nifer hyd yn oed yn is yn cytuno i gyfweliad a/neu yn mynychu'r cyfweliad. Yn sgil hyn, yn hytrach na chreu 'samplau' ymhlith pobl ifanc berthnasol, ein nod oedd cyfweld â phawb a oedd ar gael a oedd yn bodloni'r meini prawf ac a oedd yn fodlon cymryd rhan (gan stopio os i ni gyrraedd y targedau o 10 yn y ddalfa a 10 yn y gymuned).

Fodd bynnag, oherwydd y nifer isel o bobl ifanc gymwys a nodwyd yn ystod cyfnod y prosiect, fe ehangom y meini prawf i gynnwys pobl ifanc a oedd wedi cael unrhyw brofiad o'r Llwybr ac a oedd wedi setlo mewn ardal a oedd yn cwympo o dan YOT yng Nghymru, h.y. nid oedd rhaid iddynt fod wedi cael eu rhyddhau o STC Hillside, YOI Parc neu YOI Werrington. Felly, y meini prawf terfynol i fod yn gymwys oedd pobl ifanc:

a. 16 neu 17 mlwydd oed, neu 18 os oeddent dal dan ofal gwasanaethau plant [13]
b. sydd naill ai:
   (i) yn y ddalfa neu'n cael eu diffinio fel rhai â phroblem llety yn y cyfnod cyn eu rhyddhau[14], neu
   (ii) wedi cael eu rhyddhau ers mis Rhagfyr 2015 (dyddiad lansio'r Llwybr)
c. sy'n ailsefydlu mewn ardal sy'n cwympo o dan YOT yng Nghymru (gan gynnwys pobl sydd wedi byw rhywle arall yn flaenorol, ond sy'n bwriadu symud i Gymru), ac ch. o fewn y cyfnod casglu data 1 Gorffennaf i 31 Rhagfyr 2018.

Tra bod y pump YOT wedi cytuno i gymryd rhan, dywedodd pedwar na fod ganddynt unrhyw bobl ifanc ar eu llwyth achosion a oedd yn bodloni'r meini prawf estynedig. Felly, cysylltwyd â phob YOT arall yng Nghymru i ofyn a oeddent yn gweithio gydag unrhyw bobl ifanc gymwys. Fe drefnom gyfweliad gydag un person ifanc yn ardal YOT Gwynedd ac Ynys Môn ond ni fynychodd yr unigolyn y cyfweliad. Ni dderbyniom ymatebion o'r YOTs eraill. Felly, er gwaethaf ymdrech sylweddol, roeddem yn gallu cyfweld ag un person ifanc y tu allan i'r ddalfa yn unig (gweler Tabl 3.2). Felly, i ategu'r cyfweliadau â phobl ifanc, mabwysiadwyd

---

[13] Fel arfer mewn achosion lle maen nhw'n cyrraedd 18 gyda dim llawer o amser yn weddill ar eu dedfryd neu drwydded, er mwyn osgoi tarfu ar eu cefnogaeth trwy eu trosglwyddo i wasanaethau oedolion am gyfnod byr.

[14] Rhoddwyd dehongliad eang i'r cyfnod cyn eu rhyddhau, i gynnwys yr holl rai a oedd wedi cael problem llety unrhyw bryd ers eu dedfrydu. Mae hwn yn addas o ystyried bod y Llwybr yn cynnwys cyfnodau cyn y ddalfa a derbyn. Mae'n bosib bod y broblem tai wedi cael ei datrys ar ôl hynny.

ymagwedd astudiaeth achos mewn perthynas â dau berson ifanc, fel y disgrifir isod yn adran 3.4.

**Tabl 3.2: Sampl o gyfweliad ar gyfer y cyfweliadau â phobl ifanc**

| | **Canllaw ar faint samplau ar gyfer y cyfweliadau**[15] | **Cyfweliadau a gwblhawyd** | **Nifer y bobl ifanc y cyfwelwyd â hwy**[16] | **Heb fynychu / tynnu allan / colli cyswllt â'r person ifanc** |
|---|---|---|---|---|
| Hillside STC | | 1 | 1 | 2 |
| Parc YOI | | 7 | 5 | 2 |
| Werrington YOI | | 1 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm yn y ddalfa** | **10** | **9** | **7** | **4** |
| YOT Caerdydd | | Ddim yn gweithio gydag unrhyw bobl ifanc sy'n cyd-fynd â'n meini prawf estynedig ar hyn o bryd. Anfonwyd llythyr at 6 pherson ifanc maen nhw wedi gweithio gyda hwy yn y gorffennol. Ni dderbyniwyd ymateb. | | |
| YOT Cwm Taf | | Ddim yn gweithio gydag unrhyw bobl ifanc sy'n cyd-fynd â'n meini prawf estynedig ar hyn o bryd | | |
| YOT Conwy Sir Ddinbych | | Ddim yn gweithio gydag unrhyw bobl ifanc sy'n cyd-fynd â'n meini prawf estynedig ar hyn o bryd | | |
| YOT Gwynedd ac Ynys Môn | | 0 | 0 | 1 |
| YOT Bae'r Gorllewin | | 1 | 1 | 0 |
| YOT Casnewydd | | Ddim yn gweithio gydag unrhyw bobl ifanc sy'n cyd-fynd â'n meini prawf estynedig ar hyn o bryd. | | |
| **Cyfanswm yn y gymuned** | **10** | **1** | **1** | **1** |
| **CYFANSWM NIFER Y BOBL IFANC** | **20** | **10** | **8** | **5** |

[15] Yn hytrach na chreu 'samplau' ymhlith pobl ifanc berthnasol, ein nod oedd cyfweld â phawb sy'n bodloni'r meini prawf ac sy'n fodlon cymryd rhan.

[16] Mae rhai pobl ifanc wedi cael eu cyfweld ddwywaith, naill ai i gael mwy o fanylion neu yn y ddalfa ac yna yn y gymuned.

Ceisiwyd caniatâd rhieni. Roedd rhai o'r bobl ifanc yn derbyn gofal. Yn bwysicach, er bod y farn yn amrywio, mae consensws yn dod i'r amlwg am yr angen i adael i bobl ifanc siarad drostynt eu hunain, yn amodol ar ddiogeliadau priodol (Williams, 2006). Mabwysiadodd yr ymchwil ymagwedd gadarnhaol o edrych ar bobl ifanc, wedi'i seilio ar alluogi a hyrwyddo awtonomiaeth a gweithrediad pobl ifanc (Pickles, 2019). Felly, trafodwyd taflen wybodaeth ddwyieithog, a luniwyd yn ofalus, gyda'r bobl ifanc gan eu gweithiwr allweddol cyn y cyfweliad ac eto gan y cyfwelydd ar gychwyn y cyfweliad. Cymeradwywyd yr ymagwedd hon gan Bwyllgor Moeseg y Cyfadrannau Prifysgol De Cymru.

### 3.3.3 Amserlen y cyfweliadau

Yn yr un modd â'r cyfweliadau â'r budd-ddeiliad, roedd amserlen y cyfweliadau ar gyfer pobl ifanc yn rhannol-strwythuredig, gyda phwyslais ar ennill dealltwriaeth fanwl o gystal mae'r ddeddfwriaeth newydd wedi gweithio iddyn nhw. Roedd nifer o'r cwestiynau'n ymwneud â phynciau tebyg i'r sawl a drafodwyd gyda budd-ddeiliaid, er yn naturiol, roedd llawer mwy o ffocws ar eu profiadau blaenorol yn hytrach nag ar faterion gweithredol neu strategol. Holwyd iddynt hefyd am effaith ehangach unrhyw wasanaethau roeddent wedi eu derbyn (neu heb eu derbyn) ar eu bywydau.

Datblygwyd y cwestiynau mewn ymgynghoriad â'n hymchwilwyr cymheiriaid, a gynghorodd ar y dulliau gorau o ymgysylltu â'r cyfweledigion a'u hannog i siarad yn agored ac yn faith am eu hanghenion a'u profiadau. Ymhlith y pynciau roedd:

- pa gymorth cawsoch chi, os o gwbl, tra yn y ddalfa er mwyn eich atal rhag dod yn ddigartref?
- a gymeroch chi ran mewn unrhyw gyfryngu i atal hyn? Beth oedd y canlyniad?
- ar ba adeg oeddech chi'n gwybod ble byddech chi'n byw ar ôl cael eich rhyddhau? Faint o ddweud cawsoch chi yn y penderfyniad hwn?
- Beth oeddech chi'n meddwl o'r lleoliad cyntaf cawsoch chi ar ôl gadael y ddalfa? (Os ydynt yn dweud ei bod yn anaddas) pa effaith cafodd hwn ar eich bywyd?
- (ar gyfer y sawl sy'n trosglwyddo i wasanaethau oedolion) sut mae hwn wedi mynd? Pa effaith mae wedi cael arnoch chi?
- beth allai unrhyw un fod wedi gwneud i fodloni eich anghenion yn well?

Gellir gweld amserlen y cyfweliadau yn Atodiad 2: Offerynnau Ymchwil.

### 3.3.4 Cefnogaeth ar gyfer y sawl a gymerodd ran yn yr ymchwil

Tra'n cyfweld â phobl fregus, yn enwedig pobl ifanc sydd wedi bod ynghlwm â'r system gyfiawnder, mae'n digwydd weithiau bod siarad am eu problemau'n achosi ymateb hynod emosiynol neu ingol gydag angen am gefnogaeth yn sgil hyn. Weithiau maen nhw'n datgelu gwir angen am wasanaethau nad ydynt yn eu derbyn. Ar adegau, hefyd, maen nhw'n datgelu y gallai fod yna ddatgeliad o faterion yn cynnwys risg ddifrifol o niwed iddyn nhw neu eraill. Roedd gennym brotocolau clir yn eu lle ar gyfer y cyfwelwyr ac fe argymhellom weithrediadau'n amrywio o atgyfeirio syml at ffynonellau priodol o gymorth i atgyfeiriad ar unwaith at y YOT neu staff proffesiynol eraill a oedd yn gallu cymryd camau priodol i'w cefnogi a/neu ddelio â'r risgiau mewn modd effeithiol.

## 3.4 Astudiaethau Achos Pobl Ifanc

Er mwyn cael darlun mwy manwl o daith pobl ifanc o'r ddalfa i lety o dan y Llwybr neu fel arall, cwblhawyd astudiaethau achos gyda dau berson ifanc. Ar gyfer un person ifanc y cyfwelwyd yn y ddalfa, cynhaliwyd cyfweliadau gyda'u gweithiwr ailsefydlu a gweithiwr y YOT, ac ar gyfer ail berson y cyfwelwyd yn y gymuned, fe gynhaliom grŵp ffocws gyda phedwar budd-ddeiliaid allweddol yn gweithio gyda'r person ifanc - gweithiwr achos y YOT, gweithiwr cefnogaeth y YOT, cynghorydd personol gwasanaethau cymdeithasol a gweithiwr cymdeithasol. Gellir dod o hyd i'r canllaw ar bynciau yn Atodiad 2: Offerynnau Ymchwil..

## 3.5 Arolwg Ar-lein o Fudd-ddeiliaid

Er mwyn uchafu'r sylw ar y boblogaeth o fudd-ddeiliaid ar draws Cymru ac i roi'r ddealltwriaeth orau bosib i ni o effaith y newidiadau deddfwriaethol, yn ychwanegol at y cyfweliadau unigol mewn pum ardal, fe gynhaliom arolwg ar-lein cenedlaethol o fudd-ddeiliaid. Mae rhai grwpiau o fudd-ddeiliaid yn fwy tebygol o roi adborth ar-lein yn hytrach na wyneb-yn-wyneb (Pierpoint 2005). Yn ychwanegol at yr anhysbysrwydd a ddarperir gan arolwg ar-lein, gall fod yn anodd iawn trefnu cyfweliadau gyda rhai budd-ddeiliaid (e.e. gweithwyr achos) oherwydd natur brysur ac anrhagweladwy eu gwaith. Ar gyfer grwpiau o'r fath, gall fod yn haws iddynt

ddarparu adborth ar-lein ac maen nhw'n aml yn fodlon gwneud hynny ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw.

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ar ôl y cyfweliadau unigol. Felly, tra bod yr holiadur ar-lein yn cynnwys nifer o'r un pynciau â'r cyfweliadau â budd-ddeiliaid, roedd hefyd yn rhoi cyfle i archwilio ac egluro rhai o'r materion a godwyd yn y cyfweliadau ansoddol.

### 3.5.1 Dethol a Recriwtio

Gofynnwyd i'r porthorion yn y sefydliadau/rhwydweithiau canlynol, ar sawl achlysur, i ddosbarthu'r ddolen i'r holiadur i unrhyw un sydd naill ai â rôl strategol neu weithredol, hyd yn oed ar lefel isel, wrth helpu cyn-droseddwyr gydag anghenion tai. Roedd y rhain yn cynnwys sefydliadau/rhwydweithiau ymbarél, ond fe gysylltwyd hefyd â rhai sefydliadau'n uniongyrchol er mwyn ceisio cynyddu'r gyfradd ymateb. Cysylltwyd yn uniongyrchol â phob awdurdod lleol, YOT a sefydliad diogel hefyd.

1. Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan
2. Arolygiaeth Gofal Cymru
3. Cymorth Cymru
4. Hillside STC
5. Parc YOI
6. Werrington YOI
7. Rhwydwaith Digartrefedd a Chefnogi Pobl
8. Llywodraeth Cymru
9. Awdurdodau lleol Cymru
10. YOTs Cymru
11. Rheolwyr YOTs Cymru/Hwb Doeth
12. Tri mudiad o'r trydydd sector

Ymatebodd pob mudiad ymbarél yn nodi eu bod yn cytuno i ddosbarthu'r ddolen, ar fwy nag un achlysur. Golygodd hyn, ynghyd â chysylltu ag awdurdodau lleol, YOTs a rhai sefydliadau trydydd sector, bod gennym gyfanswm o 41 ymateb. Yn amlwg, mae'n anodd amcangyfrif nifer yr ymatebwyr posib fod wedi ymateb i'r arolwg ac, yn sgil hyn, cyfradd ymateb a chynrychioldeb y sampl. Wrth gwrs, ni fydd ymatebion i holiadur ar-lein a ddosberthir yn y modd hwn yn cynrychioli sampl gwbl gynrychiadol

o'r holl fudd-ddeiliaid, ond mae'r canlyniadau'n ddefnyddiol o ran ychwanegu at y darlun cyffredinol a gafwyd o'r cyfweliadau unigol.

### 3.5.2 Holiadur

Roedd yr holiadur yn cynnwys 24 cwestiwn, rhai caeëdig yn bennaf (tua 80 y cant). Roedd yn defnyddio opsiynau cwymprestr, blychau ticio a bariau sgrolio i gwblhau cwestiynau - mae yna dystiolaeth bod pob un o'r rhain yn gwella cyfraddau ymateb (Pierpoint 2005). Gellir dod o hyd i'r holiadur yn Atodiad 2: Offerynnau Ymchwil.

### 3.5.3 Dadansoddi'r data

Cynhyrchwyd ystadegau un newidyn i roi darlun o'r trefniadau cyfredol ynghyd â barn y gymuned o fudd-ddeiliad. Lle dyfynnir sylwadau ansoddol y sawl a ymatebwyd i'r arolwg yn yr adroddiad hwn, defnyddir y dangosyddion canlynol i'w dynodi: OSS1 (Budd-ddeiliad yr Arolwg Ar-lein 1) i OSS41 (Budd-ddeiliad yr Arolwg Ar-lein 41).

## 3.6 Grŵp Ffocws Uwch Fudd-ddeiliaid

Ar ôl cwblhau'r cyfweliadau a'r dadansoddiad cychwynnol, cynhaliwyd grŵp ffocws o naw fudd-ddeiliad o feysydd cyfiawnder ieuenctid, yr ystad ddiogeledd, y trydydd sector a llywodraeth leol. Diben y grŵp ffocws oedd:

- rhoi adborth ar y prif ganfyddiadau ac argymhellion i'r cyfranogwyr a rhoi cyfle iddyn nhw fynd â'r ddysg yn ôl i'w sefydliadau a rhwydweithiau
- egluro pwyntiau lle roedd gwybodaeth anghyson wedi cael ei darparu
- cadarnhau neu godi cwestiynau am ddilysrwydd y canfyddiadau
- archwilio'r hyn y gellir ei gwneud am y canfyddiadau/argymhellion.

Gellir dod o hyd i'r canllaw ar bynciau yn Atodiad 2: Offerynnau Ymchwil. Bu'r grŵp ffocws bara 120 munud a chafodd ei recordio ar ffurf sain a'u trawsgrifio gyda chaniatâd y cyfweledigon. Dadansoddwyd y trawsgrifiad trwy gymharu'r cynnwys yn erbyn canfyddiadau ymchwil cyfredol. Yn yr un modd â'r budd-ddeiliaid cenedlaethol y cyfwelwyd â hwy uchod, defnyddiwyd dynodwyr generig yn unig wrth ddyfynnu'r budd-ddeiliaid hyn yn yr adroddiad hwn gan y byddai'n rhy hawdd eu hadnabod fel arall. Ble fo'n bosib, rhoddwyd rif iddynt (er enghraifft SS1 (Uwch Fudd-ddeiliad) i SS9 (Uwch Fudd-ddeiliad 9)) neu, fel arall, eu nodi fel SS.

# 4. Canfyddiadau

Fe gyflwynir y canfyddiadau o'r cyfweliadau, yr arolwg ar-lein a'r grŵp ffocws o fudd-ddeiliaid, ac o'r cyfweliadau ac astudiaethau achos o bobl ifanc, ochr yn ochr âi gilydd yn y bennod hon. Lle bo'n briodol, maen nhw'n cael eu trafod mewn perthynas â: (1) y materion a godir yn y llenyddiaeth ailsefydlu a gyflwynwyd yn yr adolygiad o dystiolaeth ym Mhennod 2; a (2), canfyddiadau gwerthusiad y Llwybr i oedolion (Madoc-Jones et al, 2018).

Mae'r bennod hon wedi'i threfnu yn ôl y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn yr ymchwil:

- dealltwriaeth o'r Llwybr
- rhoi gwahanol gyfnodau'r Llwybr ar waith a'r heriau a ddaw gyda hyn
- argaeledd llety â chymorth a llety 'addas'
- ymgysylltiad â phobl ifanc
- y berthynas rhwng partneriaid, perchnogaeth y ddyletswydd a strwythurau aml-asiantaeth
- effaith y Llwybr, arferion da a meysydd i'w gwella.

I ddangos bod y dystiolaeth a gyflwynir yn y bennod hon yn gynrychiadol o'r sampl lawn, rydym wedi darparu dynodwr dyfyniad dienw gyda phob dyfyniad/darn o gyfweliad i ddynodi'r unigolyn a ddywedodd y dyfyniad.

## 4.1 Dealltwriaeth o'r Llwybr

Ar wahân i'r sawl a oedd wedi bod yn rhan o'i datblygu, gwybodaeth gyffredinol neu amwys yn unig oedd gan fwyafrif y budd-ddeiliaid cenedlaethol ar gynnwys y Llwybr. Nododd mwyafrif y budd-ddeiliaid bod ganddynt ychydig ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gynwysedig yn y Llwybr, er roedd lefel y ddealltwriaeth yn amrywio gyda rhai'n gallu darparu trosolwg cyffredinol a nifer llai'n disgrifio manylion mwy pendant. Roedd nifer o fudd-ddeiliaid lleol a chenedlaethol lawer mwy cyfarwydd gyda'r Llwybr i oedolion.

### 4.1.1 Ymwybyddiaeth o'r Llwybr

O'r 19 budd-ddeiliad cenedlaethol y cyfwelwyd â hwy, roedd pedwar wedi bod yn rhan uniongyrchol o greu'r Llwybr, felly yn gwybod llawer amdano. Ar wahân i'r rhai a oedd yn rhan o'i greu, dau yn unig oedd â gwybodaeth dda. Bu deg gyfaddef eu bod ddim yn gwybod llawer amdano y tu hwnt i ddealltwriaeth gyffredinol mai'r nod oedd gwella cydlyniad gwasanaethau ailsefydlu tai ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael y ddalfa. Er enghraifft, pan ofynnwyd am eu dealltwriaeth o'r Llwybr, dywedodd un budd-ddeiliad cenedlaethol: 'Dydw i ddim yn gryf ar hwn o gwbl' (NS18). Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod cyfrifoldebau nifer o'r rhai yn y sampl yn ymwneud yn bennaf ag oedolion, ac roedd gan y mwyafrif o'r rhain wybodaeth weddol o'r Llwybr i oedolion. Ar ben hynny, roedd dau o sefydliadau cenedlaethol (Cymru a Lloegr) felly nid oeddent yn honni bod ganddynt wybodaeth o'r polisi Cymreig.

Fel rheol, roedd dealltwriaeth budd-ddeiliaid lleol yn cyd-fynd â'u rôl eu hunain, fodd bynnag, beth oedd hefyd yn amlwg oedd bod gwahanol awdurdodau lleol wedi datblygu eu prosesau eu hunain i ymateb i ddigartrefedd ieuenctid a/neu ailsefydlu a bod y prosesau lleol hyn hefyd yn cael eu cyfeirio atynt fel 'llwybrau'. Felly, mae rhai achosion, pan roedd budd-ddeiliaid yn siarad am 'y Llwybr', nid oeddent yn siarad am y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant a Phobl Ifanc yn yr Ystad Ddiogeledd, ond yn hytrach at y llwybr(au) a oedd wedi cael ei datblygu yn eu hardal nhw. Er enghraifft, disgrifiodd un budd-ddeiliad y 'Llwybr Cadarnhaol i Bobl Ifanc' (LSCS11), tra bod eraill yn disgrifio'r 'Porth i Bobl Ifanc' (e.e. LSTS2). Roedd y sawl a gyfwelwyd o wasanaethau plant yn cyfeirio at eu 'polisïau', 'cynlluniau' neu 'lwybr' eu hunain, gan gyfeirio at y Llwybr Gofal a Chefnogaeth:

> '[...] rydym yn gweithio yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'n nod pennaf yw, bod angen i ni fod yn gweithio gyda pherson ifanc i adnabod beth sy'n gywir iddyn nhw, a dyna sut rydyn ni wedi gweithio erioed. I ryw raddau, mae'n ymwneud â dod â'r ddau beth yma at ei gilydd. Mae yna debygolrwydd amwn i [rhwng y ddau Lwybr], ond dyna ein prif nod.' (LSCS4)

Nododd nifer fechan o fudd-ddeiliaid lleol eu bod heb glywed am y Llwybr tan iddynt gael eu gofyn i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Oherwydd yr ymchwil, aethant ati i

ddarllen am y Llwybr i baratoi, ond roedd rhai ond wedi dysgu am fanylion y Llwybr yn ystod y cyfweliad ei hun. Fodd bynnag, wrth ddysgu am y Llwybr, roedd y budd-ddeiliaid hyn yn adnabod ei bod yn dilyn i raddfa helaeth.

### 4.1.2 Hyrwyddo'r Llwybr

Yn y grŵp ffocws gyda'r uwch fudd-ddeiliaid, roedd rhai'n gallu cofio ychydig hyrwyddiad o'r Llwybr, ond ei bod wedi llunio rhan lai o'r hyrwyddiad o'r Llwybr Gofal a Chefnogaeth. Teimlwyd y gallai hyn esbonio'r ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r Llwybr mewn rhai achosion, ac roedd rhai cyfranogwyr yn cytuno bod yna achos dros ei hyrwyddo ymhellach, er enghraifft, trwy ddosbarthu crynodeb dwy-dudalen trwy strwythurau cenedlaethol (e.e. Rheolwyr YOTs Cymru) a byrddau rheoli, ond hefyd budd-ddeiliaid y rheng flaen. Fel yr esboniodd yn o gyfranogwyr y grŵp ffocws:

> 'Rwy'n credu mai un o'r rhesymau pam fod y lefel o ymwybyddiaeth yn isel yw sut gafodd ei hyrwyddo os hoffwch chi, yn enwedig i'r bobl ar lawr gwlad sydd angen ei gweithredu [...] Felly a gafodd digon ei wneud ar y cychwyn, ac a gafodd hyn ei wneud yn ddigon eang ar y cychwyn, rwy'n credu y gallai hwnnw fod yn fater y gellid ei ystyried neu ailfeddwl amdano' (Grŵp ffocws, SS7).

Bu nifer o fudd-ddeiliaid lleol hefyd argymell bod Llywodraeth Cymru yn codi mwy o ymwybyddiaeth o'r Llwybr yn ogystal ag ymagwedd fwy rhagweithiol gan reolwyr i basio'r wybodaeth yma i lawr i weithwyr ar y rheng flaen.

### 4.1.3 Addaster y Llwybr

Yn ogystal â'r gwaith cyfyngedig ar hyrwyddo'r Llwybr, roedd addaster cyfyngedig y Llwybr hefyd yn esbonio'r diffyg ymwybyddiaeth. Mewn geiriau eraill, ychydig iawn o bobl ifanc sy'n derbyn dedfrydau o garchar sydd angen llety yng Nghymru. Roedd gan fudd-ddeiliaid awdurdodau lleol (tai) a darparwyr llety trydydd sector llai o brofiad (er nid llai o ddealltwriaeth o reidrwydd) o'r Llwybr na budd-ddeiliaid cyfiawnder troseddol a gwasanaethau plant:

> 'Os rwy'n bod yn onest, dydw i ddim yn gwybod pa mor effeithiol yw'r Llwybr o safbwynt troseddu ieuenctid, a pha mor sydyn maen nhw'n rhoi gwybod i ni os

oes yna broblem tai. Yr hyn rwy'n gwybod yw ein bod ddim yn cael llawer o atgyfeiriadau yn y maes hwnnw. Felly, o safbwynt [yr awdurdod lleol], o edrych ar ychydig o'r data, mae'r niferoedd yn isel iawn, iawn o ran derbyn atgyfeiriad tai ar y cyfnod hwnnw. Ond heb ddeall hwnnw, ni allaf roi ateb llawn ar ei effeithiolrwydd.' (LSH3)

Ymddengys gan fwyaf bod diffyg atgyfeiriadau tai'n adlewyrchu'r nifer fechan iawn o bobl ifanc yn y ddalfa, a'r gyfran lai fyth o'r bobl hynny ag angen tai. Ymddengys bod hyn yn rhannol yn sgil y cynnydd mewn ymdrech i ddargyfeirio pobl ifanc o fynd i mewn i'r ddalfa; trafodir hyn ymhellach yn adran 4.2.1. Felly, mae'n debygol y gellid esbonio ychydig o'r diffyg o'r cynefindra â'r Llwybr gyda'r ffaith bod nifer o fudd-ddeiliaid heb gael profiad ymarferol o'r roi ar waith.

Ategwyd hyn gan y budd-ddeiliaid lleol a nododd bod ganddynt fwy o gynefindra â'r Llwybr i oedolion gan fod y boblogaeth o oedolion yn y ddalfa yn uwch ac nid oes gan oedolion yr haen ychwanegol o gefnogaeth gwasanaethau cymdeithasol sydd gan bobl ifanc; felly, mae oedolion yn fwy tebygol o angen atgyfeiriad i'r adran dai. Fel y nodwyd uchod, roedd nifer o'r budd-ddeiliaid cenedlaethol y cyfwelwyd â hwy hefyd yn fwy cyfarwydd gyda'r Llwybr i oedolion, ac roedd nifer o'u hymatebion yn cyfeirio at y Llwybr hwnnw yn hytrach na'r Llwybr i'r sawl dan 18, gyda'r cyfwelwyr yn aml yn gorfod eu llywio yn ôl i'r pwnc.

### 4.1.4 Defnyddioldeb y Llwybr

Gofynnwyd i fudd-ddeiliaid lleol a oeddent yn teimlo bod y Llwybr yn bwysig a/neu'n angenrheidiol, gyda nifer yn cytuno. Y prif resymau a ddarparwyd oedd eu bod yn teimlo bod y Llwybr yn bwysig o ran helpu i fynd i'r afael â digartrefedd ieuenctid ac i greu ymagwedd fwy cydlynol rhwng gwahanol asiantaethau. Bu nifer fechan o fudd-ddeiliaid lleol honni bod dim llawer wedi newid ers i'r Llwybr ddod i rym. Bu ddau ddadlau mai dogfen yn unig oedd y Llwybr a oedd yn esbonio'r hyn a oedd eisoes yn digwydd yn ymarferol, tra bod un arall yn dadlau mai'r brif broblem nad yw'r Llwybr yn methu mynd i'r afael â hi yw diffyg adnoddau gwasanaethau cefnogi a llety: 'Dim llawer [wedi newid] a bod yn onest. Rwy'n credu bod pobl yn gwneud y pethau sydd yn y Llwybr fel y dangosoch chi i mi, beth bynnag, gan mai dyna'r arfer gorau. Mae'n teimlo fel mai'r unig beth mae'r Llwybr yn gwneud yw cofnodi'r pethau mae pobl yn eu gwneud beth bynnag' (LSYOT6); 'Dydw i ddim yn credu, yn syml

oherwydd dydw i ddim yn credu mai mater o bolisi neu weithdrefn neu arweiniad yw hi. Mater o'r adnoddau sydd ar gael yw hi' (LSCS11).

Ar y llaw arall, esboniodd nifer o fudd-ddeiliaid cyfiawnder troseddol bod y Llwybr, a'i deddfwriaeth gorfforedig, yn ddogfen ddefnyddiol oherwydd ei bod yn eu helpu i herio adrannau tai a gweithwyr cymdeithasol a oedd, yn eu barn hwy, ddim yn cydymffurfio â'r ddogfen:

> 'Mae'n rhoi ychydig mwy o hyder iddyn nhw [staff] pan maen nhw'n herio hefyd oherwydd, wrth gwrs, pan maen nhw'n cael...weithiau nid yr unigolion sy'n wrthiannol ond y prosesau eu hun. Felly, pan maen nhw'n [mae adran dai'r awdurdod lleol] dweud sori, does dim byd gennym ni eto, maen nhw'n dyfynnu pethau o hwnnw ac mae'n rhoi ychydig mwy o bŵer iddyn nhw yn y ddadl, na, yn ôl y Llwybr, rhaid i chi chwilio...mae'r rhoi mwy o wthiad cyfreithiol os hoffwch chi.' (LSSE3)

Ymhlith y budd-ddeiliaid cenedlaethol y cyfwelwyd â hwy, roedd yna rywfaint o sinigiaeth am fentrau megis y Llwybr; gyda rhai'n dweud bod geiriau ddigon da i raddau, ond yr hyn sydd ei angen yw cynnydd sylweddol mewn adnoddau ac argaeledd llety â chymorth. Roedd yna bryderon cyffredinol am y gostyngiad mewn adnoddau ac, yn benodol, gwasanaethau llety â chymorth yn cau. Ceir crynodeb o'r safbwyntiau hyn yn y dyfyniadau canlynol:

> 'I fod yn blwmp ac yn blaen, rwy'n credu mai'r peth y byddai'n gwneud gwahaniaeth i ni fyddai cael rhagor o staff [...] Dim strategaethau llwybr, addurniadau neu brosiectau disglair' (NS18); 'Amwn i mai'r pryder yw y gallwch chi [gael] unrhyw lwybr y mynnwch chi, ond yn y pen draw mae'n ymwneud â darpariaeth ac os oes diffyg gwlâu, gallwch chi gael unrhyw lwybr ac unrhyw ddeddfwriaeth y mynnwch chi, ond nid yw'r awdurdodau lleol yn gallu ei darparu' (NS14); 'Yn anffodus, nid yw'r Llwybr yn creu llety' (NS18).

## 4.2 Rhoi'r Llwybr ar Waith

Mae'r Llwybr yn darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc gydag anghenion tai ar bedwar cyfnod allweddol: (a) cyn y ddalfa, (b) derbyn, (c) ailsefydlu a (ch) rhyddhau. Felly, fe geisiom gael eu barn ar sut roddir y Llwybr ar waith yn ystod y cyfnodau

hyn. Wrth reswm, daeth mwyafrif y barnau o fudd-ddeiliaid lleol. Bu bobl ifanc hefyd rannu eu profiadau o'r Llwybr.

### 4.2.1 Cyn y ddalfa

Yn ystod y cyfnod cyn y ddalfa, mae'r YOTs yn cynhyrchu adroddiad cyn-dedfrydu sy'n nodi'r canlynol am y plentyn/person ifanc: sefyllfa byw; angen am lety; anghenion cefnogaeth; ac a ydynt yn derbyn gofal. Roedd mwyafrif y farn a rannwyd gan y budd-ddeiliaid lleol ar y cyfnod cyn y ddalfa yn ymwneud â diben yr adroddiad cyn-dedfrydu a rhannu'r adroddiad.

*Dargyfeiriad*

Nododd budd-ddeiliaid lleol mai un o brif amcanion y cyfnod hwn yw dargyfeirio'r person ifanc rhag derbyn dedfryd o garchar. Esboniodd un budd-ddeiliad YOT bwysigrwydd tai yn y broses hon:

> '[...] gallai cael llety priodol wneud y gwahaniaeth mewn adroddiad cyn-dedfrydu o ran unigolyn yn mynd i'r ddalfa ai peidio [...] yn ddiweddar roedd gennym berson ifanc, roedd ei fam wedi mynd ar wyliau, ac yn credu ei bod wedi ei gadael gyda rhywun a oedd yn mynd i fod yn cymryd ychydig o gyfrifoldeb ac o'r herwydd, roedd mwy neu lai allan ar y stryd yn gwerthu cyffuriau, yn parhau. Pan gafodd ei arestio a bod dim modd dod o hyd i oedolyn cyfrifol priodol, yna yn amlwg, fy nehongliad o pam roddodd y llys ef ar remand oedd am resymau yn ymwneud ag amgylchiadau llesiant yn hytrach na 'mae e'n droseddwr mor gyson, mae'n rhaid i ni ei dynnu allan o'r cylch'. Felly, mae hwnnw'n ddangosydd da o sut, pe byddai'r fam wedi bod adref a'i bod yn lle addas i fod a hyn a'r llall, mae'n bosib iawn y byddai'r penderfyniad hwnnw'n wahanol.' (LSYOT5)

Nododd yr holl fudd-ddeiliaid lleol gydag ychydig wybodaeth o'r cyfnod cyn y ddalfa bod yr angen am lety yn cael ei nodi yn yr adroddiadau cyn-dedfrydu, fel y nodir yn y Llwybr. Yn wir, esboniwyd cyn gynted â bod person ifanc yn dod i sylw YOT, cwblheir asesiad AssetPlus gydag un budd-ddeiliad yn ei disgrifio fel 'asesiad cynhwysfawr o anghenion ymatal person ifanc' (LSYOT6). Yna defnyddir asesiad AssetPlus i hysbysu'r adroddiad cyn-dedfrydu. Yn bwysig, esboniodd y budd-ddeiliaid mai diben yr adroddiad cyn-dedfrydu oedd nid yn unig asesu ymddygiadau troseddol ond hefyd adnabod risgiau i'r person ifanc a darparu darlun cynhwysfawr

o'u hamgylchiadau, gan gynnwys eu sefyllfa llety. Disgrifiodd un budd-ddeiliad yr adroddiad cyn-dedfrydu fel 'map o'r person ifanc' (LSSE1). Yn gyffredinol, ymddengys bod budd-ddeiliaid YOT yn blaenoriaethu dargyfeirio pobl ifanc o'r ddalfa neu, lle nad oedd hyn yn bosib, cynllunio ar gyfer cefnogaeth ôl-ryddhau y person ifanc. Roedd y gwaith hwn yn cychwyn cyn gynted ag y daeth person ifanc i'w sylw:

> 'Rydym yn ymwneud â chyfran go helaeth nawr cyn iddyn nhw hyd yn oed gamu i mewn i'r adeilad oherwydd ein bod yn rhan o'r panel cyfeirio. Popeth yn y panel cyfeirio, baswn yn edrych ar atgyfeiriadau posib a'r peth cyntaf rwy'n edrych am yw'r cynllun ymadael arfaethedig.' (LSSE2)

*Rhannu adroddiadau cyn-dedfrydu*

Yn ôl gwasanaethau plant yn y cyfweliadau â budd-ddeiliad lleol, nid yw'r YOT bob tro'n rhannu'r adroddiadau cyn-dedfrydu â gwasanaethau plant, gyda'r broses o rannu'n cael ei disgrifio fel 'hap a damwain' (LSCS4). Lle roedd gwasanaethau plant wedi gweld gwybodaeth am angen tai, roedd wedi disgrifio amgylchiadau'r person ifanc yn unig heb wneud unrhyw argymhellion o ran pa fath o lety fyddai fwyaf addas. Un esboniad am hyn oedd bod yr amserlen i gwblhau adroddiad cyn-dedfrydu yn weddol fyr (bu un budd-ddeiliad lleol honni bod ganddynt dair wythnos i ysgrifennu'r adroddiad) a allai gyfaddawdu'r wybodaeth a oedd yn gynwysedig.

Esboniad arall yw bod rôl gwasanaethau plant cyn y ddalfa yn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau'r person ifanc. Roedd budd-ddeiliaid lleol yn dadlau, yn y rhan fwyaf o achosion, bod pobl ifanc a oedd yn cael eu cyfeirio at YOT eisoes yn hysbys i wasanaethau plant. Esboniodd un budd-ddeiliad, os oedd person ifanc wedi bod yn Derbyn Gofal cyn cael ei gyfeirio at YOT, yna byddai'r YOT yn anfon yr adroddiad cyn-dedfrydu at y gweithiwr cymdeithasol. Byddent hefyd yn rhan o'r broses os nodwyd bod gan y person ifanc unrhyw anghenion cefnogaeth. Ar gyfer y sawl nad oedd yn hysbys yn flaenorol neu nad oedd ag unrhyw anghenion cefnogaeth amlwg, byddai gwasanaethau plant yn dod yn rhan o'r broses pan roedd person ifanc ar remand neu wedi cael dedfryd o garchar, felly ni fyddent o reidrwydd yn gweld yr adroddiad cyn-dedfrydu.

Pwysig yw nodi, fodd bynnag, bod yr honiadau na fod gwybodaeth tai'n cael ei chynnwys mewn adroddiadau cyn-dedfrydu neu fod dim argymhelliad o'r datrysiad tai mwyaf addas i berson ifanc yn ymddangos i fod yn eithriad yn hytrach na'r drefn arferol. Roedd nifer o fudd-ddeiliaid lleol yn teimlo bod yr adroddiad cyn-dedfrydu yn effeithiol o ran cofnodi angen am lety ac oherwydd bod argymhellion yn cael ei wneud yn yr adroddiad am y datrysiad tai mwyaf addas.

Yn ychwanegol at y YOT yn cwblhau adroddiad cyn-dedfrydu, roedd gwasanaethau plant yn cwblhau 'cynllun gofal a chefnogaeth' ar gyfer pobl ifanc er mwyn adnabod unrhyw anghenion iechyd meddwl neu gefnogaeth. I'r gwrthwyneb i'r honiadau na fod YOTs yn rhannu adroddiadau cyn-dedfrydu bob tro, ymddengys bod yr wybodaeth yn yr adroddiadau hyn yn cael ei hymgorffori gan y gweithiwr cymdeithasol wrth ysgrifennu'r cynllun gofal a chefnogaeth:

> 'Pan rydym yn ysgrifennu ein cynlluniau gofal a chefnogaeth, rydym yn cynnwys barn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Rydym yn cynnwys unrhyw weithrediadau maen nhw'n gyfrifol amdanynt yn y cynllun. Byddem yn cynnwys unrhyw waith uniongyrchol maen nhw'n ei gwblhau yn ymwneud ag ymddygiad troseddol yn y cynllun.' (LSCS9)

Yn yr un modd, byddai'r cynllun gofal a chefnogaeth yn bwydo i mewn i'r adroddiad cyn-dedfrydu. Roedd mwyafrif y budd-ddeiliaid lleol yn cytuno bod anghenion gofal a chefnogaeth yn cael eu hadnabod yn y cyfnod cyn y ddalfa, ynghyd ag anghenion llety. Ar ben hynny, yn y grŵp ffocws o uwch fudd-ddeiliad, roedd nifer o'r cyfranogwyr yn cwestiynu priodoldeb YOTs yn rhannu adroddiad cyn-dedfrydu gan mai dogfen y llysoedd ydyw gyda'r swyddogaeth benodol o gynorthwyo gyda dedfrydu:

> 'Alla'i ofyn pam fod gwasanaethau plant angen adroddiad cyn-dedfrydu? Dogfen i'r llys benderfynu'r canlyniad yw hi. Penderfyniad dedfrydu yw hi. Baswn i'n derbyn gwasanaethau plant os oedd gan y plentyn rhyw fath o hanes gyda'r gwasanaeth, yn enwedig o ran anghenion llety fel plentyn a oedd yn derbyn gofal, gwasanaethau plant byddai un o'r ffynonellau a oedd yn adrodd i mewn i'r adroddiad. Ond y rhannu o'r wybodaeth honno, dydw i ddim yn siŵr am hynny, oherwydd dogfen i'r llys yw hi, nid un i'w dosbarthu'n gyffredinol neu'n ehangach.

Baswn i'n dychmygu yn y broses o gasglu gwybodaeth, yn sicr basech yn cael trafodaeth am y statws llety, a oedd unrhyw anawsterau ac a oeddent yn tynnu sylw at unrhyw anawsterau at y dyfodol os mynnwch.' (Grŵp ffocws, SS7)

Yn olaf, tra mae YOTs a gwasanaethau plant oedd y prif asiantaethau yng nghyfnod cyn y ddalfa y Llwybr, esboniodd un budd-ddeiliad o'r trydydd sector, os oedd person ifanc wedi bod yn ddigartref cyn eu hymgysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, byddai'r asiantaeth trydydd sector honno hefyd yn cefnogi'r person ifanc cyn y ddalfa (a'r tu hwnt):

> '[...] lle roeddem wedi bod yn rhan o'r broses honno, byddai wedi bod gyda phobl ifanc a oedd wedi cael ymglymiad â chyfiawnder troseddol ond hefyd, yn hanesyddol, yn ddiweddar hanesyddol, wedi bod yn ddigartref ac angen cael eu lletya. Felly, bydd y gefnogaeth a ddarperir gennym weithiau'n rhedeg ochr yn ochr â'u hymgysylltiad gyda Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid neu gyda gwasanaethau plant. Baswn i'n dweud bod hwnnw'n gydlynol. Rydym wedi gweld rhai esiamplau da iawn o ymagweddau cydlynol gyda phartneriaethau rhwng tri neu bedwar sefydliad yn ymwneud ag anghenion y person ifanc ac mae hynny'n aml yn cynnwys ymddygiad troseddol.' (LSTS2)

Nododd yr un budd-ddeiliad (ynghyd â rhai eraill) bod yr adroddiad cyn-dedfrydu yn cynnwys manylion am ddichonoldeb a phriodoldeb person ifanc yn dychwelyd i'r cartref teuluol. Dywedon nhw, ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod yn ddigartref cyn y ddalfa, y byddai dychwelyd i'r cartref teuluol yn annhebygol, felly byddent yn gweithio ar y dybiaeth y byddai'r person ifanc yn dychwelyd i lety â chymorth wedi ei ryddhau.

I grynhoi, y brif farn oedd bod yr adroddiadau cyn-dedfrydu yn ddefnyddiol ac yn cael eu rhannu'n briodol. Fodd bynnag, yn ôl gwasanaethau plant, nid yw YOTs yn rhannu adroddiadau cyn-dedfrydu gyda gwasanaethau plant bob tro. Wedi dweud hynny, yn y grŵp ffocws gydag uwch fudd-ddeiliad, roedd nifer o'r cyfranogwyr yn cwestiynu priodoldeb YOTs yn rhannu adroddiadau cyn-dedfrydu gan eu bod yn cynrychioli dogfen y llysoedd gyda'r swyddogaeth benodol o gynorthwyo gyda dedfrydu. Fodd bynnag, gellid tybio y gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwasanaethau plant pan maen nhw'n ond yn dod yn rhan o'r broses pan mae

person ifanc ar remand neu wedi cael dedfryd o garchar ac, felly, heb weld yr adroddiad cyn-dedfrydu o'r blaen.

### 4.2.2 Derbyn

Caiff y cyfnod derbyn ei diffinio fel y deng diwrnod cyntaf yn y ddalfa gan fod y Llwybr yn nodi y dylid cynnal cyfarfod cyd-gynllunio o fewn y deng diwrnod cyntaf rhwng y gweithiwr achos YOT, staff yr ystad ddiogeledd, y person ifanc ac unrhyw fudd-ddeiliad perthnasol arall. Diben y cyfarfod yw adnabod anghenion gofal a chefnogaeth y dylid eu bodloni tra bod y person ifanc yn y ddalfa, ond mae'r Llwybr hefyd yn nodi y dylid trafod llety'r person ifanc ar ôl ei ryddhau. Ar ôl y cyfarfod hwn, bydd gweithiwr achos y YOT yn paratoi cynllun dedfrydu, a dylid adolygu'r cynllun hwn yn fisol tra bod y person ifanc yn y ddalfa. Os derbyniodd y person ifanc ddedfryd o lai na 66 diwrnod, cynhelir y cyfnodau derbyn ac ailsefydlu ochr yn ochr â'i gilydd.

**Tabl 4.1: Yn y mwyafrif o achosion, pryd mae'r cynllunio ar gyfer rhyddhau'n cychwyn?**

| | |
|---|---|
| Adeg dedfrydu | 3 |
| O fewn 10 diwrnod o dderbyn yn y ddalfa | 12 |
| 66 diwrnod cyn rhyddhau | 9 |
| Adeg rhyddhau | 4 |
| Ar ôl rhyddhau | 1 |
| Ddim yn gwybod | 8 |
| Arall | 4 |

Ffynhonnell: Arolwg budd-ddeiliaid, cyfanswm N=41

Roedd yna deimlad cyffredinol bod cynllunio ar gyfer rhyddhau'n cychwyn yn gynnar yn y broses, ymhlith y budd-ddeiliaid y cyfwelwyd â hwy ac yn yr arolwg (fel y dangosir yn Nhabl 4.1), ac roedd yn cael ei ystyried yn holl bwysig o ran sicrhau'r canlyniadau hir dymor gorau posib ar gyfer pobl ifanc ar ôl eu rhyddhau, er roedd dedfrydau byr ac anghenion llety newidiol yn cael eu gweld fel heriau. Fodd bynnag, y prif bryder yw na fod mwyafrif y bobl ifanc yn teimlo'n rhan o'r broses.

*Heriau dedfrydau byr ac anghenion llety newidiol*

Fel y byddech yn ei disgwyl o'r math o waith a wneir yn ystod y cam hwn o'r Llwybr, budd-ddeiliaid lleol y YOT (a oedd yn cynnwys gweithwyr achos a staff yr ystad ddiogeledd) oedd y grŵp â'r mwyaf o wybodaeth a phrofiad am y cam hwn, tra bod gan rai o fudd-ddeiliaid gwasanaethau plant gyfraniadau cyfyngedig i'w gwneud hefyd. Yn unol â'r Llwybr, roedd mwyafrif y budd-ddeiliaid lleol yn cytuno bod anghenion llety'n cael eu trafod yn ystod y cyfarfod derbyn ac yn cael eu cynnwys yn y cynllun dedfrydu a bod y broses hon yn effeithiol.

Er gwaethaf tystiolaeth bod cynllunio am ailsefydlu'n cychwyn cyn gynted â phosib, gan gynnwys trafodaethau yn ystod y cyfnod derbyn, nododd rhai bod dedfrydau byr yn gallu creu problemau gyda hyn:

> 'Eto, byddai hyn yn dibynnu ar hyd y ddedfryd. Felly, os cewch chi Orchymyn Cadw a Hyfforddi chwe mis a'ch bod ond yn mynd i wneud tri [mis], gallai hyn fod yn heriol iawn. Yna, cyn gynted ag y medrwn, byddem yn edrych ar hynny fel canlyniad posib. Mae yna broblem yma. Mae Mam a Dad wedi dweud, "sori, dydyn ni ddim yn eu cymryd nhw yn ôl."' (LSYOT5)

Her ychwanegol oedd y gydnabyddiaeth y gallai anghenion llety person ifanc newid wrth i'r ddedfryd symud yn ei flaen, gan osod cyfyngiadau ar effeithiolrwydd y trafodaethau ar dai yn ystod y cyfnod derbyn.  Trafodwyd y mater hwn fel rheol gan gyfeirio at berson ifanc yn dychwelyd i'r cartref teuluol a bod amgylchiadau neu agweddau'r teulu yn newid. Fodd bynnag, er bod budd-ddeiliaid lleol wedi darparu esiamplau o achosion lle roedd newidiadau wedi digwydd, y gred gyffredinol oedd bod yr achosion hyn yn brin. Byddai mwyafrif y bobl ifanc yn dychwelyd i'r cartref teuluol wedi eu rhyddhau ac roedd yn anarferol i hyn newid wrth i'r ddedfryd symud yn ei flaen.

*Ymgysylltu gyda phobl ifanc yn y cyfnod derbyn*

Roedd rhai pobl ifanc yn gallu cofio cyfarfod gyda'u gweithiwr YOT yn ystod y cyfnod hwn i drafod problemau llety, fel y dangosir gan y darn hwn o gyfweliad gyda pherson ifanc a gyfeirir ato fel Brian (ffugenw):

> ‘Cyfwelydd: Yn ôl i Gaerdydd? Felly, pan gyrhaeddoch chi yn sefydliad Parc, siaradodd unrhyw un gyda chi am le roeddech chi'n byw a'ch sefyllfa o ran tai?

Brian: Ces i gyfarfod gyda fy ngweithiwr YOT.
Cyfwelydd: Siaradon nhw am y mater bryd hynny?
Brian: Do, dwi ddim yn gwybod.
Cyfwelydd: Felly, eich gweithiwr YOT oedd hwnna ac roedd hwnnw wedi i chi ddod yma neu cyn i ddod yma?
Brian: Pan ddes i yma.
Cyfwelydd: Pa fath o gwestiynau ofynnon nhw am eich llety?
Brian: Ble rydw i'n mynd i fyw.
Cyfwelydd: Ofynnon nhw lle roeddech chi eisiau byw?
Brian: Dydw i methu byw gyda fy mam.
Cyfwelydd: Dydych chi methu byw gyda'ch mam?
Brian: Na, oherwydd ei chariad hi.
Cyfwelydd: Felly, beth ddywedoch chi pan roedden nhw'n gofyn y cwestiynau hyn?
Brian: Gallaf fyw gyda fy anti, yn cysgu ar soffas. Dydw i ddim wir eisiau cysgu ar soffas pan rydw i allan. Rydw i eisiau fy ystafell fy hun.'

Ar gyfer dau berson ifanc, dyma oedd yr unig gyfarfod o'r math hwn roedden nhw'n gallu cofio. Dyma ddarn o gyfweliad pellach:

'Cyfwelydd: Gyda phwy ydych chi wedi cwrdd i drafod eich sefyllfa dai yma?
Ian: Ava ac Ed [ffugenwau]
Cyfwelydd: Pwy yw Ed?
Ian: Dydw i ddim yn gwybod ei gyfenw. Mae'n gweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid yma.
Cyfwelydd 1: Sawl cyfarfod a thrafodaeth ydych chi wedi cael am eich llety? Ydych chi wedi cael llawer, neu...
Ian: Jyst un pan i mi gyrraedd,
Cyfwelydd: Pwy siaradodd â chi?
Ian: Fy ngweithiwr YOT.'

Roedd pobl ifanc eraill yn methu cofio unrhyw gyfarfodydd a dywedodd un y byddai'n hoffi cael cyfarfodydd misol:

> 'Cyfwelydd: Felly, dydych chi heb gael unrhyw gyfarfodydd neu drafodaethau am le rydych chi'n mynd i fyw pan fyddwch chi'n cael eich rhyddhau?
> Harry: Na [...] Efallai dylen ni jyst eistedd i lawr gyda mi unwaith y mis a dweud, "ydych chi dal eisiau mynd yn ôl at eich mam, ydych chi eisiau mynd i mewn i hostel, ydych chi eisiau gwneud hyn, ydych chi eisiau gwneud y llall?" Dydyn nhw ddim yn gwneud hynny. Pob cyfarfod rwy'n cael, dydyn nhw ddim yn siarad am le rydw i'n mynd, dydyn nhw ddim yn siarad am sut rydw i'n teimlo. Maen nhw jyst yn siarad am sut rydw i'n gwneud yn y sefydliad, pa gynllun rwy'n ei dilyn, fy nyddiad rhyddhau - pethau normal a bod yn onest.'

Mewn cyferbyniad â hyn, roedd budd-ddeiliaid lleol yn credu bod pobl ifanc yn abl ac yn fodlon trafod cynlluniau llety ac ôl-ryddhau yn ystod y cyfnod derbyn, er roedd yna gydnabyddiaeth bod hyn yn dibynnu ar yr unigolyn. Esboniodd un budd-ddeiliad mai eu hymagwedd at ymgysylltu â pherson ifanc mewn sgwrs yn ystod y cam derbyn oedd gofyn beth sy'n bwysig iddyn nhw.  Dadleuwyd bod yr ymagwedd hon yn effeithiol gan ei fod yn ffocysu ar flaenoriaethau'r person ifanc, ond gallai olygu na fod llety'n cael ei drafod o reidrwydd:

> 'Baswn i byth yn dweud wrthyn nhw "iawn, llety, beth am gychwyn gyda rhif un. Dywedwch chi wrthyf i beth sy'n bwysig i chi oherwydd", fel y dywedais, dyna fel oeddwn i pan roeddwn yn ifancach. Nid oedd y llety yn bwysig. Pe bawn i'n ddigartref ac yn cysgu fan hyn neu fan draw neu le bynnag, doeddwn i ddim wir yn poeni'n fawr. I mi, y flaenoriaeth lawer mwy brys oedd camddefnyddio sylweddau oherwydd mai dyna oedd y peth allweddol, y sbardun a oedd yn fy ngwthio tuag at y llwybr roeddwn i arno. Tan fod hwnnw wedi'i datrys, byddai dim ots pe byddwn i'n cael llety yn yr Hilton, baswn i wedi dwyn holl ddodrefn y gwesty neu rywbeth. Felly, eto, mae'n fater o flaenoriaethu.' (LSYOT5)

Soniodd rhai budd-ddeiliaid mewn sefydliadau diogel am bwysigrwydd datblygu perthynas dda gyda phobl ifanc gan fod hyn yn cael ei weld fel arwydd o gyfathrebu da, rhannu gwybodaeth a bod yn gefnogol. Fodd bynnag, ar adegau, roedd y person ifanc yn rhoi'r argraff ei bod ddim eisiau ymgysylltu a allai greu anhawster wrth roi mesurau tai a chefnogaeth ar waith. Dynododd un budd-ddeiliad y gallai fod yn ddefnyddiol pe byddai'r Llwybr yn darparu ychydig gyfarwyddyd ar y pethau y

gellid eu gwneud yn y sefyllfaoedd hyn. Byddwn yn dychwelyd i'r mater o ymgysylltu â phobl ifanc isod dan adran 4.5.

### 4.2.3 Ailsefydlu

Dyletswydd weddol newydd ar awdurdodau lleol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a.66 yw i gymryd 'camau rhesymol' i atal/lleddfu digartrefedd. Chwe deg chwe diwrnod cyn eu rhyddhau, mae cyfnod ailsefydlu'r bobl ifanc yn cychwyn ac os oes angen am lety yn dal i fodoli, caiff atgyfeiriad ei wneud i'r awdurdod lleol priodol. Os yw'r awdurdod lleol yn derbyn dyletswydd dan y Ddeddf, yna mae dyletswydd ar yr awdurdod i atal neu leddfu digartrefedd y plentyn/person ifanc.

*Carreg filltir 66 diwrnod*

Er bod y cyfnod ailsefydlu'n cychwyn 'yn swyddogol' 66 diwrnod cyn rhyddhau, dynododd nifer o fudd-ddeiliaid lleol bod y cyfnod ailsefydlu yn cychwyn, neu y dylai gychwyn, o'r cyfnod derbyn:

> 'Mae pwyslais ar 66 diwrnod yma. Pan mae person ifanc o fewn 66 diwrnod o'i ryddhau, mae'r cyfnod ailsefydlu'n cychwyn. O fy safbwynt i, dylai'r cyfnod ailsefydlu gychwyn cyn gynted ag iddyn nhw gyrraedd.' (LSYOT2)

Fodd bynnag, roedd nifer o fudd-ddeiliaid lleol yn dadlau ei bod yn afrealistig disgwyl i awdurdodau lleol neu wasanaethau plant sicrhau llety ar gyfer person ifanc cymaint o amser cyn eu rhyddhau er roedd dal yn ddefnyddiol gwybod am angen unigolyn am lety:

> 'Y broblem fwyaf sydd gennyf yw'r 66 diwrnod. Mae'n gwbl afrealistig disgwyl i ni gadw gwely ar agor am 66 diwrnod ar gyfer person ifanc. Ni all ddigwydd, ni all ddigwydd. Bydd llety yn cael ei drefnu ar gyfer person ifanc mewn modd amserol, ond os rwy'n onest, bydd hynny o fewn saith niwrnod. Fe fydd yn digwydd. Beth rwy'n hoffi am y 66 diwrnod yw bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn rhoi gwybod i mi fod gennym berson ifanc a'n bod yn gallu cychwyn edrych ar y sefyllfa. Ond, nid ydym yn gallu sicrhau gwely am 66 diwrnod.' (LSCS6)

Fel y soniwyd, mae'r Llwybr yn nodi, 66 diwrnod cyn rhyddhau, bod gweithiwr achos y YOT yn gwneud atgyfeiriad i adran dai'r awdurdod lleol os yw'r person ifanc dal

angen llety. Ar ben y dystiolaeth gymysg yn ymwneud â gwneud yr atgyfeiriadau hyn, roedd y farn ar eu hamseroldeb hefyd yn gymysg. Nododd gwasanaethau plant a budd-ddeiliaid y YOT bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn brydlon yn unol â'r Llwybr:

> 'Felly, os byddem yn cyrraedd y pwynt hwnnw, yn amlwg baswn i'n cael y sgyrsiau hynny, mae'n bosib y baswn i hyd yn oed yn ymweld â'r teulu hwnnw gyda'r gweithiwr Troseddau Ieuenctid tra bod y person ifanc hwnnw yn [enw'r sefydliad] neu le bynnag. Yna, os oedd yn edrych fel byddai'r person hwnnw'n ddigartref, baswn i'n rhoi gwybod i'r adran dai ac yn gofyn am eu dyddiad rhyddhau.' (LSCS6)

Fodd bynnag, nododd budd-ddeiliaid tai bod yna rai achosion pan maen nhw'n dod i wybod am berson ifanc sy'n wynebu digartrefedd ar y diwrnod rhyddhau. Eto, roedd yna arwydd bod gwasanaethau plant efallai ddim yn ymwneud â pherson ifanc yn y ddalfa er bod gan wasanaethau cymdeithasol ddyletswydd gyfreithiol tuag atynt. Ar ben hynny, roedd yna dystiolaeth bod gweithwyr achos ddim yn gwneud atgyfeiriadau tai ar gyfer pobl ifanc bob tro:

> 'Yr hyn sy'n tueddu i ddigwydd yn [awdurdod lleol] yw, os yw person ifanc yn mynd i mewn i'r ystad ddiogeledd a bod gwasanaethau plant yn gysylltiedig â nhw, felly mae gan wasanaethau plant ddyletswydd tuag atyn nhw, yna byddant yn cael eu hysbysu a byddant yn rhoi gwybod i ni fod y person ifanc yn dod allan. Felly, tîm gweithiwr cymdeithasol gwasanaethau plant bydd yn rhoi gwybod i ni. Os nad oes gan wasanaethau plant ddyletswydd tuag at berson ifanc, ni fyddwn yn gwybod eu bod wedi mynd i mewn a ni fyddwn yn gwybod ar ba ddyddiad byddan nhw'n dod allan, neu os ydynt yn mynd i fod yn ddigartref; nid ydym yn cael yr wybodaeth honno. Felly rwy'n credu y dylai bod hwnnw'n dod o'r tîm rheoli troseddau, ond nid yw hynny'n rhywbeth rydyn ni wedi bod yn cael. Rydym yn cael gwybodaeth bob yn dipyn, ond nid ydym yn cael unrhyw beth cyson, ac nid ydym yn cael digon o wybodaeth.' (LSH1)

Un canfyddiad cyson ar draws yr holl grwpiau o fudd-ddeiliad, ac un a gadarnhawyd yn y grŵp ffocws uwch fudd-ddeiliad, oedd ei bod hi'n anodd cadw ystafell mewn llety â chymorth ar gyfer person ifanc am gyfnod hir o amser. Roedd rhai budd-

ddeiliaid yn honni bod hyn wedi digwydd i bobl ifanc a oedd yn gwneud dedfrydau llawer byrrach, er roedd y cyfnodau amser a nodwyd yn amrywio'n fawr. Dynododd gwasanaethau plant a budd-ddeiliaid y YOT ei bod weithiau'n bosib cadw lleoliad ar agor am gyn hired â chwe mis, tra bod budd-ddeiliaid awdurdodau lleol (tai) a'r trydydd sector yn dynodi bod cadw lle am gyn hired â phedwar wythnos fel arfer ddim yn bosib hyd yn oed. Mae hynny'n golygu efallai na fydd cyfeiriad yn cael ei gadarnhau tan yn agos iawn at y dyddiad rhyddhau. Fel yr esboniodd un budd-ddeiliad yn yr arolwg:

> 'Ni allwn ddweud yn hyderus bod y cynllunio'n cychwyn ar bwynt 66 diwrnod, ond fy argraff yw ei bod yn agosach at y dyddiad rhyddhau. Er bod yna wahaniaeth rhwng cynllunio a chael cadarnhad o gyfeiriad, sy'n aml iawn yn agos iawn at y dyddiad rhyddhau. Dylai'r gwaith papur dedfrydu gynnwys adran ar angen llety er mwyn i gyfarfodydd fynd i'r afael â hyn ac fel bod modd adnabod gweithrediadau a phenderfyniadau a chadw cofnod ohonynt.' (OSS1)

Roedd tystiolaeth gymysg yn ymwneud â chysondeb ac amseroldeb gwneud atgyfeiriadau tai i'r awdurdod lleol; mae hyn yn adlewyrchu'r canfyddiad a wnaed mewn perthynas â'r Llwybr i oedolion (Madoc-Jones et al, 2018) a chaiff ei drafod mewn mwy o fanylder yn adran 4.6.1.

*'Camau rhesymol'*

Pan mae atgyfeiriadau tai yn cael eu gwneud, gall yr awdurdod lleol ystyried amrediad o 'gamau rhesymol' i atal neu leddfu digartrefedd person ifanc ar ôl ei ryddhau. Esboniodd yr holl fudd-ddeiliaid lleol y cyfwelwyd â hwy bod y camau rhesymol yn cael eu teilwra i'r unigolyn a'u hamgylchiadau; yn wir, roedd yna ddadl bod pobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r ystad ddiogeledd yn cael eu trin yn yr un modd, gyda'r person yn ganolog i'r broses, ag unrhyw berson ifanc a oedd angen llety.

Yn ôl y budd-ddeiliaid lleol a chenedlaethol y cyfwelwyd â hwy, cyfryngu a'r defnydd o lety â chymorth oedd y prif 'gamau rhesymol' a ystyriwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer pobl ifanc yn y ddalfa. Y 'camau rhesymol' eraill a soniwyd amdanynt amlaf gan fudd-ddeiliaid cenedlaethol oedd grantiau, benthyciadau, taliadau a warentir ac eiriolaeth. Fodd bynnag, roedd yr atebion i hyn yn eithaf amwys mewn nifer o

achosion. Roedd hefyd rhaid rhoi proc i nifer trwy ofyn a oedd camau penodol yn cael eu cymryd: 'Rwy'n credu bod talu ôl-ddyledion rhent yn bendant yn digwydd [...] help gyda blaendaliadau, rwy'n credu bod hynny'n digwydd' (NS1). Adlewyrchwyd y canfyddiad hwn yng nghanfyddiadau'r arolwg budd-ddeiliad hefyd (gweler Tabl 4.2). Dylid hefyd nodi mai llety gwely a brecwast yw'r ateb a ddewiswyd pumed amlaf pan ofynnwyd yn yr arolwg, er bod y Llwybr yn nodi bod llety gwely a brecwast yn anaddas i blant/pobl ifanc oni bai mai dewis olaf ydyw (Llywodraeth Cymru, 2015a; 2016). Trafodir y pwynt hwn mewn mwy o fanylder yn adran 4.3.2 isod.

**Tabl 4.2: Pa 'gamau rhesymol' / gweithgareddau atal a lleddfu y defnyddir amlaf? Dewiswch hyd at 3 gweithgaredd.**

| | |
|---|---|
| Llety - Llety â chymorth | 29 |
| Llety - Dychwelyd i gartref y teulu | 18 |
| Cyfryngu | 15 |
| Llety - Mynd i mewn i ofal/dychwelyd i ofal | 10 |
| Llety - Gwely a brecwast | 9 |
| Gwybodaeth a chyngor | 9 |
| Cefnogaeth i reoli dyled, ôl-daliadau morgais neu ôl-daliadau rhent | 7 |
| Ddim yn gwybod | 7 |
| Llety - Llety rhent preifat | 5 |
| Eiriolaeth neu gynrychiolaeth arall | 5 |
| Gwarantau i landlordiaid/benthycwyr y bydd y taliadau'n cael eu gwneud | 4 |
| Arall | 2 |
| Taliadau ar ffurf grant neu fenthyciad | 2 |
| Mesurau diogelwch ar gyfer ymgeiswyr sydd mewn perygl o gam-driniaeth, e.e. darparu cynllun lloches neu gymorth i gael mynediad at waharddebau | 1 |
| Cefnogaeth i orffen tenantiaeth os yn briodol | 0 |

Ffynhonnell: Arolwg budd-ddeiliaid, cyfanswm N=41, caniateir nifer o ymatebion

*Cyfryngu*

Fel y soniwyd, cyfryngu a'r defnydd o lety â chymorth oedd y prif 'gamau rhesymol' a ystyriwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer pobl ifanc yn y ddalfa. Dychwelyd i'r

cartref teuluol oedd y sefyllfa fwyaf cyffredin ar gyfer pobl ifanc a dyna oedd yr opsiwn cyntaf a ystyriwyd gan weithiwr achos y YOT a gwasanaethau plant wrth gynllunio am ryddhau. Lle roedd yna berthynas teuluol problemus, roedd cyfryngu weithiau'n cael ei defnyddio yn ystod y cyfnod derbyn ac ailsefydlu gyda'r nod o hwyluso dychweliad llyfn i'r cartref teuluol. Y defnydd o gyfryngu oedd yr esiampl gliriach o arfer ailsefydlu a oedd weithiau'n cychwyn cyn cychwyn y cam ailsefydlu yn ffurfiol (h.y. yn gynharach na 66 diwrnod cyn rhyddhau). Cadarnhawyd hyn gan rai budd-ddeiliaid cenedlaethol:

> '[Wrth edrych ar restr o gamau rhesymol] Yr un a neidiodd allan arnaf yn syth oedd cyfryngu [...] Rwy'n credu bod hon yn sefyllfa ddiofyn i awdurdodau lleol, ar gyfer yr adran dai yn benodol, hyd yn oed os yw'r sefyllfa adref yn anaddas, hyd yn oed os byddai'r person ifanc hwn yn gwneud yn well mewn lleoliad llesiant diogel, byddant yn mynd am gyfryngu yn gyntaf oherwydd os gallant gael mam i gytuno i gymryd y plentyn yn ôl, dyna ddatrys y broblem (N14).

Nododd rhai budd-ddeiliaid mai un o'r rhwystrau at gyfryngu oedd os oedd gan y person ifanc frodyr neu chwiorydd ifancach yn byw yn y cartref teuluol. Yn y sefyllfa hon, rhaid blaenoriaethu diogelwch y plentyn iau, gan olygu os pennwyd bod y person ifanc yn peri risg i'r plant iau, ni fyddent yn cael dychwelyd adref. Yn y modd hwn felly, roedd cyfryngu'n cael ei ystyried i fod yn amherthnasol oherwydd ni fyddai'n cynorthwyo gyda llety'r person ifanc ar ôl ei ryddhau.

Fodd bynnag, roedd tystiolaeth o fudd-ddeiliaid eraill yn dynodi y byddai cyfryngu yn dal yn fath gwerthfawr o ymyrraeth hyd yn oed os mai'r nod oedd mynd i lety arall yn hytrach na dychwelyd i'r cartref teuluol. Cododd y drafodaeth wrth drafod y defnydd o 'gamau rhesymol' gyda budd-ddeiliaid awdurdod lleol (tai). Nododd rhai y gellid defnyddio cyfryngu i atal digartrefedd yn ogystal ag i hwyluso dychweliad i'r cartref teuluol. Ar ben hynny, roedd un budd-ddeiliad yn dadlau bod cyfryngu i wella perthnasoedd teuluol yn bwysig i gefnogi person ifanc i fyw mewn llety amgen (e.e. mewn llety â chymorth neu yn ei fflat ei hun).

Cyfryngu oedd un o'r arferion a ddefnyddiwyd gan YOTs a gwasanaethau plant i ymgysylltu teuluoedd yn yr ailsefydlu. Darparwyd nifer o esiamplau am bwysigrwydd gwahodd rhieni i'r cyfnod derbyn ac i gyfarfodydd dilynol, cyfathrebu'n gyson â

rhieni er mwyn cynnal cyswllt teuluol, cynorthwyo rhieni i deithio i sefydliadau diogel i ymweld â'u plant, gwneud ymweliadau cartref i wirio addasrwydd dychwelyd adref, a gweithio gyda rhieni i'w cefnogi i ymdopi ag ymddygiad anodd eu plentyn. Roedd y gwaith hwn gyda theuluoedd yn parhau ar ôl rhyddhau pan roedd y person ifanc yn ôl yn y gymuned. Mae hyn yn galonogol o ystyried bod y llenyddiaeth ailsefydlu'n dadlau y dylai partneriaid gynnwys y teulu er mwyn sicrhau bod rhwydwaith o gefnogaeth yn parhau wedi i'r gefnogaeth statudol a gwirfoddol gael ei dynnu'n ôl (Bateman et al, 2013). Wedi dweud hynny, ni fyddai pob person ifanc eisiau cymryd rhan mewn sesiynau cyfryngu. Esboniodd un person ifanc y cyfwelwyd ag ef y byddai heb fod eisiau cyfryngu.

> ‘Cyfwelydd: Pan mae rhywun yn eistedd i lawer gyda chi a'ch mam ac rydych chi'n mynd i... bron fel cwnsela mewn ffordd, ac yn ceisio datrys pethau.
> Adam: Na, rydw i'n gwneud hynny oll fy hun.
> Cyfwelydd: Dydych chi ddim eisiau gwneud hynny?
> Adam: Nac ydw.’

*Llety â chymorth*

Ynghyd â chyfryngu, y 'cam rhesymol' arall a ystyriwyd amlaf gan awdurdodau lleol ar gyfer pobl ifanc yn y ddalfa oedd y defnydd o lety â chymorth. Teimlwyd bod y natur o fod dan 18 yn golygu ei bod yn annhebygol bod gan berson ifanc y sgiliau i fyw'n annibynnol, a bod y fregusrwydd ychwanegol o fod yn y ddalfa yn cynyddu'r tebygolrwydd bod gan y bobl ifanc hyn anghenion cymhleth. Felly, yn absenoldeb dychwelyd i'r cartref teuluol neu dderbyn gofal, llety â chymorth oedd yn cael ei ystyried fel y math mwyaf addas o lety. Esboniodd un budd-ddeiliad o awdurdod lleol (tai) os oedd person ifanc yn byw'n annibynnol cyn y ddalfa (a oedd yn annhebygol) ac wedi derbyn dedfryd fer, y byddai awdurdod lleol yn ceisio gweithio gyda'r landlord i gadw'r lle yn y llety ar agor. Esboniodd un arall y gallent ddarparu cymorth ariannol i deulu i gefnogi'r teulu hwnnw i letya person ifanc:

> 'Felly, er enghraifft, rydym wedi cael rhywun a oedd mewn addysg ac roedd yn cael Lwfans Cynhaliaeth Addysg, sef £30 yr wythnos, ond roedd gan ei fam pum plentyn arall ac yn cael trafferthion ariannol felly roedd hi'n cymryd yr arian hwn oddi wrtho. Felly, roedden nhw'n dadlau o hyd. Felly, cyrhaeddodd y pwynt lle dywedodd hi wrtho i adael a daeth atom ni. A wnelo £30 yr wythnos, fe roddom

> £30 i mam a dweud bod angen iddo gadw ei Lwfans gan ei fod yn mynd i'r coleg.' (LSH8)

Y brif her yma yw diffyg argaeledd llety â chymorth, fel yr ystyrir yn adran 4.3 isod.

*Adolygu cynlluniau dedfrydu*

Mae'r Llwybr yn nodi y dylid adolygu cynlluniau dedfrydu unwaith y mis. Roedd mwyafrif y budd-ddeiliaid yn cytuno bod cynlluniau dedfrydu yn cael eu hadolygu. Fodd bynnag, roedd yna dystiolaeth na fod y cyfarfodydd hyn yn digwydd mor aml ag unwaith y mis. Nododd un budd-ddeiliad gwasanaethau plant bod y cyfarfodydd yn digwydd bob chwe wythnos, tra i un budd-ddeiliad ystad ddiogeledd nodi eu bod yn digwydd bob tri mis:

> 'Felly, mae'r safonau cenedlaethol yr ydym yn cydymffurfio â hwy yn dweud bod rhaid cynnal cyfarfodydd cynllunio dedfrydau bob tri mis. Felly, mae'r YOT yn dod i mewn bob tri mis i adolygu'r daith o gynllunio dedfrydau. [...] Os oes rhywun ag anghenion cymhleth iawn sy'n chwarae lan, yn ymladd, yn camymddwyn, ddim yn ymgysylltu mewn addysg, wedi dianc yn flaenorol, yn gwrthod dychwelyd, ni fyddem yn eu cynnal bob tri mis, basem yn eu cynnal llawer mwy rheolaidd oherwydd bod angen i ni fynd i'r afael â sefyllfa'r plentyn hwnnw.' (LSSE3)

Honnodd un budd-ddeiliad ystad ddiogeledd arall bod amlder adolygiadau cynlluniau dedfrydu yn dibynnu ar hyd y ddedfryd; byddai cynlluniau'r sawl ar ddedfrydau hir yn cael eu hadolygu bob tri mis, ond byddai'r sawl ar remand neu ar ddedfrydau byr yn cael eu hadolygu bob mis. Nododd nifer o fudd-ddeiliaid y YOT bod adolygiadau bob tri mis yn cydymffurfio â 'safonau cenedlaethol' y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd dau berson ifanc yn gallu cofio cael cyfarfodydd misol:

> ‘Cyfwelydd: Gyda phwy ydych chi wedi cwrdd i gael y trafodaethau hyn?
> Jamie: Fy ngweithiwr YOT a fy ngweithiwr cymdeithasol.
> Cyfwelydd: Felly, daethon nhw i mewn i siarad â chi am hyn?
> Jamie: Do.
> Cyfwelydd: Sawl cyfarfod neu sgwrs ydych chi'n credu cawsoch chi i gyd?
> Jamie: Un y mis ers i mi fod yma, rydw i wedi bod yma pum mis.
> Cyfwelydd: Sawl cyfarfod a thrafodaeth ydych chi wedi'u cael am eich llety?

Jamie: ... tua unwaith y mis maen nhw'n trafod llety gyda mi.'

### 4.2.4 Rhyddhau

*Terfyn amser saith diwrnod*

Fel y trafodwyd, y prif opsiwn tai a ystyriwyd gan YOTs a gwasanaethau plant tra'n gweithio gyda phobl ifanc yn y ddalfa oedd dychwelyd i'r cartref teuluol; yn yr achosion hynny, nid oedd yr awdurdod lleol (tai) yn gysylltiedig bob tro. Os nad oedd hyn yn bosib, y disgwyliad oedd, oni bai bod person ifanc yn dychwelyd i dderbyn gofal (nid oedd hyn yn gyffredin iawn ymhlith y sawl 16-17 mlwydd oed), mai'r prif opsiwn tai ar gyfer pobl ifanc oedd llety â chymorth. Felly, oni bai y nodir fel arall, lle mae budd-ddeiliaid yn siarad am lety ar ôl rhyddhau, roeddent yn cyfeirio at lety â chymorth.

Mae'r Llwybr yn nodi y dylid trefnu llety ar gyfer person ifanc o leiaf saith diwrnod cyn rhyddhau, sy'n golygu y dylai fod gan y person ifanc o leiaf wythnos o rybudd o le byddant yn byw. Roedd yna ymatebion cymysg o ran a oedd y terfyn amser saith diwrnod yn cael ei fodloni ar bob adeg. Roedd dau brif reswm dros beidio â bodloni'r terfyn amser: (1) bod amgylchiadau teuluol person ifanc yn newid ar y funud olaf (e.e. bod teulu'r person ifanc yn newid ei meddwl am ganiatáu i'r person ifanc ddychwelyd adref); a/neu (2) bod diffyg llety addas â chymorth yn ei gwneud yn anodd dod o hyd i leoliad. Fel y nodwyd eisoes, gwnaethpwyd gwaith sylweddol gyda theuluoedd yn ystod y cyfnod ailsefydlu i sicrhau trosglwyddiad llyfn i mewn i'r cartref teuluol ar ôl rhyddhau ac, felly, esboniodd budd-ddeiliaid bod yr adegau pan roedd teulu'n newid ei meddwl mor agos at ddyddiad rhyddhau yn brin. Fodd bynnag, os oedd problemau llety ar y funud olaf, roedd yn aml yn golygu bod rhaid i fudd-ddeiliaid allweddol fynd ati ar frys i geisio trefnu rhywbeth arall:

'[...] roedd yna berson ifanc a oedd i fod i gael ei ryddhau ar ddydd Gwener ac rwy'n credu bod yna lety posib yn ei le ond roedd yna broblem ar y funud olaf [...] anfonodd un o'r tîm gweinyddol e-bost ataf yn dweud bod yna broblem wedi bod a bod yna bosibilrwydd na fyddai'n cael cyfeiriad rhyddhau tan y diwrnod rhyddhau, nid oedd hyn yn ddigon da oherwydd, i mi, mae hynny'n gythryblus iawn i'r person ifanc. Rydym yn ceisio creu trosglwyddiad llyfn, syml i mewn i'r gymuned, gan gynorthwyo gyda'i ailsefydlu ac yna mae'r holl ansicrwydd o ran lle mae'n mynd i fynd. Felly, rydw i wedi anfon e-bost atyn nhw bore 'ma yn gofyn

> am ymateb ac yn gofyn i'r mater gael ei uwchgyfeirio ac yn nodi fy mod eisiau gwybod, ac fe nodais hyn yn gryf iawn, cyn y dyddiad rhyddhau yn hytrach na darganfod ar y diwrnod.' (LSSE4)

Eto, roedd y diffyg llety â chymorth yn broblem roedd pob budd-ddeiliaid yn ei hadnabod fel rhwystr arwyddocaol at ailsefydlu llwyddiannus:

> 'Pan mae yna broblemau mae'n mynd i'r funud olaf...ac rydym wedi cael cwpl o esiamplau yn [awdurdod lleol] lle mae'n dod i'r eiliad olaf. Rydym wedi cael sefyllfaoedd lle rydym yn clywed dau ddiwrnod cyn eu rhyddhau ac mae hynny oherwydd eu bod wedi methu dod o hyd i le oherwydd bod dim lleoedd ar gael.' (LSYOT6)

Ar ben hynny, esboniodd un budd-ddeiliad lleol o'r ystad ddiogeledd y dylai'r terfyn amser 7 diwrnod fod y 'senario gwaethaf' ac, mewn gwirionedd, dylid trefnu llety ar ôl rhyddhau tua mis cyn rhyddhau er mwyn cael amser i gynnal y gwiriadau angenrheidiol. Yn wir, daeth i'r amlwg bod yna gamgymhariad rhwng yr amserlen a nodir yn y Llwybr â phrosesau cyfiawnder ieuenctid. Er y gellir gwneud atgyfeiriad tai 66 diwrnod cyn rhyddhau, oherwydd yr anawsterau yn cadw ystafell am gyfnod hir o amser, yn aml nid oes modd cadarnhau lle tan wythnos neu ddwy cyn rhyddhau. Mae hyn felly ond yn gadael cyfnod byr iawn o amser i YOTs a gwasanaethau plant wneud atgyfeiriadau i wasanaethau cefnogaeth ehangach a lleoliadau addysg/cyflogaeth ar gyfer y person ifanc. Mae ganddo hefyd oblygiadau ar amodau trwydded person ifanc:

> 'Rwy'n credu i ni, pan i ni wneud yr ymgynghoriad ar y pryd, yn amlwg mae safonau cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer rheoli achos o'r cychwyn i'r diwedd. O fewn y cyfarwyddyd hwn, gallwch gyfeirio achos o angen blaenoriaethol 66 diwrnod cyn rhyddhau, sy'n rhoi cyfnod go dda o amser i chi, ond mae'r awdurdod lleol ond yn gorfod cadarnhau'r llety yn y cyfarfod cynllunio terfynol, a all fod deng i saith diwrnod cyn rhyddhau. O fewn safonau cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, mae yna ragdybiaeth y bydd llety yn cael ei sicrhau gyda phedair wythnos i fynd er mwyn i ni allu gwneud yr holl gynlluniau eraill...er enghraifft, addysg, hyfforddiant, cyfleoedd cyflogaeth, cofrestru gyda meddyg lleol, trefnu mentora, caniatáu i'r YOT fod yn barod ac ar

gael, yr holl fecanwaith cefnogaeth ar gyfer y plentyn. Yn fy marn i, nid yw saith diwrnod yn ddigon hir, oherwydd rydych chi'n siarad am lawer o wahanol asiantaethau'n cael un ymateb ar y cyd yn ymwneud ag un plentyn, dydy saith diwrnod ddim yn ddigon.' (LSSE5)

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i fudd-ddeiliaid yn y cyfweliadau am y prosesau ar gyfer y diwrnod rhyddhau gan ddibynnu a oedd y person ifanc yn dychwelyd i'r cartref teuluol neu a oedden yn cael eu rhyddhau i lety â chymorth, yn derbyn gofal, neu os oeddent yn cael eu rhyddhau gydag unlle i fynd. Roedd pob budd-ddeiliad yn cytuno'n bendant y byddai person ifanc byth yn cael gadael i fynd i gysgu o soffa i soffa neu i gysgu ar y stryd. Roedd gan rai budd-ddeiliaid straeon o berson ifanc yn cael ei ryddhau heb lety. Fodd bynnag, yn hytrach na gadael y person ifanc i ddod o hyd i'w lety ei hun (yn gyfreithiol, nid ydynt yn gallu gwneud hyn), bu'r budd-ddeiliaid ddisgrifio proses o alwadau ffôn a sgyrsiau brys er mwyn dod o hyd i lety brys ar gyfer y person ifanc. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai'r person ifanc yn cael ei gymryd naill ai i'r swyddfa dai neu i swyddfa gwasanaethau plant i aros tra bod y staff yn trefnu llety.

I'r gwrthwyneb, yn yr arolwg budd-ddeiliad, nododd 10 o 40 ymatebwr (data ar goll mewn 1 achos) eu bod yn ymwybodol o achosion pan roedd person ifanc wedi cael ei ryddhau o'r ystad ddiogeledd heb lety. Rhoddwyd dau brif gategori o resymau dros hyn. Roedd y categori cyntaf yn ymwneud â phroblemau cyfathrebu rhwng partneriaid a dim digon o amser a gwybodaeth yn cael eu darparu i ddod o hyd i ddatrysiad, fel y dangosir yn y dyfyniad hwn: 'Cawsant eu rhyddhau o'r ystad ddiogeledd heb rybudd a'u cyflwyno i'r tîm datrysiadau tai ar y diwrnod rhyddhau' (OSS2).

Roedd yr ail gategori o esboniadau a roddwyd yn ymwneud â natur y drosedd, risg ac anghenion y person ifanc dan sylw a oedd yn golygu na fod llety â chymorth a landlordiaid cymdeithasol y gofynnwyd iddynt yn fodlon ei letya (dychwelir at y thema hon yn adran 4.3.4).

## 4.3 Argaeledd Llety 'Addas'

Mae llety'n bwysig ar gyfer ailsefydlu ac ymataliad (Llywodraeth yr Alban, 2015). Gan ystyried bod trosglwyddo o'r ddalfa yn ôl i mewn i'r gymuned yn gallu arwain at

deimlo wedi'ch llethu, yn bryderus ac yn unig (Hampson, 2016; Visher, 2007), os oes posibilrwydd o ddigartrefedd neu lety anaddas yn cyd-fynd â hyn, wrth reswm, mae'r risg o aildroseddu yn uchel (Bateman et al, 2013). Felly, mae'n bwysig bod y llety mwyaf addas yn cael ei darparu yn ogystal â sicrhau bod pobl ifanc yn glir ac yn hapus am eu lleoliad yn y dyfodol. Mae yna ddadl yn y llenyddiaeth am y math mwyaf addas o lety ar gyfer pobl ifanc.

### 4.3.1 Llety 'Addas' a diffyg argaeledd

Yn y prosiect hwn, fel y nodwyd, yn absenoldeb dychwelyd i'r cartref teuluol neu ofal yr awdurdod lleol, roedd llety â chymorth yn cael ei ystyried fel y datrysiad tai mwyaf addas ar gyfer person ifanc a oedd yn gadael yr ystad ddiogeledd. Mae hyn oherwydd bod pobl ifanc yn annhebygol o allu ymdopi gyda byw'n annibynnol a gan fod y sawl yn yr ystad ddiogeledd yn hynod fregus ac ag amrediad o anghenion cymhleth:

> 'Ar y pryd, yr enw amdano oedd cymhlethu'r sefyllfa, oherwydd bod nifer llai yn dod trwy'r system cyfiawnder ieuenctid oherwydd ein strategaethau atal, felly roedd llai o bobl ifanc yn dod trwy'r llys. Yr hyn a oedd, ac sy'n weddill yw carfan o bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth iawn.' (LSYOT2)

Fel yr esboniwyd uchod, roedd diffyg (a gostyngiadau parhaus) llety addas â chymorth, fodd bynnag, yn ganfyddiad roedd pob budd-ddeiliaid yn ei nodi fel rhwystr arwyddocaol at ailsefydlu llwyddiannus. Roedd cyfranogwyr y grŵp ffocws yn cytuno â'r canfyddiad hwn:

> 'Problem arall yw bod rhai pobl yn dweud bod y math cywir o wasanaeth a llety ddim yn bodoli. Oherwydd y ffordd anhrefnus o fyw a'r ymddygiad heriol sydd gan rai pobl, ac sydd gan rai o'r bobl ifanc hyn, does neb sydd wir yn gallu delio â hynny. Mae rhai pobl wedi dweud wrthyf fod y sefyllfa'n rhy anodd.' (Grŵp ffocws, SS9)

Roedd yr her arall yn ymwneud ag addasrwydd llety â chymorth. Bu'r grŵp ffocws hefyd adlewyrchu ar natur llety addas:

'[...] rydym yn edrych ar arferion wedi'u hysbysu gan drawma, mae'n dweud eich bod yn methu gweithio gyda'r person hwnnw a rhoi dwy awr o waith wedi'i hysbysu gan drawma iddynt yr wythnos, mae'n rhaid iddynt fynd i mewn i gyd-destun wedi'i hysbysu gan drawma [...] lle mae pob gweithiwr sy'n eu cefnogi yn ymwybodol o Asesu Cyflawniad ac Effeithiolrwydd ac arferion wedi'u hysbysu gan drawma. Ar adegau, y bobl ifanc hyn yw'r rhai anoddaf i'w rheoli, am amryw resymau, mae angen staff medrus iawn arnoch chi ac mae'n bosib y bydd angen y math cywir o lety arnoch. Nid yw'n ddelfrydol eu rhoi mewn llety gyda llawer o bobl eraill gyda phroblemau tebyg iawn. Mae'n sefyllfa hir dymor, nid yw'n ddatrysiad sydyn [...] rwy'n credu mai dyma'r her fawr mewn gwirionedd. Mae'n golygu cael y stoc, a'i bod ar gael ar y pryd, cael staff cymwys, cael y math cywir o lety yn y lle cywir, oherwydd weithiau mae prosiectau llety y tu allan i'r dref agosaf a dydyn nhw methu dal y bws, dydyn nhw methu [...] Mae cymaint o broblemau yn ymwneud â threfn, cael disgyblaeth, ymrwymiad, bod ofn. Oherwydd, ni fydd unrhyw berson ifanc yn dweud, wyddoch chi beth rydw i ofn, does gen i ddim digon o hyder i wneud hyn. Byddan nhw ddim yn dweud hynny, byddan nhw jyst yn dweud, dydw i ddim yn ff-in gwneud hwnnw neu beth bynnag, oherwydd dydw i ddim eisiau. Ond rydym yn gwybod, y tu ôl i hwnnw, bod ofn mawr arnyn nhw.' (Grŵp ffocws, SS5)

Mae'r cymhlethdodau hyn yn peri heriau sylweddol i ddarparwyr llety ac roedd y mwyafrif o'r farn, er mai grŵp bach yw hwn, bod y bobl ifanc hyn angen cefnogaeth gyffredinol ddwys i gyd-fynd â'u llety, fel y nodwyd gan un budd-ddeiliad:

'Mae ychydig fel dweud, pan eich bod yn gweld rhywun yn cysgu ar y stryd, bod angen tŷ arnyn nhw. Mae mor syml â hynny, mae llawer o gymhlethdodau y mae angen i chi fynd i'r afael â hwy. Rydym yn dod yn ôl at y ffaith bod yn agenda Asesu Cyflawniad ac Effeithiolrwydd, mae yna faterion iechyd meddwl a cham-drin sylweddau weithiau. Mae jyst tybio eu bod yn gallu mynd i mewn i dŷ a thalu hwn, a gwneud y llall a bydd popeth yn [...] dydy hynny ddim yn mynd i ddigwydd.' (LSH3)

Bu'r budd-ddeiliaid hŷn yn y grŵp ffocws hefyd adlewyrchu ar y farn y dylai'r llety efelychu bywyd teuluol:

'Rwy'n credu mai'r llety mwyaf llwyddiannus mwy na thebyg yw llety sy'n ceisio efelychu agweddau ar fywyd teuluol, oherwydd bod pawb eisiau perthyn rhywle [...] yn gallu meddwl am brosiectau llety lle mae 24/7, o leiaf dau aelod o staff ymlaen, rhai yno dros nos, uned fach. Coginio cinio Nadolig gyda'ch gilydd, bwffe ar gyfer y Flwyddyn Newydd, dathliadau dros y Pasg. Unrhyw fath o bethau o ddiddordeb sy'n pontio crefyddau ac rwy'n credu mai dyna'r daith ar gyfer y bobl ifanc i'w paratoi at y dyfodol [...] Os ydyn nhw wedi dod o gefndir anodd iawn am ba bynnag reswm a'u bod yn cael rhyw fath o sefydlogrwydd yno, prosiect llety da iawn lle maen nhw'n gallu dathlu pethau allweddol, eu bod yn helpu i goginio cinio Nadolig efallai neu i wneud crempogau, oherwydd mae'n bosib nad ydynt yn gwybod sut i wneud crempog. Y mathau hyn o bethau, sut i ddefnyddio peiriant golchi... byddan nhw mewn sefyllfa lawer gwell pan fyddant yn mynd ymlaen i gael eu teuluoedd eu hunain oherwydd byddant yn gallu gwneud cyfraniad, ac mae'n rhaid i chi gadw llygad ar y daith hir dymor hefyd. Nid y pethau tymor byr yn unig.' (Grŵp ffocws, SS8)

Cafodd y grŵp ffocws drafferth gyda'r cwestiwn a oedd yn gofyn o le allai'r ariannu ar gyfer lleoliadau pellach ddod. Awgrymodd un:

'Mae naill ai'n ymwneud â chronni cyllidebau neu gymryd cyfan o gyllidebau, neu â gwneud rhywbeth yn wahanol gyda'r ariannu, sef dweud bod gan bawb gyfrifoldeb dros hyn ac felly... Mewn ffordd mae'n teimlo fel eich bod yn creu ffrwd grantiau arall ac nid dyna beth rwy'n ei awgrymu. Ond rhywsut [...] mae fel Tai yn Gyntaf, mae llu o asiantaethau'n gyfrifol am hwn ac felly mae angen i bob un ohonoch roi eich llaw yn eich poced ar gyfer hwn, a gallwn ddefnyddio'r gronfa hon i'w hariannu.' (Grŵp ffocws, SS)

### 4.3.2 Llety gwely a brecwast

Mae ymchwil wedi dangos bod llety pobl ifanc mewn llety gwely a brecwast yn cynyddu'r risg o aildroseddu ac i'r unigolion (Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, 2016). Nid yw'r Llwybr yn ystyried llety gwely a brecwast fel llety addas ar gyfer plant/pobl ifanc oni bai mai dyna'r unig ddewis (Llywodraeth Cymru, 2015a; 2016). Fodd bynnag, roedd dal i gael ei defnyddio ar yr adeg o gasglu data. Dangosir hyn yn y cyfweliadau gyda budd-ddeiliaid a dyna oedd yr ateb a ddewiswyd pumed amlaf pan ofynnwyd i fudd-ddeiliaid yn yr arolwg ar-lein am y camau rhesymol a

ddefnyddiwyd amlaf (fel y dangosir yn Nhabl 4.2 uchod). Ar ben hynny, roedd rhaid budd-ddeiliaid yn amddiffyn addasrwydd llety gwely a brecwast.

Fel y trafodwyd uchod, roedd mwyafrif y budd-ddeiliaid yn cytuno ei bod yn anarferol bod dim llety yn barod ar gyfer person ifanc ar ddiwrnod ei ryddhau a, fel y nodwyd, honnodd bawb y cyfwelwyd â hwy y byddai person ifanc byth yn cael ei adael i gysgu ar y stryd neu i fynd o soffa i soffa. Fodd bynnag, esboniodd budd-ddeiliaid lleol ym mhob awdurdod lleol ond un bod yna bosibilrwydd y byddent yn defnyddio llety gwely a brecwast mewn sefyllfaoedd brys. Roedd yr holl fudd-ddeiliaid lleol yn cydnabod bod llety gwely a brecwast yn anaddas ar gyfer pobl ifanc, ond roeddent yn dadlau os oedd yna ddewis rhwng peidio â darparu llety i berson ifanc ar ddiwrnod ei ryddhau neu lety gwely a brecwast, bod modd cyfiawnhau defnyddio llety gwely a brecwast:

> 'Os oedd yna berson ifanc a oedd yn cael ei ryddhau o'r ddalfa a bod gennym atgyfeiriad tai, a'i bod yn 16/17, roeddem yn gwybod eu bod yn dod allan ar ddiwrnod penodol, basem yn darparu llety iddyn nhw rhywle. Y gobaith yw y byddai hynny'n golygu sicrhau ystafell mewn llety â chymorth ond os doedd dim byd ar gael, byddent yn mynd i lety gwely a brecwast rhywle tan iddynt allu dod o hyd i rywle mewn llety â chymorth.' (LSH6)

Rhoddwyd tri rheswm gan fudd-ddeiliaid o ran pam roedd llety gwely a brecwast yn opsiwn llety anaddas i bobl ifanc: (1) Mae fel arfer yn golygu llety heb gymorth sy'n golygu bod neb yno i fonitro neu gefnogi'r person ifanc yn agos; (2) gall oedolion fod yn byw mewn llety gwely a brecwast a allai dynnu person ifanc yn ôl i ymddygiad troseddol, defnyddio sylweddau neu gynyddu eu bregusrwydd mewn rhyw fodd arall; a (3) nid oedd y budd-ddeiliaid bob tro'n gwybod pwy sy'n byw mewn llety gwely a brecwast sy'n achosi anhawster o ran sicrhau bod person ifanc yn ddiogel:

> 'Amwn i, gyda llety gwely a brecwast er enghraifft, eu bod yn cael eu gadael mewn llety gwely a brecwast ond gyda phob math o droseddwyr eraill, troseddwyr sy'n oedolion neu bwy bynnag, a heb unrhyw gefnogaeth, nid yw'n ffordd ddelfrydol o ailsefydlu'r person ifanc yn y gymuned [...] Dydw i ddim yn credu bod llety gwely a brecwast, jyst cael eu gadael ar eu pennau eu hunain yng nghanol unlle weithiau, nid mewn ardaloedd maen nhw'n gyfarwydd â hwy,

> felly yn aml maen nhw'n creu cysylltiadau gyda'r bobl yn y llety ond nid yw hynny'n rhywbeth positif ar bob adeg, dydw i ddim yn credu.' (LSTS4)

Fodd bynnag, bu bawb nodi, os oedd person ifanc yn cael ei letya mewn llety gwely a brecwast y byddai'n cael ei fonitro mor agos â phosib a byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i'w symud i mewn i lety mwy addas cyn gynted â phosib. Mewn un awdurdod lleol, esboniodd nifer o fudd-ddeiliaid eu bod yn aml yn defnyddio llety gwely a brecwast penodol i letya pobl ifanc oherwydd bod ganddynt berthynas waith gadarnhaol gyda'r perchennog a oedd yn monitro ac yn cefnogi'r bobl ifanc a oedd yn byw yno'n ddiwyd. Mae hyn yn dangos bod yna amrywiaeth yn ffurf y llety gwely a brecwast, gyda rhai'n fwy cefnogol a diogel nag eraill.

Rheswm arall a roddir i gyfiawnhau defnyddio llety gwely a brecwast mewn rhai achosion oedd ei bod yn well na defnyddio llety â chymorth a oedd yn bell i ffwrdd o'u rhwydweithiau cefnogaeth:

> '[...] pan rydyn ni'n dweud bod yna leoliad yn Swydd Amwythig i chi, oherwydd mai dyna'r unig le gwag sydd ar gael, nid yw pobl ifanc eisiau hynny [...] os ydyn ni'n cael ein harwain gan y person ifanc, yna mae'n anodd iawn, oherwydd bod asiantaethau eraill yn dweud wrthym, ei bod yn anaddas, rydych chi wedi trefnu lle mewn llety gwely a brecwast iddyn nhw, bod hynny ddim yn addas. Tra bod hynny ddim yn anaddas, y gwahaniaeth yw, mai dyma beth sydd orau ar gyfer y person gan fod y llety gwely a brecwast i lawr y ffordd ac mae'n haws i'w teulu a ffrindiau ac nid yw'n opsiwn hir dymor, o'i gymharu â ni'n dweud, mae gennym le i chi 100 milltir i ffwrdd.' (LSCS5)

Felly, mae'r defnydd parhaol o lety gwely a brecwast, fel dewis olaf, yn debygol o adlewyrchu'r diffyg llety â chymorth.

Bu nifer o'r uwch fudd-ddeiliad a gymerodd ran yn y grŵp ffocws dynnu sylw hefyd at y gwahaniaeth yn ansawdd y lletyau gwely a brecwast gan nodi bod rhai'n darparu gwell gofal:

> 'Mae un [...] lle mae'r landlordes bron fel rhiant, felly mae gan [awdurdod lleol penodol] un lle maen nhw'n gwybod hynny [...] ac mewn gwirionedd, maen nhw'n

teimlo fel eu bod yn gwneud tro gwael â'r landlordes hon trwy ei defnyddio hi fel llety gwely a brecwast, tra mewn gwirionedd mae ganddi wasanaeth [gyfeillgar] sy'n fwy tebyg i [lety â chymorth]. (Grŵp ffocws, SS6)

'Ydi, oherwydd yr hyn rydych chi'n ei disgrifio mewn gwirionedd yw llety â chymorth lle mae yna berthynas ofalgar gyda'r person sy'n byw ar y safle. Rwyf wedi clywed am ofalwyr maeth sydd wedi dweud wrth bobl ifanc bod rhaid iddynt fod allan o'r tŷ trwy'r dydd tra bo nhw yn y gwaith. Nid maethu yw hynny i mi, ond mae'n digwydd, dydyn nhw ddim eisiau pobl ifanc yn eu tŷ nhw. Os yw'r senario hwnnw a ddisgrifiwyd yn berthnasol i chi, dydw i ddim yn credu y gallai unrhyw un ddadlau gyda hynny, oherwydd mae'n ymwneud â gofal ac ansawdd a pherthnasoedd, ac mae hynny'n wahanol.' (Grŵp ffocws, SS8)

Yn dilyn hyn, cafwyd trafodaeth ar sut gellid defnyddio llety gwely a brecwast o ansawdd uchel fel llety â chymorth: '[...] mae fel, peidiwch â chadw'r brych a lluchio'r babi'n llwyr, er mewn un ystyr mae'n ymwneud â sut rydym yn ymgorffori'r math hwnnw o lety gwely a brecwast yn fwy gyda llety â chymorth?' (Grŵp ffocws, SS6)

Daeth yr uwch fudd-ddeiliaid i'r casgliad bod hwn yn bosib ond yn dasg anodd. Mae angen bod y perchennog yn fodlon cael ei gontractio i ymgymryd â'r tasgau ychwanegol sy'n gysylltiedig â llety â chymorth yn hytrach na'u cwblhau nhw sut maen nhw'n dewis. Er gwaethaf y cyfiawnhad hwn, yn gyffredinol, y consensws oedd y ni ddylid defnyddio llety gwely a brecwast i letya pobl ifanc, ac mae'n cael ei defnyddio'n anaml, ond ar adegau gellir ei gyfiawnhau os mai'r opsiwn arall yw cael unlle i fynd. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol hefyd bod y defnydd o lety gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diweddar.

### 4.3.3 Llety 'anaddas' arall

Yn ychwanegol ar lety gwely a brecwast, bu budd-ddeiliaid esbonio bod yna adegau pan roedd rhaid iddynt ddefnyddio mathau eraill o lety nad oedd, er eu bod yn ddiogel, y math mwyaf addas o ran bodloni anghenion person ifanc. Ymhlith yr esiamplau o hyn oedd llety â chymorth ar gyfer oedolion, llety i deuluoedd neu

leoliadau mewn hosteli mwy (lle mai'r teimlad oedd y byddai llety llai yn fwy addas ar gyfer person ifanc):

> 'Weithiau, mae'n rhaid i ni letya pobl ifanc - os yw'n argyfwng a'n bod wedi methu hwyluso'r sefyllfa - mewn llety i deuluoedd. Ni faswn i'n dweud bod hynny'n anaddas; ni fydden nhw'n cael y gefnogaeth orau yno o reidrwydd; ni fyddai'r gefnogaeth maen nhw'n ei gael wedi cael ei deilwra i bobl ifanc. Fodd bynnag, byddai'n ddiogel, a byddai ganddynt staff yno yn y llety 24 awr y dydd, a bydden nhw yno dros dro tan i lety ddod ar gael yn llwybr y person ifanc.' (LSH1)

Yn olaf, er mai'r brif farn oedd bod y partneriaethau rhwng gwasanaethau plant a'r YOTs yn gadarnhaol, roedd ychydig dystiolaeth o densiwn rhwng yr asiantaethau os oedd gwasanaethau plant wedi trefnu lletya person ifanc mewn llety anaddas. Dywedodd un budd-ddeiliad lleol bod yn rhaid iddynt 'gwyno' a 'gwrthsefyll' yn aml pan roedd gwasanaethau plant yn dyfeisio cynllun a oedd yn cynnwys llety gwely a brecwast, gyda'r budd-ddeiliad yn disgrifio'r sefyllfa fel 'annerbyniol' ac yn derbyn y clod am flocio cynlluniau o'r fath (LSSE3). Cadarnhaodd budd-ddeiliad gwasanaethau plant arall y tensiwn hwn gan nodi ei bod yn teimlo weithiau bod pobl yn edrych ar y sefyllfa mewn modd annheg gan fod y diffyg llety addas yn aml allan o'u rheolaeth:

> '[...] weithiau mae'n teimlo fel bod y YOT yn credu ein bod yn bod yn ataliol neu ddim yn cynllunio weithiau, ond ar adegau mae hynny allan o'n rheolaeth, ac mae hynny'n gyffredinol yn ymwneud â diffyg lleoedd gwag.' (LSCS5)

Mae'r drafodaeth hon ar beth sy'n cyfri fel llety addas yn adlewyrchu'r risg os nad yw'r llety'n cael ei ystyried i fod yn addas gan y person ifanc ei hun y bydd, fel y nodwyd gan uwch fudd-ddeiliad yn y grŵp ffocws, yn 'pleidleisio gyda'i draed'. Mae'n annhebygol y byddai gofyn i berson fyw yn y cyfeiriad yn amod o drwydded, gan fod dedfrydwyr yn ceisio osgoi amodau y gellir eu torri'n hawdd. Gwnaethpwyd y sylw hwn gan ddau ymatebwr i'r arolwg sef, er yn anaml, bod pobl ifanc yn cael eu rhyddhau heb lety, bod mwy o bobl ifanc yn cael eu rhyddhau i lety anaddas ac yn sgil hynny ag unman i fynd: 'Mae wedi digwydd weithiau, fodd bynnag maen nhw'n fwy tebygol o gael eu rhyddhau i lety anaddas, gyda hyn yn mynd yn chwâl yn gyflym ac yna byddant yn mynd o soffa i soffa' (OSS3).

### 4.3.4 Grwpiau difreintiedig o bobl ifanc

Bu'r budd-ddeiliaid lleol adnabod dau grŵp o bobl ifanc sy'n parhau i fod yn benodol o ddifreintiedig yn y system gyfredol: (1) y sawl sydd wedi cael eu gosod mewn sefydliadau yn bell o'u cartrefi; a (2) y sawl sydd wedi'u labeli fel 'risg uchel' oherwydd natur eu trosedd ac anghenion cefnogaeth cymhleth. Mae'r mater cyntaf yn ganlyniad proses strwythurol mwy o leihau nifer y sefydliadau diogel yng Nghymru sy'n golygu bod yna bosibilrwydd y bydd pobl ifanc Cymreig yn cael eu rhoi mewn sefydliadau yn Lloegr. Mae hyn yn effeithio'n anghyfartal ar bobl ifanc o ogledd Cymru gan fod y ddau sefydliad diogel yng Nghymru wedi'u lleoli yn ne Cymru. Golyga hynny bod y sawl o ogledd Cymru'n cael eu lleoli mewn sefydliad diogel naill ai yn Lloegr neu yn ne Cymru. Er bod yr ymagwedd ehangach o ailgyfeirio pobl ifanc o'r ddalfa wedi golygu bod graddfa'r mater hwn wedi lleihau, bu budd-ddeiliaid hefyd nodi nifer o anfanteision ar gyfer pobl ifanc sydd yn y ddalfa yn bell i ffwrdd o'u trefi cartref. Yn eu plith roedd: anhawster yn cynnal cysylltiadau teuluol; anodd i fudd-ddeiliaid ymweld â phobl ifanc yn y ddalfa; rhwystrau iaith a diwylliant; ac asiantaethau cefnogaeth sy'n llai cyfarwydd â gwaith ei gilydd. Roedd y cyswllt teuluol yn arwyddocaol o ystyried mai dychwelyd i'r cartref teuluol ar ôl cael eu rhyddhau oedd yr opsiwn tai mwyaf delfrydol fel rheol:

> 'Nid yw'n broblem ar hyn o bryd. Ond, o ran llety, os ydynt yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir neu le bynnag a bod cyswllt teuluol yn methu digwydd, gallai hynny effeithio ar lety. Felly, rydym bob tro'n dadlau dros gadw pobl ifanc mor agos â phosib, er mwyn cynnal y cyswllt hwnnw.' (LSYOT4)

Roedd yr ail grŵp o bobl ifanc - y sawl a ddisgrifiwyd fel 'risg uchel' - yn cael eu hystyried i fod yn hynod anodd eu lletya. Roedd y budd-ddeiliaid yn cytuno, os oedd person ifanc wedi cyflawni trosedd rywiol neu dân bwriadol, bod eu hopsiynau tai ar ôl eu rhyddhau'n hynod gyfyngedig oherwydd bod mwyafrif y darparwyr llety â chymorth a llety dros dro yn gwrthod eu lletya oherwydd pryderon diogelwch:

> 'Yr adran dai yw hi. Maen nhw'n amharod iawn gweithio gyda phobl sydd o risg uchel. Mae'n rhywbeth sy'n cael ei ystyried ar y foment ond ydy, mae'n drafferthus ceisio cael rhywun i mewn i lety â chymorth os oes ganddynt hanes o droseddu neu os ydyn nhw o risg uchel. Byddai llawer o ddarparwyr yn amharod

gwneud asesiad cyn i'r person gael ei ryddhau oherwydd byddai ganddynt gyfnod gwag tan i'r person hwnnw ddod allan.' (LSH9)

Roedd darparwyr llety'n cael eu disgrifio fel 'gwrth risg' ac er bod nifer o fudd-ddeiliaid yn deall eu hanfodlonrwydd i letya pobl ifanc o risg uchel, roedd hyn yn achosi rhwystredigaeth oherwydd roedd yn eu gadael heb lawer o opsiynau ond gyda dyletswydd barhaus i ddod o hyd i rywle iddynt fyw. Roedd darparwyr llety'n gwneud y penderfyniadau hyn yn seiliedig ar feini prawf cul, megis trosedd unigolyn, yn hytrach nag ystyried y gwelliannau roedd y person ifanc wedi gwneud tra yn y ddalfa, yn creu rhwystredigaeth bellach. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod mwyafrif y darparwyr llety a staff opsiynau tai ddim yn cwrdd â pherson ifanc wyneb-yn-wyneb tra yn y ddalfa ond yn ennill eu gwybodaeth trwy ddarllen amdanynt mewn dogfennau asesu. Roedd rhai'n teimlo y gallai cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb fod yn fwy effeithiol wrth helpu budd-ddeiliaid tai i ennill darlun llawnach o'r person ifanc:

'[...] yn amlwg daw'r plant hyn gyda llawer o hanes, ac weithiau pan rydych yn darllen y wybodaeth ar y plentyn, mae llawer o leoliadau'n amharod i'w cymryd, a dydyn nhw ddim bob tro'n ystyried unrhyw newidiadau maen nhw wedi'u gwneud yn y sefydliad diogel, a dyw'r wybodaeth ddim yn cael ei diweddaru ar bob adeg. Mae'n gallu dod yn rhwystr, felly weithiau, rydych chi'n cael plant yn gadael [y ddalfa] ddim yn gwybod lle maen nhw'n mynd i fod yn byw efallai deuddydd neu dridiau ymlaen llaw.' (LSSE6)

Yn yr achosion hyn, llety annibynnol gyda phecyn dwys o gefnogaeth gyffredinol oedd yr unig opsiwn ac, efallai, y datrysiad mwyaf addas hyd yn oed:

'[...] nid oedd y darparwyr llety a oedd gennym yn gallu rheoli unrhyw le'n agos at y lefel o risg roedd yn dangos oherwydd roedd ganddo gollfarn am drosedd tân bwriadol hefyd [...] Felly roedd hynny'n gofyn am lawer o drafod rhwng yr awdurdod lleol, yr adran dai, ninnau, y gwasanaeth prawf a cheisio creu pecyn personol o gefnogaeth a oedd yn bodloni ei anghenion mewn gwirionedd. Fe ofynnom am fewnbwn [diogelwch tân] ac fe weithiom yn go agos gyda darparwr a oedd fwyaf addas i ddarparu'r pecyn mwyaf posib ar ei gyfer'. (LSYOT9)

## 4.5 Ymgysylltiad â Phobl Ifanc

Mae'r llenyddiaeth ailsefydlu yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltiad a chydweithredu gyda defnyddwyr. Dylai defnyddwyr weld datblygu cynllun fel tasg ar y cyd gyda chyfle i roi mewnbwn ar y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a'r canlyniadau y maen nhw'n anelu atynt (Malloch et al, 2013; Hart a Thompson, 2009). Mae Mason a Prior (2008) yn dadlau bod llunio perthnasoedd llwyddiannus yn gofyn bod ymarferwyr yn gallu: dangos empathi; dangos parch; dangos ymrwymiad at gyfiawnder cymdeithasol sy'n cydnabod y caledi cymdeithasol a materol y gallai'r person ifanc fod wedi'i dioddef; hyrwyddo cyfrifoldeb unigol dros weithrediadau ac ymddygiad; a chynnwys y person ifanc wrth gynllunio at y dyfodol.

Mae'r adrannau uchod wedi mynd i'r afael â chyfranogiad y bobl ifanc mewn cyfarfodydd erbyn ac adolygiadau misol. Roedd y cyfweliadau gyda phobl ifanc hefyd yn ystyried eu hymglymiad wrth gwblhau gwaith papur/ffurflenni a'r graddau roeddent yn ymwybodol o'i llety derbyn ac a oeddent wedi cael y cyfle i ymweld â'r llety.

### 4.5.1 Gwaith papur/ffurflenni

Nid oedd unrhyw berson ifanc yn gallu cofio cwblhau unrhyw waith papur/ffurflenni ar hyn gydag unrhyw un, a dywedon nhw y byddent yn hoffi gweld y ffurflenni a gafodd eu cwblhau amdanyn nhw, fel y dangosir yn y darn o'r cyfweliad hwn:

> ‘Cyfwelydd: Rydych chi'n mynd yn ôl i le adawoch chi, beth bynnag. Felly, ydych chi neu'ch gweithiwr achos neu unrhyw berson arall wedi llenwi unrhyw ffurflenni yn ymwneud â'ch sefyllfa byw?
> Gregor: Naddo.
> Cyfwelydd: Felly, dydych chi heb weld unrhyw ffurflenni sydd wedi cael eu hysgrifennu amdanoch chi a'ch llety?
> Gregor: Naddo.
> Cyfwelydd: Os oes unrhyw ffurflenni amdanoch chi'ch llety, a fyddech chi wedi hoffi gallu eu gweld?
> Gregor: Baswn, oherwydd rwyf wrthi'n ceisio cael mynediad.'

### 4.5.2 Rhoi gwybod i bobl ifanc am y llety derbyn

Mae yna adegau prin pan fo pobl ifanc ddim yn cael gwybod lle byddant yn mynd i fod yn byw cyn iddynt gael eu rhyddhau. Mae hyn er gwaethaf ymdrechion caled gan weithwyr lleol, gweithwyr allweddol ac uwch aelodau o staff, megis trwy gyfarfodydd wythnosol penaethiaid gwasanaethau, gan feddwl yn gyffredinol am opsiynau llety gan gynnwys parc carafannau. Yn aml, mae pobl ifanc yn cael eu hysbysu ond 'mae'n ymddangos fel rhywbeth funud olaf'. Adlewyrchwyd ar y canfyddiad hwn gan y grŵp ffocws uwch fudd-ddeiliad:

> 'Rwyf wedi clywed am esiamplau lle mae person ifanc digartref wedi dod i mewn i fy sefydliad, a'r adborth gan y person ifanc yw, wel roedden nhw'n gwybod o'r cychwyn eu bod nhw byth yn mynd yn ôl adref ac roedden nhw'n gwybod y basai eu rhieni nhw byth yn eu cymryd yn ôl, ac roedden nhw'n gwybod bod dim modd iddyn nhw fynd at anti neu wncl, ond roedd pobl eraill yn dueddol o feddwl y byddai hynny'n digwydd. Felly, roedd y person ifanc yn bryderus iawn ac yn poeni oherwydd eu bod yn gwbl glir bod hynny byth yn mynd i ddigwydd, ac eto roedd y bobl a oedd yn gweithio gyda nhw ac o'u hamgylch yn dweud, ie, rydw i wedi siarad â'r person hwn a'r person hwn...' (Grŵp ffocws, SS2)

Roedd budd-ddeiliaid lleol yn cytuno ei bod yn bwysig bod pobl ifanc yn cael eu hysbysu ac roeddent yn cydymdeimlo gyda sut roedd y bobl ifanc yn teimlo:

> 'Os ydych chi'n dweud wrthyn nhw dau, tri, pedwar, pum diwrnod ymlaen llaw, eich bod yn mynd i fod yn symud i'r dref nesaf neu hyd yn oed milltiroedd i ffwrdd, ond dydyn ni ddim yn gwybod gyda phwy fyddwch chi'n byw neu lle mae'r arhosfan bws lleol, mae hynny'n gwbl frawychus i blentyn. Maen nhw'n pryderu'n fawr. Fel y gwelwn o'u troseddu, os ydyn nhw'n bryderus, yn grac neu'n drist, mae hynny'n mynd i arwain at fwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol a dianc oherwydd maen nhw eisiau mynd yn ôl i le maen nhw'n perthyn, hyd yn oed os ydyn nhw'n dychwelyd i'w tref leol, ond i ardal wahanol, mae hynny'n frawychus iawn i blentyn os yw'n gorfod mynd i fyw gyda dieithriaid newydd neu mewn llety â chymorth am y tro cyntaf, os nad ydyn nhw erioed wedi byw yn lled-annibynnol.' (LSSE3)

### 4.5.3 Ymweliadau â llety cyn rhyddhau

Nid oedd unrhyw rai o'r bobl ifanc y cyfwelwyd â hwy wedi cael y cyfle i ymweld â llety ond dywedon nhw y byddent wedi hoffi cael y cyfle i wneud hynny. Nid yn unig o ran gwybod ymlaen llaw lle y byddent yn byw, ond hefyd oherwydd y byddai cael cyfle i ymweld â'r llety cyn cael eu rhyddhau'n cynyddu ymdeimlad person ifanc o ymgysylltiad yn y broses ac yn lleddfu unrhyw bryderon. Roedd y grŵp ffocws uwch fudd-ddeiliad yn cytuno bod hyn byth yn digwydd, er roeddent yn credu y gallai fod yn bosib, er enghraifft, trwy ddefnyddio ROTL gyda chaniatâd y llywodraethwr unigol. Ar hyn o bryd, nid yw hyn yn cael ei defnyddio'n aml a phan mae'n cael ei defnyddio, mae ar gyfer pobl ifanc sy'n dychwelyd i gartref y teulu neu a fydd yn cychwyn swydd pan fyddant yn cael eu rhyddhau. Fodd bynnag, maen nhw hefyd yn cydnabod, gyda'r terfynau amser tynn, lle mae yna anawsterau i 'gadw' llety, byddai trefnu ymweliad â'r llety cyn rhyddhau yn anodd iawn yn ymarferol.

Yn gyffredinol, roedd budd-ddeiliaid yn fwy cadarnhaol am wasanaethau digartrefedd na phobl ifanc. Yn fras, roedd tua hanner y bobl ifanc yn fodlon a hanner yn anfodlon gyda'u profiad. Roedd un person ifanc yn bryderus iawn bod ei dyddiad rhyddhau'n agosáu a dywedodd ei bod heb gael cyfle i siarad ag unrhyw un am ei lety derbyn, er ei bod wedi gofyn sawl tro.

## 4.6 Y Berthynas rhwng Partneriaid

Mae llenyddiaeth ailsefydlu'n dadlau bod gweithio mewn partneriaeth a chydlyniad yn allweddol o ran sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt tra yn y ddalfa ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2006; 2010; Carney a Buttell, 2003; Hazel et al, 2010b). Mae'r ddadl hon yn seiliedig ar y ffaith y bydd partneriaid unigol yn methu bodloni amrediad eang o anghenion pobl ifanc eu hunain.

Ymhlith y budd-ddeiliaid cenedlaethol, roedd rôl gwasanaethau plant yn cael ei hystyried i fod yn hanfodol, ond roedd rhai'n cwestiynu eu hymrwymiad at weithio mewn partneriaeth neu eu parodrwydd i roi blaenoriaeth uchel i achosion yn y ddalfa. Fodd bynnag, roedd dau fudd-ddeiliad cenedlaethol yn dadlau eu bod weithiau'n gweithredu mwy fel eiriolwyr gyda'r adran dai.

'Rydym dal yn cael problemau rhwng gwasanaethau plant ac opsiynau tai mewn rhai ardaloedd [...] Yn bennaf, mae hyn yn ymwneud â phwy sy'n gyfrifol am letya pobl ifanc, ymddengys mai dyna'r brif broblem [...] Rwy'n credu bod timau opsiynau tai'n well yn dod o hyd i ddatrysiadau tai da ar gyfer y sawl 16 ac 17 mlwydd oed yn bennaf. Os edrychwch chi ar y ffigurau gwely a brecwast...' (NS7).

'Rwy'n credu bod honno'n rôl allweddol. Rwy'n eu gweld yn gweithredu fel eiriolwyr dros bobl ifanc er mwyn sicrhau bod anghenion person ifanc yn cael eu bodloni. Mae'n nhw gwneud hynny'n dda iawn, weithiau'n cael cyfarfodydd heriol gyda'r adran dai a gyda ni' (NS3).

Roedd gwasanaethau plant o'r farn bod ganddynt berthynas dda gyda phartneriaid eraill, fel y mynegwyd yn y farn hon gan bennaeth gwasanaethau plant:

'Mae'r YOT yn rhan o wasanaethau plant i mi [...] Felly'r rôl yw sut rydym yn parhau i reoli a chefnogi pobl ifanc trwy'r YOT [...] Mae bron yn anochel bod gan blant sydd wedi bod yn yr ystad ddiogeledd rhywfaint o fregusrwydd y byddai'n awgrymu eu bod angen mwy o wasanaethau gan wasanaethau plant a'r tu hwnt i'r YOT [...] Mae gennym berthynas dda iawn gyda'r adran dai, sy'n gryf iawn' (NS18).

#### 4.6.1 Perchnogaeth y ddyletswydd a'r brif asiantaeth

Yn ogystal â'r dystiolaeth gymysg yn ymwneud ag amseroldeb gwneud atgyfeiriadau tai i'r awdurdod lleol, roedd gwahanol ddealltwriaeth hefyd o ran pa asiantaeth oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol, h.y. pwy oedd â'r ddyletswydd tuag at y person ifanc. Oherwydd deddfwriaeth orgyffyrddol, mae person ifanc 16-17 mlwydd oed yn y ddalfa yn gymwys i dderbyn dyletswydd gan wasanaethau plant ac opsiynau tai. Fodd bynnag, mae'r amgylchiadau sy'n pennu pwy sy'n gyfrifol yn gymhleth ac yn dibynnu'n fawr ar y person ifanc ac argaeledd llety.

Roedd yna anghysondebau yn esboniadau'r budd-ddeiliaid o sut roedd gwasanaethau plant a thai'n gweithio gyda'i gilydd. Roedd nifer o fudd-ddeiliaid yn dadlau bod gwasanaethau plant yn gyfrifol am bob person ifanc yn y Llwybr (sef yr hyn a nodir yn y Llwybr) a, felly, mai rôl yr adran dai yw cynorthwyo gwasanaethau

plant i sicrhau llety. Gan gymryd bod gwasanaethau plant yn comisiynu llety â chymorth a lleoliadau maeth, gellid gosod person ifanc yn y ddalfa mewn un o'r mannau hyn wedi ei ryddhau, neu gellid ei gosod mewn llety dros dro neu lety â chymorth, neu mewn llety annibynnol wedi'i hwyluso gan adran dai yr awdurdod lleol. Nododd un budd-ddeiliad tai y gallai fod yna sefyllfaoedd pan nad yw atgyfeiriad tai yn cael ei wneud oherwydd bod gwasanaethau plant wedi gallu dod o hyd i lety; er hyn, ymddengys mai'r disgwyliad oedd bod yna debygolrwydd uchel y byddai atgyfeiriad yn cael ei wneud oherwydd y llety a'r angen i geisio dod o hyd i'r datrysiad llety mwyaf addas:

> 'Yna [yn y ddalfa] mae'n ymwneud â choladu'r [wybodaeth ar dai], gan wneud yr atgyfeiriad priodol i wasanaethau plant yn barod ar gyfer rhyddhau, er mwyn i wasanaethau plant allu archwilio unrhyw opsiynau llety penodol y gallai fod yn bodoli ar gyfer yr unigolyn hwnnw [...] Fel arall, rhaid archwilio llwybrau lle bo'n briodol gyda phethau megis llety â chymorth neu atgyfeiriadau i lety â chymorth gydag asesiadau risg ayyb., yn cael eu coladu o unrhyw reolwr troseddau sy'n mynd i fod yn gysylltiedig â'r unigolyn hwnnw er mwyn ceisio trefnu cynnal asesiad tra bod yr unigolyn hwnnw yn y ddalfa ar gyfer y llwybrau hynny, er mwyn osgoi oedi. Fel y darparwr llety, os yw'r unigolyn hwnnw wedi dangos y gallu i ymdopi fel tenant annibynnol neu le nad yw'r opsiwn llety'n debygol o gael ei adnabod pan fyddant yn cael eu rhyddhau, dylid rhannu atgyfeiriad, ac yn sgil hynny unrhyw gynlluniau rheoli risg, cynlluniau gwasanaethau cymdeithasol a gwybodaeth, gyda ni er mwyn i ni allu gweithio gyda'r swyddog troseddau ieuenctid penodol a'r gweithiwr cymdeithasol i gytuno ar y llety gorau ar gyfer y person ifanc hwnnw pan fydd yn cael ei ryddhau'. (LSH5)

Fodd bynnag, ymddengys bod rhai budd-ddeiliaid yn dynodi bod dyletswydd ar wasanaethau plant i letya'r bobl ifanc hynny a oedd wedi bod dan ofal yr awdurdod lleol yn unig:

> 'Eto, ar gyfer y sawl 16/17 mlwydd oed, os yw'n berson ifanc y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, neu'n berson ifanc y YOT, basem hefyd yn edrych ar eu hawliau ariannol pan fyddant yn gadael. Felly, os ydynt wedi bod dan ofal yr awdurdod lleol am 13 wythnos o 14 oed hyd at 16, yna mae gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn gysylltiedig trwy'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ac

> mae dyletswydd o ofal arnynt felly mae angen darparu llety llawn er mwyn iddynt allu cael cefnogaeth. Os nad ydynt wedi bod mewn gofal, rhaid gweithio gyda'r awdurdod lleol yn unig i drefnu'r llety hwnnw ar eu cyfer. Eto, mae hwn yn llety addas, ond byddai angen ymgynghori'n fwy â'r paneli adsefydlu allanol, ond yr awdurdod lleol byddai'n arwain ar hynny'n bennaf.' (LSSE1)

Er, bu budd-ddeiliaid eraill esbonio bod y penderfyniad yn ymwneud â pha asiantaeth sy'n gyfrifol yn gallu dibynnu ar ddewisiadau'r person ifanc ei hun. Gan ystyried grŵp oedran y bobl ifanc, nodwyd bod person ifanc yn aml ddim eisiau ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, ac yn yr achosion hyn, tybir mai dyletswydd tai yw eu dewis.

> 'Rhai o'r heriau mwyaf yw bod gennym sefyllfaoedd lle nad yw'r person ifanc wir eisiau cefnogaeth fel person sy'n gadael gofal, ond mewn gwirionedd yr unig beth maen nhw ei eisiau yw llety. Felly yn y sefyllfaoedd hynny rydym yn cyfeirio'r mater at yr adran dai, ond mewn gwirionedd nid yw'r adran dai'n gallu dod o hyd i unrhyw beth addas ar gyfer y person ifanc. Yna mae bron yn teimlo fel ein bod yn ceisio ein gorau i gefnogi'r person ifanc hwnnw y gorau gallwn ni, oherwydd bod dim byd ar gael iddyn nhw yn yr adran dai, ac oherwydd dydyn ni ddim eisiau i'r person ifanc fod yn ddigartref, wrth reswm [...] ond mewn gwirionedd cyfrifoldeb yr adran dai yw hynny. Yr her i ni mewn gwirionedd yw bod hi'n ymddengys bod diffyg llety addas ar gyfer y sawl sy'n gadael y carchar a'r ystad ddiogeledd. (LSCS4)

Adlewyrchwyd y ffaith y gallai asiantaethau gwahanol fod yn gyfrifol yn y pen draw yng nghanlyniadau'r arolwg budd-ddeiliaid hefyd (gweler Tabl 4.3) er, yn ddiddorol, yr YOT oedd yn cael ei bennu fel y brif asiantaeth amlaf.

**Tabl 1.3: Pa asiantaeth sy'n arwain yn ymarferol?**

| | |
|---|---:|
| YOT | 18 |
| Gwasanaethau plant | 8 |
| Ddim yn gwybod | 8 |
| Arall | 3 |
| Tai | 2 |

Ffynhonnell: Arolwg budd-ddeiliaid, cyfanswm N=41

Yn gyffredinol, roedd diffyg eglurder ymhlith budd-ddeiliaid o ran pa sefydliad oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros droseddwr ifanc gyda phroblemau tai, ac mewn

perthynas â gwahanol gategorïau o bobl ifanc e.e. os oeddent ar remand neu yn y ddalfa, os oeddent wedi derbyn gofal cyn bod yn y ddalfa, eu hoedran. Esboniodd un cyfranogwr cyfiawnder ieuenctid mewn grŵp ffocws budd-ddeiliaid hŷn:

> 'Rwy'n credu bod yna wahanol gyfrifoldebau mewn perthynas â hynny, ac rwy'n credu bod hi'n anodd iawn i un asiantaeth fod yn gwbl gyfrifol oherwydd bod rhaid i chi edrych ar y llwybrau deddfwriaethol a allai fod yn berthnasol i bobl ifanc, gan ddibynnu a ydynt wedi derbyn gofal yn blentyn neu'n berson ifanc 16 neu 17 mlwydd oed sy'n cael problemau llety am y tro cyntaf. Felly rwy'n credu bod un berchnogaeth i mi braidd yn broblemus [...] o ran ei gweithredu, yn ddelfrydol rydych chi eisiau i bawb gymryd cyfrifoldeb ar y cyd.' (Grŵp ffocws, SS7)

Ar ben hynny, roedd trefniadau lleol hefyd yn amrywio rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Mae gan wasanaethau cymdeithasol lleol wahanol drothwyon o fregusrwydd ac maen nhw'n trin dymuniadau person ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol ai peidio yn wahanol. Fodd bynnag, y broblem gyda chyd-berchnogaeth yw bod yna risg y bydd y person ifanc yn derbyn dim cefnogaeth. Fel y nodwyd gan ddau uwch fudd-ddeiliad yn y grŵp ffocws:

> '...yr hyn sy'n digwydd yn ymarferol felly o ran dyletswydd o ofal tuag at y person ifanc 16 mlwydd oed mewn perthynas â llety yw eich bod yn gosod y person ifanc 16 mlwydd oed hwnnw mewn hostel enfawr, nodi eich bod cyflawni eich dyletswydd ond wedyn does dim cefnogaeth y tu ôl i hwnnw. Felly, mewn gwirionedd, rydych chi wedi osgoi eich cyfrifoldeb, ac rwy'n credu beth rydym yn ceisio gwneud yma yw gwirio'n llwyr, oni bai bod yna dystiolaeth eu bod ddim yn fregus, eu bod nhw'n fregus, ac nid yn unig oherwydd, eto os yw'n angen blaenoriaethol yn ymwneud â thai bod hynny'n aml yn arwain at brofiad hynod anghynaladwy, fel y gwyddoch' (Grŵp ffocws, SS)

> 'Rwy'n credu bod y dryswch yn dod o sut mae gwasanaethau cymdeithasol wedi'u trefnu bellach o dan ddeddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae'n ymwneud yn fawr â cheisio cadw pobl allan o wasanaethau cymdeithasol. Rwy'n deall yr hyn rydych chi'n dweud am y bobl hyn sy'n fregus,

ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu eu bod yn taro'r trothwy ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol.' (Grŵp ffocws, SS)

### 4.6.2 Strwythurau aml-asiantaeth

Mae Beyond Youth Custody (2017) yn cyfeirio at adolygiadau aml-asiantaeth fel newyddbeth ym maes ailsefydlu ieuenctid. Mewn rhai awdurdodau, mae systemau cyfeirio un-man-cyrraedd bellach yn bodoli ar gyfer tai sy'n galluogi un tîm i gael trosolwg o'r holl ddarparwyr llety a'u lleoedd gwag. Mewn awdurdodau lleol eraill, mae timau aml-asiantaeth o weithwyr cymdeithasol, gweithwyr cyffuriau, cynghorwyr iechyd a chynghorwyr tai wedi'u lleoli yn yr un adeilad i greu hyb cefnogaeth. Mae Paneli Adsefydlu neu Bartneriaethau Ailintegreiddio ac Adsefydlu hefyd yn bodoli mewn rhai ardaloedd.

Roedd yna farn gymysg ar y Paneli Adsefydlu hyn. Yn gyffredinol, roedd budd-ddeiliaid lleol yn fwy tebygol o'u hystyried i fod yn ddefnyddiol na'r budd-ddeiliaid cenedlaethol, yn enwedig os oedd anhawster yn ymwneud â pherson ifanc penodol. Esboniodd un budd-ddeiliad yn yr arolwg:

> 'Mae gan [ardal benodol] Panel Ailintegreiddio ac Adsefydlu bob 6 wythnos - mae YOT, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd oll yn eistedd gyda'i gilydd ac yn trafod unrhyw achosion a allai fod yn y ddalfa/dan fygythiad o fod yn y ddalfa neu yn y camau cynnar iawn o droseddu - mae'n gweithio'n dda iawn.' (OSS4)

Dyma un budd-ddeiliad tai yn y cyfweliadau â budd-ddeiliad lleol yn disgrifio esblygiad y Panel Adsefydlu yn eu hardal. I gychwyn, roedd achos pob person ifanc yn yr ystad ddiogeledd yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd y panel, hyd yn oed os nad oedd unrhyw broblemau. Esboniodd y budd-ddeiliad bod hyn yn teimlo fel gwastraff o amser pobl, felly erbyn hyn, yr unig achosion sy'n cael eu trafod yw'r sawl lle mae problem yn bodoli. Roedd hon yn cael ei hystyried fel ymagwedd lawer mwy effeithiol. Rhoddodd un budd-ddeiliad lleol arall o'r ystad ddiogeledd ddisgrifiad o'r Paneli Adsefydlu gan nodi eu bod yn effeithiol o ran dwyn pobl i gyfrif:

> 'O ran y plentyn hwnnw sy'n anodd ei leoli, amwn i fod y darparwyr tai yn eistedd ar y paneli adsefydlu. Os mai fi oedd yn y sefyllfa honno, baswn ni'n trafod fy

achos i, ond mae'n achos anodd. Dydych chi ddim eisiau'r unigolion, dydych chi ddim eisiau'r unigolion, dydych chi ddim eisiau'r unigolion. Beth ydyn ni'n mynd i wneud yma, oherwydd mae'r plentyn hwn yn dod beth bynnag sy'n digwydd, sut ydyn ni'n mynd i ddatrys y problemau a ble ydyn ni'n mynd i ddod o hyd i'r lleoliad addas? [...] amwn i mai'r hyn sy'n digwydd yw bod pobl yn cael eu dwyn i gyfri am y pethau maen nhw'n dweud. Os ydych chi'n dweud eich bod yn mynd i roi llety i mi, mae'r panel hwn bellach yn eich dwyn i gyfrif.' (LSSE5)

Mewn cyferbyniad, yn ôl y budd-ddeiliaid cenedlaethol, mae paneli adsefydlu naill ai wedi cael eu stopio neu mae'n ymddangos eu bod yn hercian, gyda phresenoldeb isel, mewn nifer o ardaloedd. Roedd cryn dipyn o'r sawl y cyfwelwyd â hwy nad oedd yn gwybod rhyw lawer amdanynt neu eu diben. Dywedwyd hefyd eu bod yn ansicr i ba raddau y dylent fod yn strategol ac i ba raddau'n weithredol tra bod dau ymatebwr hefyd yn credu y gallent fod yn creu risg o ddyblygiad.

‘NS13: 'Rwyf wedi cael barn negyddol erioed am baneli adsefydlu.
Cyfwelydd: Pam?
NS13: Oherwydd roeddwn yn teimlo mai proses arall yn unig ydoedd neu gyswllt arall yn y gadwyn a oedd yn cael ei gwblhau'n effeithiol mewn man arall.'

'Mae'r presenoldeb yn y byrddau wedi bod yn enbyd, rwy'n deall, ledled Cymru' (NS14)

Nid oedd strwythurau aml-asiantaeth yn bodoli ym mhob ardal, er roedd yna awydd am un weithiau. Fel yr esboniodd un budd-ddeiliad cenedlaethol:

'Beth rwy'n credu sy'n gweithio'n dda, ac mae hyn yn gweithio yn yr ystad oedolion ac rwy'n sicr y byddai'n gweithio'n dda gyda phobl ifanc, yw ymagwedd debyg i gynhadledd ar gyfer achosion aml-asiantaeth. Felly, cyn bod rhywun yn dod allan, byddai'r holl asiantaethau'n dod ynghyd [...] Dylai'r rheolwr troseddu oruchwylio hynny [...] ond yr holl asiantaethau a oedd yn gysylltiedig â'r person ifanc hwnnw yn dod at ei gilydd o amgylch y bwrdd' (NS4).

Tra bod rhannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth, yn gyffredinol, wedi cael eu trafod mewn modd cadarnhaol gyda chydnabyddiaeth bod gwelliannau

sylweddol wedi cael eu gwneud, o safbwynt y budd-ddeiliaid tai, mae angen gwelliant pellach mewn perthynas â chysondeb gwneud atgyfeiriadau a phrydlondeb yr atgyfeiriadau hyn.

### 4.7 Trosglwyddo o'r Llwybr Ieuenctid i Lwybr Oedolion

Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ymwybodol o broses trosglwyddo. Dywedodd un person a gyfwelwyd o'r YOT, fodd bynnag, bod gwelliannau sylweddol wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diweddar i sicrhau trosglwyddiad gyda mwy o gefnogaeth, er mae'n bosib y gallai'r broses fuddio o fwy o eglurder o ran nodi pwy ddylai fod yn goruchwylio'r broses:

> 'Un o'r heriau mawr gyda'r newidiadau ym maes prawf ar hyn o bryd yw pwy sy'n gwneud y gwaith cydlynu? Pwy yw'r rheolwr troseddu sy'n gweld y daith drwodd o [...] ac i ni, y rheolwr achos o fewn y YOT yw hwnnw, ond yn gweithio ar y cyd, os oes yna gyfnod pontio, mae person ifanc yn mynd i fod yn oedolyn ac yn croesi'r llinell i fod yn 18, yna byddem yn gwneud hynny gydag ail swyddog prawf er enghraifft. Os oes angen, os yw anghenion yn awgrymu y dylem, yna byddem yn parhau i weithredu fel swyddog goruchwylio'r person ifanc hwnnw am gyfnod go hir ar ôl ei ben-blwydd yn 18. Felly, byddai cyfnod pontio'n digwydd, nid ar ben-blwydd yr unigolyn yn 18 fel yr oedd arfer digwydd blynyddoedd yn ôl gyda'r unigolyn yn cwympo oddi ar y clogwyn ac i mewn i'r ddalfa, mae hynny bellach yn cael ei wneud mewn modd mwy trefnus ac effeithlon, gyda'r gobaith o gael canlyniad mwy cadarnhaol. Fe fydd yna gyfnod pontio, ond pan mae'r person ifanc yn barod. Felly, mae cydweithio fel hyn yn welliant enfawr o gymharu â'r system flaenorol.' (LSYOT2)

Ymddengys bod y gwelliannau hyn wedi cael eu gwneud oherwydd problemau yn y gorffennol lle roedd pobl ifanc a oedd yn cael eu symud i gyfleusterau oedolion yn sydyn yn gwneud hynny mewn modd heb ei gynllunio a oedd, i rai, yn cynyddu eu bregusrwydd yn sylweddol. Nid oedd y budd-ddeiliad hwn yn gwybod y manylion o ran trosglwyddo Llwybr ond yn seiliedig ar y dyfyniad hwn, ymddengys bod cydweithio'n allweddol.

Wrth sôn am bontio o'r llwybr ieuenctid i oedolion, bu dau ymatebwr i'r arolwg gyfeirio at wasanaethau prawf a phedwar ymatebwr arall gyfeirio at rôl ganolog y

YOT yn y broses pontio. Cyfeiriodd un o'r ymatebwyr blaenorol at gynghorwyr personol hefyd yn aros yn eu lle ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal.

## 4.8 Effaith y Llwybr

Ychydig fudd-ddeiliaid cenedlaethol yn unig oedd yn gallu adnabod newidiadau ymarferol a oedd wedi digwydd yn sgil y Llwybr. Bu rai nodi newidiadau ond roeddent yn ansicr a oedd y rhain yn sgil y Llwybr neu ddatblygiadau eraill (e.e. y gostyngiad mawr yn y niferoedd yn y ddalfa). Gan fod gwybodaeth am y Llwybr yn gyfyngedig, roedd y sawl y cyfwelwyd â hwy yn cael trafferth yn mesur newidiadau a ddaeth yn ei sgil (a dywedodd rhai yn benodol y gallai ffactorau eraill fod yn gyfrifol am y newidiadau hyn). Pan roedd y sawl y cyfwelwyd â hwy'n gallu sôn am newidiadau, y sawl y soniwyd amdanynt amlaf oedd gwelliannau cyfathrebu a chydweithio rhwng asiantaethau, mwy o ymgysylltiad gan awdurdodau lleol a gostyngiad yn y defnydd o lety gwely a brecwast. Ni nodwyd llawer o newidiadau yn y drefn gweithredu. Bu tua thraean gyfeirio at welliannau mewn cyfathrebu/partneriaeth/ymgysylltiad gan asiantaethau eraill, fel y dangosir gan y dyfyniadau canlynol: 'Mae wedi dod ag awdurdodau lleol i'r bwrdd' (NS10): 'Rydym wedi cael perthynas weddol dda gyda'n hadran tai erioed, ond rwy'n credu bod hynny wedi gwella [...] Mae cynnydd wedi bod yn y cyfathrebu' (NS3). Roedd y budd-ddeiliaid lleol yn ei gael yn haws trafod effaith y Llwybr. Bu nifer o fudd-ddeiliad lleol y cyfwelwyd â hwy dynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â digartrefedd ac aildroseddu ieuenctid, tra bod eraill yn dadlau bod angen symleiddio'r broses ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael yr ystad ddiogeledd ac yn cael eu gosod mewn llety. Roedd hyn yn seiliedig ar gydnabyddiaeth bod prosesau cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol a thai ddim yn gweithio gyda'i gilydd ar bob adeg a bod yna angen am ymagwedd gyd-drefnus aml-asiantaeth.

> 'Fy nealltwriaeth yw y byddai mwy o ymagwedd aml-asiantaeth cyn rhyddhau'r unigolyn o'r ddalfa, felly byddai pob asiantaeth yn ymwybodol o'r hyn a oedd ar gael ar gyfer yr unigolyn hwnnw, beth oedd orau ar gyfer yr unigolyn er mwyn gallu rhannu gwybodaeth. Bod yr unigolyn hefyd yn ymwybodol o'r hyn a oedd angen digwydd pan fyddai'n cael ei ryddhau a, lle bo'n bosib, gellid adnabod opsiynau llety cyn rhyddhau - ynghyd â gwasanaethau cefnogi priodol ar gyfer yr unigolyn hwnnw er mwyn ei baratoi i gael ei ryddhau.' (LSH5)

Yn cyd-fynd â hyn, roedd nifer o fudd-ddeiliaid lleol yn teimlo mai budd pennaf y Llwybr, a'r rheswm dros ei gyflwyno, yw ei bod yn amlinellu cyfrifoldebau gwahanol asiantaethau ac, yn ei dro, gellid dwyn asiantaethau i gyfrif mewn modd mwy effeithiol.

Fodd bynnag, roedd nifer o fudd-ddeiliaid yn teimlo bod y Llwybr heb newid unrhyw agwedd o'u gwaith gan mai'r cwbl roedd yn gwneud oedd cipio'r hyn a oedd eisoes yn digwydd. Felly, roedd y budd-ddeiliaid yn cael trafferth yn adnabod y newidiadau roedd y Llwybr ei hun wedi'u hachosi. Roedd barn gymysg hefyd o ran a oedd newid wedi bod tuag at ymagwedd o 'ddatrys problemau' gyda'r 'person yn ganolog' i hyn. Roedd rhai'n anghytuno, rhai'n cytuno, rhai ddim yn gwybod a rhai'n dweud bod ymagwedd o ddatrys problemau'n bodoli eisoes.

Nifer fechan o fudd-ddeiliaid oedd yn gallu dweud yn hyderus ei bod wedi cael effaith fesuradwy. Gofynnodd y cyfwelydd i un budd-ddeiliad cenedlaethol: 'A ydyn ni'n mesur y canlyniadau caled y mae gofyn i ni wneud dan y Ddeddf?', gyda'r ymateb 'Rwy'n credu bod hynny ond yn berthnasol pan rydym yn adrodd i Cefnogi Pobl. Rwy'n credu bod pawb yn gwneud hynny'n wahanol, nad ydyn nhw?' (NS3). Roedd diffyg gwybodaeth fanwl gywir i ddangos effeithiolrwydd y Llwybr, er roedd rhai budd-ddeiliaid cenedlaethol wedi sylwi absenoldeb neu ostyngiad mewn achosion lle mae pryderon yn cael eu codi am blant yn gadael y ddalfa ac yn mynd i lety anaddas. Nodwyd hefyd, gan fod cyn lleied o achosion, bod dim modd dibynnu ar yr ystadegau. Nododd y sawl y cyfwelwyd â hwy o'r trydydd sector hefyd bod llawer o'r gwaith gydag unigolion cymhleth ac anodd, a chynnydd pwysig o ran eu hunan-barch ac ymgysylltiad gyda nhw, yn aml yn mynd heb ei gofnodi.

### 4.8.1 Arfer da

Yn ychwanegol at yr effaith gadarnhaol ar gydweithio y nodwyd uchod, nodwyd esiamplau o arferion da gan y sawl a ymatebodd i'r arolwg budd-ddeiliad: gwahodd partneriaid newydd i gyfarfodydd; cadw lle llety dros dro ar agor i berson ifanc; a chael swyddog llety dros dro yn benodol ar gyfer pobl ifanc (gweler Tabl 4.4 isod). Aeth un ymatebwr ymlaen i esbonio:

> 'Mae gan [awdurdod lleol penodol] swyddog tai yn benodol ar gyfer pobl ifanc sy'n eistedd o fewn gwasanaethau cymdeithasol felly mae modd rhannu

gwybodaeth yn hawdd ac rydym yn cynnal cyfarfod misol gydag amryw asiantaethau, gan gynnwys yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, GDAS, Landlordiaid Cyhoeddus, Iechyd mae a Swyddog Tai'r Cyngor er mwyn i ni allu edrych ar bob achos prawf, darparu'r cyngor gorau a gweithio gyda'n gilydd.' (OSS5)

**Tabl 4.4: A ydych chi wedi adnabod unrhyw arfer da neu arloesedd o fewn neu'n ymwneud â'r Llwybr i bobl ifanc? (Gellir dewis mwy nag un ateb)**

| | |
|---|---|
| Gwahodd partneriaid i gyfarfodydd nad oeddent yn rhan ohonynt yn flaenorol | 22 |
| Cadw lle mewn llety dros dro am gyfnod byr yn barod am berson ifanc sy'n gadael yr ystad ddiogeledd | 16 |
| Swyddog llety dros dro yn benodol ar gyfer pobl ifanc | 15 |
| Prosesau sy'n cysylltu'r person ifanc â chefnogaeth iechyd meddwl | 13 |
| Datblygu gwaith papur ar y cyd i'w rannu - er mwyn osgoi dyblygiad | 8 |
| Dim arferion da neu arloesi | 5 |
| Newidiadau i'r system dyrannu achosion o fewn asiantaeth partner | 3 |
| Arall | 3 |

Ffynhonnell: Arolwg budd-ddeiliaid, cyfanswm N=41, caniateir nifer o ymatebion

### 4.8.2 Heriau a meysydd i'w gwella

Gan dynnu ar yr adrannau uchod, y prif heriau a nodwyd gan y sawl a gymerodd ran yn yr ymchwil oedd:

- mae yna ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Llwybr; roedd mwyafrif y budd-ddeiliaid yn meddu ar ddealltwriaeth amwys neu gyffredinol ohono yn unig
- mae yna awgrym bod atgyfeiriadau tai ddim yn cael eu gwneud ar bob adeg neu ddim yn cael eu gwneud yn brydlon
- mae yna awgrym bod staff opsiynau tai angen gwybodaeth fwy manwl am bobl ifanc i hysbysu'u penderfyniadau (h.y. nid yw YOT/gwasanaethau plant o reidrwydd yn darparu adrannau tai â manylion llawn am sefyllfa person ifanc wrth wneud atgyfeiriad)
- roedd yna bryderon am wasanaethau tai â chymorth yn cau a bod dim digon o lety â chymorth (ac yn benodol, dim digon o lety â chymorth sy'n fodlon lletya pobl ifanc o risg uchel)
- mae'n anodd iawn dod o hyd i lety i droseddwyr o risg uchel (tanau bwriadol a throseddau rhywiol) gan fod mwyafrif y darparwyr llety yn gwrthod eu cymryd

- Mae pobl ifanc Cymreig mewn sefydliadau yn Lloegr yn cael trafferth o ran teuluoedd a gweithwyr cefnogaeth yn gallu ymweld â hwy'n hawdd: ond nid yw hyn yn broblem sy'n ymwneud yn benodol â'r Llwybr, mae'n rhan o broblem fwy o osod unigolyn mewn sefydliad pell i ffwrdd o adref
- mae'n anodd iawn cadw lle 'ar agor' mewn llety â chymorth i berson ifanc sydd ar fin cael ei ryddhau, sy'n golygu yn aml eu bod ddim yn gwybod lle byddant yn cael eu lletya tan ychydig ddiwrnodau cyn eu rhyddhau
- nid yw rhai pobl ifanc yn teimlo wedi'u hymgysylltu, bod ganddynt ddigon o ran neu wybodaeth am y broses
- roedd pryderon am leihad yn yr adnoddau ac adnoddau annigonol gwasanaethau yn gyffredinol
- mae yna ganfyddiad bod dim arfer safonol ar gyfer pobl ifanc sy'n troi'n 18.

Ni wnaethpwyd lawer o awgrymiadau am ychwanegiadau neu newidiadau i'r Llwybr yn y cyfweliadau. Ymhlith y rhai a nodwyd gan fudd-ddeiliaid cenedlaethol oedd galluogi YOTs i wneud blaendaliadau er mwyn cadw gwlâu am gyfnod hirach cyn rhyddhau (er roedd yna gydnabyddiaeth gan eraill bod hyn yn digwydd weithiau). Dangosir yr awgrym i alluogi cadw llety yn y dyfyniad hwn:

> 'Mae gennym gyfres o blant eraill mewn angen, does dim digon o leoliadau, does neb yn gallu cadw lleoedd gwag, mae'n costio arian. Dyna le gallai'r YOTs gamu i mewn os yw wedi'i gynllunio'n gywir. Mae'r adran dai'n rhan o'r broses, mae'n bosib y gallai'r YOT drefnu a thalu am y lle gwag hwnnw efallai mis ymlaen llaw' (NS16).

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr yn yr arolwg budd-ddeiliad am feysydd o welliant. Gan adlewyrchu'r canfyddiad uchod mai diffyg llety â chymorth yw'r rhwystr mwyaf at roi'r Llwybr  ar waith, y gwelliant a nodwyd amlaf oedd cynyddu argaeledd llety â chymorth, fel y dangosir yn Nhabl 4.5. Awgrymodd ymatebwyr i'r arolwg budd-ddeiliad hefyd bod angen hyfforddiant ar y Llwybr. Byddai hyn yn synhwyrol o ystyried y canfyddiadau uchod ar yr ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r Llwybr a'r dryswch dros berchnogaeth y ddyletswydd.

Argymhellodd budd-ddeiliaid cenedlaethol hefyd cael mwy o gynadleddau achosion aml-asiantaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth unigol a lleoli cynghorwyr/eiriolwr

rhan amser yn y ddalfa. Yn yr un modd, mae Madoc-Jones et al (2018) yn awgrymu cynyddu capasiti i gyflwyno'r Llwybr ar gyfer oedolion trwy ddatblygu trefniadau cydweithio.

Argymhellodd yr ymatebwyr i'r arolwg budd-ddeiliad swyddog tai yn benodol ar gyfer pobl ifanc hefyd i oruchwylio gweithrediad y Llwybr. Yn ogystal â chael partneriaid priodol yn eu lle, mae'r llenyddiaeth ailsefydlu hefyd yn trafod eu cydlyniad. Awgryma Bateman et al (2013), yn seiliedig ar y llenyddiaeth, bod model cydlyniad ar ffurf partneriaeth (neu 'broceriaeth') yn effeithiol. Mewn geiriau eraill, dylai pob YOT benodi rheolwr i hyrwyddo ailsefydlu ac i weithredu fel cyswllt allweddol ar gyfer partneriaid. Mae Bateman et al (2013) hefyd yn tynnu sylw at gyflogi gweithwyr ailsefydlu fel cydlynwyr partneriaeth yn hytrach na gweithwyr achos fel cam arloesol ym maes ailsefydlu ieuenctid.

Gan adlewyrchu'r canfyddiad bod pobl ifanc eisiau gwybod beth sy'n digwydd, roedd yr ymatebwyr i'r arolwg budd-ddeiliad hefyd yn cefnogi datblygu proses i sicrhau bod y person ifanc yn gwybod ymlaen llaw lle byddant yn cael eu lletya. Eto, mae'r llenyddiaeth ailsefydlu'n argymell cynnwys y person ifanc wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol (Malloch et al, 2013; Hart a Thompson, 2009; Mason a Prior, 2008).

O ran egluro perchnogaeth y ddyletswydd, roedd y grŵp ffocws uwch fudd-ddeiliaid yn cefnogi'r syniad o greu crynodeb dwy-dudalen o'r Llwybr, ac y dylid gwneud mwy o waith i hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Llwybr.

**Tabl 4.5: Pa welliannau (os o gwbl) basech chi'n eu hawgrymu ar gyfer y Llwybr i bobl ifanc a'r arferion cysylltiedig? (Gellir dewis mwy nag un ateb)**

| | |
|---|---|
| Mwy o lety â chymorth ar gael | 32 |
| Llety digonol â chymorth sydd ar gael 24/7 | 30 |
| Darparu person ifanc gyda bwyd brys am 24 awr ar ôl ei ryddhau | 26 |
| Proses i sicrhau bod person ifanc yn gwybod ymlaen llaw lle byddant yn cael eu lletya | 26 |
| Hyfforddiant ar y Llwybr | 25 |
| Swyddog tai yn benodol ar gyfer pobl ifanc i oruchwylio'r Llwybr | 21 |
| Cynnwys yr adran dai yng nghamau cyn y ddalfa a derbyn y Llwybr | 20 |
| Mynd i'r afael â rhent uchel mewn llety â chymorth | 20 |
| Creu crynodeb (fersiwn syml) o'r Llwybr | 16 |
| Cyfathrebu gwell rhwng rheolwyr a staff y rheng flaen o ran beth mae'r Llwybr yn cynnwys | 16 |
| Creu canolfan llety arbenigol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael yr ystad ddiogeledd | 15 |
| Gwella mynediad at/cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau allan o oriau | 15 |
| Mae angen strategaeth gliriach ar gyfer prosesau trosglwyddo | 14 |
| Mae angen asesiad cyffredinol o anghenion a bod hwn yn cael ei rannu gyda'r trydydd sector | 14 |
| Rhannu adeilad swyddfa rhwng gwasanaethau tai a phlant | 7 |
| Creu gwasanaethau rhanbarthol i wella cysondeb ac i ymdopi â mewnlifiad posib | 6 |
| Arall | 2 |
| Dim gwelliannau/argymhellion | 1 |

Ffynhonnell: Arolwg budd-ddeiliaid, cyfanswm N=41, caniateir nifer o ymatebion

## 5. Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r bennod olaf hon yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol ac yn amlinellu ein hargymhellion. Tra bod y gwerthusiad yn casglu barn o nifer fawr o fudd-ddeiliaid strategol, rheolaethol a rheng flaen, roedd y sampl o bobl ifanc yn fach a allai peri pryder am gyffredinolrwydd eu barn. Fodd bynnag, mae nifer fechan y cyfweliadau yn adlewyrchu nifer fechan y boblogaeth o bobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa gyda phroblemau tai. Ar ben hynny, er gwaethaf perthnasedd cyfyngedig y Llwybr, mae'r boblogaeth y mae'n ymwneud ag yn grŵp o bobl ifanc fregus gydag anghenion cymhleth sydd mewn perygl o aildroseddu. Felly, mae'n bwysig ystyried yr holl ganfyddiadau ac argymhellion yn ofalus.

### 5.1 Prif Ganfyddiadau

- Mae nifer y bobl ifanc yn yr ystad ddiogeledd yn isel ac mae'r nifer sy'n cael eu rhyddhau gyda phroblemau llety yng Nghymru hyd yn oed yn is.
    - Mae nifer y bobl ifanc sy'n gysylltiedig â YOT yng Nghymru, sy'n gwneud dedfryd o garchar, bellach ychydig dros draean y nifer yn 2012 (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2019a). Roedd 32 person ifanc yn y ddalfa yn 2018 o gymharu â 90 yn 2012. O'r bobl ifanc hynny, rhai ohonynt yn unig fydd â phroblemau llety. Roeddem yn gallu adnabod wyth yn ein hastudiaeth.
    - Priodolwyd y niferoedd isel hyn gan fudd-ddeiliaid yn ein hastudiaeth i'r ymdrechion rhagweithiol gan y sawl ym maes cyfiawnder ieuenctid i ddargyfeirio pobl ifanc o'r ddalfa. Felly, er bod y niferoedd isel wedi peri problemau ar gyfer yr astudiaeth hon, yn gyffredinol, dylid meddwl am y sefyllfa mewn modd cadarnhaol.

- Ymwybyddiaeth gyfyngedig sydd o'r Llwybr ymhlith budd-ddeiliaid.
    - Mae hyn yn rhannol oherwydd perthnasedd cyfyngedig y Llwybr oherwydd nifer isel y bobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r ystad ddiogeledd gyda phroblemau llety yng Nghymru.

- Dengys fod y bwlch mwyaf mewn dealltwriaeth yn ymwneud â pha asiantaeth sydd â chyfrifoldeb a rolau gwasanaethau plant ac adrannau tai awdurdodau lleol.

    - Roedd rhai budd-ddeiliaid yn dadlau bod gan wasanaethau plant gyfrifoldeb dros fodloni anghenion llety pob person ifanc sy'n gadael y ddalfa, tra bod eraill yn awgrymu bod ganddynt ddyletswydd tuag at y sawl a oedd â statws Derbyn Gofal cyn mynd i'r ddalfa yn unig, tra bod eraill yn dynodi bod yna ddisgresiwn o ran pa asiantaeth sydd â chyfrifoldeb gan ddibynnu ar amgylchiadau a dewisiadau penodol person ifanc.

- Yn gyffredinol, mae'r Llwybr yn cael ei roi ar waith fel y rhagwelwyd, er mae rhai heriau a meysydd y gellid eu gwella.
    - Yn ystod y cyfnod cyn y ddalfa, roedd mwyafrif y budd-ddeiliaid yn dadlau bod anghenion tai, gofal a chefnogaeth yn cael eu hadnabod a'u cofnodi yn yr adroddiad cyn y ddalfa.
    - Nid oedd YOTs yn rhannu adroddiadau cyn-dedfrydu gyda gwasanaethau plant bob tro ond roedd yna ansicrwydd o ran a oedd yn briodol iddynt wneud hynny.
    - Roedd consensws cyffredinol bod cynllunio ar gyfer rhyddhau'n cychwyn yn gynnar yn y broses, yn aml o'r adeg derbyn yn y ddalfa.
    - Roedd pobl ifanc a oedd yn gwneud dedfrydau byr neu rhai gyda newidiadau i'w hanghenion llety yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa yn peri her i fudd-ddeiliaid gan eu bod yn gweithio o fewn terfynau amser byr iawn er mwyn sicrhau bod llety priodol yn ei le cyn eu rhyddhau.
    - Roedd nifer o fudd-ddeiliaid lleol yn dadlau, ar gyfer y sawl a oedd angen llety, ei bod yn afrealistig disgwyl bod llety'n cael ei drefnu 66 diwrnod cyn eu rhyddhau, er roedd dal yn ddefnyddiol i gael gwybod am berson ifanc yn y sefyllfa hon.
    - Nododd budd-ddeiliaid y YOT a gwasanaethau plant bod atgyfeiriadau i adrannau tai awdurdodau lleol yn cael eu gwneud yn brydlon bob tro, ond roedd budd-ddeiliaid tai'n honni bod yna achosion (er yn brin) pan roeddent ond yn dod i wybod am berson ifanc mewn angen ar y diwrnod roeddent yn cael ei ryddhau.

- Nid oedd rhai pobl ifanc yn teimlo eu bod yn rhan o gynllunio llety na chwaith yn gwybod beth oedd yn digwydd. Ni soniodd unrhyw un am fod yn rhan o lunio'r gwaith papur neu hyd yn oed am weld unrhyw waith papur a oedd wedi'i gwblhau am eu

sefyllfa llety, na chwaith am ymweld â llety cyn eu rhyddhau. Roedd nifer fechan nad oedd yn gwybod lle roeddent yn mynd i fod yn byw ar ôl eu rhyddhau.

  - Roedd rhai uwch fudd-ddeiliaid o'r farn y gellid cyflwyno cyfnod cyn rhyddhau, o bosib gan ddefnyddio Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL). Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cydnabod y terfynau amser tynn, lle mae yna anawsterau mewn llety 'dros dro' (caiff hwn ei ystyried isod), a byddai trefnu ymweliad llety cyn rhyddhau yn anodd iawn yn ymarferol.

- Mae pobl ifanc sy'n cael eu lleoli mewn sefydliadau diogel yn bell i ffwrdd o'u trefi cartref neu bobl ifanc sy'n cael eu pennu i fod yn 'risg uchel' oherwydd natur eu collfarn neu gymhlethdod eu hanghenion, dan fwy o anfantais nag eraill o ran sicrhau llety a chefnogaeth briodol ar ôl eu rhyddhau.
  - Mae'r sawl sy'n cael eu lleoli'n bell o'u trefi cartref yn cael anhawster yn cynnal cysylltiadau teuluol a darparwyr cefnogaeth sy'n ymwneud â nhw yn y sefydliadau.
  - Mae pobl ifanc sy'n cael eu pennu i fod yn 'risg uchel' yn aml yn cael eu heithrio o gael mynediad at lety â chymorth, gan fod darparwyr yn amharod i'w lletya.

- Llety â chymorth a chyfryngiad oedd y ddau brif 'gam rhesymol' a ystyriwyd gan adrannau tai awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phobl ifanc yn y ddalfa dan fygythiad o ddigartrefedd.

- Y rhwystr mwyaf at gyflwyno'r Llwybr yw diffyg llety â chymorth a phroblemau yn cadw lleoliadau llety â chymorth ar agor tra bod person ifanc yn aros i gael ei ryddhau.
  - Er bod y Llwybr yn nodi y dylid hysbysu person ifanc o le byddant yn cael eu lletya o leiaf 7 diwrnod cyn eu rhyddhau, mae'r anawsterau wrth sicrhau lle mewn llety â chymorth yn golygu na fod y terfyn amser hwn yn cael ei bodloni bob tro.
  - Mae yna gamgymhariad rhwng y terfyn amser 7 diwrnod a nodir yn y Llwybr, a phrosesau cyfiawnder ieuenctid sy'n gofyn bod llety'n cael ei sicrhau tua un mis cyn rhyddhau er mwyn caniatáu digon o amser i drefnu cefnogaeth ychwanegol, lleoliadau addysg/cyflogaeth ac i fodloni amodau trwyddedau.

- Er bod budd-ddeiliaid yn cytuno'n unfrydol y byddai person ifanc byth yn cael ei ganiatáu i symud o soffa i soffa neu i gysgu ar y stryd ar ôl cael ei ryddhau, o bryd i'w gilydd mae pobl ifanc yn cael eu rhyddhau heb lety addas, neu maen nhw'n symud i mewn i lety anaddas, ac yn gadael yn gyflym.

- Mae llety gwely a brecwast yn dal i gael ei defnyddio mewn rhai ardaloedd.
  - Nid oedd pob budd-ddeiliad yn cytuno y dylid ei defnyddio, gyda rhai yn nodi agweddau cadarnhaol.
  - Mae hyn er bod y Llwybr yn nodi bod llety gwely a brecwast yn anaddas oni bai mai dyna oedd y dewis olaf (Llywodraeth Cymru, 2015a; 2016). Mae ymchwil wedi dangos bod llety gwely a brecwast yn cynyddu'r risg o aildroseddu a'r risgiau i bobl (Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, 2016).
  - Fodd bynnag, ymddengys fod y defnydd parhaus o lety gwely a brecwast yn adlewyrchu'r prinder llety â chymorth, oherwydd iddo gael ei defnyddio'n aml fel y dewis olaf.

- Mae angen mwy o lety â chymorth, yn benodol llety sy'n darparu cefnogaeth gynhwysfawr, arbenigol ar gyfer y bobl ifanc hyn gydag anghenion cymhleth.
  - Awgrymodd rhai uwch fudd-ddeiliaid bod partneriaid yn cronni cyllidebau i ariannu hyn, yn ogystal â chynnwys llety gwely a brecwast o ansawdd uchel yn y mathau o lety â chymorth.

- Roedd modd teimlo prif effaith y Llwybr yn y datblygiad o berthnasau gwaith agosach rhwng partneriaid a helpu i 'ddod ag asiantaethau i'r bwrdd'.

  - Honnodd nifer fechan o fudd-ddeiliaid lleol mae prif fudd y Llwybr yw fel arf i ddal partneriaid eraill i gyfrif os nad ydynt yn cael eu gweld i fodloni eu dyletswyddau.
  - Wedi dweud hynny, nododd rhai o'r budd-ddeiliaid a oedd yn gyfarwydd â'r Llwybr, neu a oedd wedi ymgyfarwyddo yn sgil cymryd rhan yn yr ymchwil, bod y Llwybr ond yn amlinellu'r hyn a oedd eisoes yn cael ei wneud.

- O ran rhoi'r Llwybr ar waith yn y dyfodol, teimlwyd y byddai strwythurau i gefnogi adolygiadau achos aml-asiantaeth a brocer ailsefydlu/tai yn ddatblygiadau

defnyddiol. Ar ben hynny, does dim system yn ei le ar hyn o bryd i fesur a monitro effaith y Llwybr.

## 5.2 Argymhellion

### 5.2.1 Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Llwybr

- Mae angen codi ymwybyddiaeth ar lefel rheoli ac ar y rheng flaen ar draws pob sector.
- Dylid cynhyrchu crynodeb dwy-dudalen o'r Llwybr.
- Dylai unrhyw hyrwyddiad a hyfforddiant egluro cyfrifoldebau sefydliadau yn ymwneud â gwahanol gategorïau o bobl ifanc (h.y. pwy sy'n gyfrifol).
- Dylai unrhyw hyrwyddiad a hyfforddiant ystyried y dull orau o ymgysylltu a chydweithredu gyda phobl ifanc. Mae Madoc-Jones et al (2018) hefyd yn argymell hyfforddi staff ar egwyddorion symbylu ac ymgysylltu â throseddwyr mewn modd cadarnhaol.

### 5.2.2 Cynyddu argaeledd o lety 'addas' â chymorth

### 5.2.3 Adeiladu ar weithio mewn partneriaeth

- Dylid ystyried cyd-leoli asiantaethau neu leoli gweithwyr achos unigol mewn asiantaethau partner (e.e. gweithiwr YOT yn yr adran opsiynau tai neu swyddog tai yn y YOT).
- Creu neu gefnogi strwythurau aml-asiantaeth ar gyfer adolygiadau achosion (yn unol â llenyddiaeth ailsefydlu – Beyond Youth Custody, 2017; Bateman et al, 2013).

### 5.2.4 Cyflwyno system o gydlyniad rhwng partneriaid

